



Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Cynllun Datblygu Lleol

2011 - 2026

## Adroddiad Monitro Blynyddolyunio (Hydref 2017)



<b>Crynodeb Gweithredol</b> .....	<b>3</b>
-----------------------------------	----------

## **RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir**

<b>1 Cyflwyniad</b> .....	<b>8</b>
<b>2 Y Newid Cyd-destunol</b> .....	<b>11</b>
2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol .....	11
2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol .....	16
2.3 Y Cyd-destun Lleol .....	17

## **RHAN 2 - Monitro'r CDLI**

<b>3 Y Strategaeth</b> .....	<b>22</b>
3.1 Y Strategaeth .....	22
<b>4 Polisiâu Troswaol</b> .....	<b>25</b>
4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd .....	25
4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd .....	31
4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy .....	35
4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith .....	37
<b>5 Polisiâu Ardal</b> .....	<b>41</b>
5.1 Polisi Strategol 5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir .....	41
5.2 Polisi Strategol 6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd .....	59
<b>6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy</b> .....	<b>69</b>
6.1 Polisi Strategol 7 - Gofynion Tai .....	69
6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy .....	72
6.3 Polisi Strategol 9 - Sipsiwn a Theithwyr .....	78
6.4 Polisi Strategol 10 - Mannau Agored .....	80
<b>7 Hybu Economi Gynaliadwy</b> .....	<b>83</b>
7.1 Polisi Strategol 11 - Twf Cyflogaeth .....	83
7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu .....	99
7.3 Polisi Strategol 13 - Twristiaeth .....	101

<b>8</b>	<b>Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd</b>	<b>103</b>
8.1	Polisi Strategol 14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu	103
8.2	Polisi Strategol 15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaethy	105
8.3	Polisi Strategol 16 - Amddiffyn yr Amgylchedd	107
8.4	Polisi Strategol 17 - Mwynau	110
8.5	Polisi Strategol 18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel	114
8.6	Polisi Strategol 19 - Rheoli Gwastraff	117
<b>9</b>	<b>Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy</b>	<b>121</b>
9.1	Polisi Strategol 20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth	121
<b>10</b>	<b>Parchu Unigrywiaeth</b>	<b>127</b>
10.1	Polisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol	127
10.2	Polisi Strategol 22 - Yr Iaith Gymraeg	130

## RHAN 3 - Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

<b>11</b>	<b>Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd</b>	<b>134</b>
11.1	Thema 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd	134
11.2	Thema 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff	139
11.3	Thema 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	144
11.4	Thema 4 yr AC: Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol	147
11.5	Thema 5 yr AC: Llygredd	148
11.6	Thema 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol	150
11.7	Thema 7 yr AC: Iechyd a Llesiant	158
11.8	Thema 8 yr AC: Yr Economi	165

## RHAN 4 - Diweddglo ac Argymhellion

<b>12</b>	<b>Diweddglo ac Argymhellion</b>	<b>178</b>
-----------	----------------------------------	------------

## Crynodeb Gweithredol

**1** Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Castell-nedd Port Talbot ar 27 Ionawr 2016. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd yr AMB yn darparu sail ar gyfer monitro cynnydd y gwaith o gyflawni'r CDLI, hygrededd y Cynllun o safbwynt cynaliadwyedd, ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar ei weithredu.

**2** Hwn yw'r AMB cyntaf i gael ei baratoi ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r AMB, felly, yn cwmpasu'r cyfnod o ddyddiad mabwysiadu'r cynllun (27 Ionawr 2016) tan 31 Mawrth 2017, ac mae gofyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017.

**3** Mae'r AMB yn cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisiau. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad yn y tabl canlynol:

### Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Gweithredu	Nifer y Dangosyddion sydd yn y Categori
Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau	75
Nid yw Polisiau'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	9
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	5
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliid yn wreiddiol	Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	0

**4** Er bod deilliant cadarnhaol yn achos mwyafrif llethol y dangosyddion yn ystod y cyfnod monitro cyntaf hwn, mae nifer bach o ddangosyddion sy'n nodi nad yw rhai polisiau yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd. Yn yr achosion hynny, cynhelir trafodaethau pellach gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu mewn ymgais i ddatrys y materion dan sylw. Yn y cyswllt hwn dylid nodi bod rhai o'r polisiau yn gwbl newydd i'r fframwaith polisi lleol, ac o ganlyniad, gallai hynny fod yn esboniad rhannol ynghylch pam mae rhai anghysondebau o ran eu gweithredu.

**5** Ar ben hynny, mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud ag ymddangosiad Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), gan amlygu bod rhai CCA heb eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, mae rhesymau y gellir eu cyfiawnhau am yr oedi wrth baratoi'r dogfennau canllaw, a bydd y CCA sy'n weddill yn cael eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

### Canfyddiadau Allweddol yr AMB

**6** Ar y cyfan mae'r Cynllun yn cyflawni yn y rhan fwyaf o'i feysydd polisi, ac mae'r tai sy'n cael eu darparu i raddau helaeth yn cyfateb i'r disgwyl, gyda nifer o'r safleoedd tai mawr a ddyrannwyd yn y CDLI yn cychwyn neu'n cael caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro cyntaf hwn. Ymhellach, cafwyd hefyd nifer sylweddol o safleoedd annisgwyl a safleoedd bychain a gymeradwywyd, a chymorth gyda'r gwaith cyffredinol o ddarparu tai marchnad a fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bu cynnydd hefyd yn nifer y preswylwyr sy'n weithredol yn economaidd a gostyngiad yng nghyfradd diweithdra.

**7** Isod ceir trosolwg o'r canfyddiadau allweddol:

- Cynhaliwyd cyflenwad 5 mlynedd o dir.
- Darparwyd 1,679 o gartrefi newydd ers dyddiad sylfaen y CDLI (sy'n cyfateb i 74% o'r targed blynyddol cronol hyd yma).
- Er bod hynny o dan y targed ar hyn o bryd, disgwylir i gyfradd darparu tai fforddiadwy gynyddu.
- Mae cyflogaeth yn y gweithle wedi codi o 49,400 o swyddi yn 2011 i 50,800 o swyddi yn 2015.
- Mae cyfradd gweithgaredd economaidd wedi codi o 69.7% yn 2011 i 74.9% yn 2017, ac mae bellach ryw fymryn ar y blaen i gyfartaledd Cymru.
- Mae cyfradd diweithdra wedi gostwng o 10.8% yn 2012 i 5.5% yn 2017.
- Mae nifer o gynlluniau seilwaith pwysig wedi cael eu cwblhau ers dyddiad sylfaen y CDLI, gan gynnwys Ffordd yr Harbwr (FfDdY), gwelliannau ffordd i Gyffordd 43 a'r Bont Gyswllt ar gyfer Parc Ynni Baglan.
- Mae estyniad i Safle Sipsiwn a Theithwyr Cae Garw wedi cael ei gwblhau.
- Mae'r gwaith o ddarparu canolbwynt trafniadaeth integredig ym Mhort Talbot yn dal i gadw at yr amserlen.
- Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn y Bae wedi agor.
- Cymeradwywyd tri chynllun ynni carbon isel/adnewyddadwy, gyda chyfanswm capasiti cynhyrchu o 5.56 MW.
- Ni chaniatawyd dim ceisiadau ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.
- Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu 5 dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol allweddol yn ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio; Tai Fforddiadwy; Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan; Llygredd; a Safonau Parcio.
- Nid yw polisiau ynghylch llifogydd, cyfleusterau cymunedol, manau agored, ynni adnewyddadwy a'r iaith Gymraeg yn cael eu gweithredu yn unol â'r bwriad ar hyn o bryd. Bydd CCA sy'n ymwneud â rhai o'r pynciau hyn yn cael eu mabwysiadu yn y

man, a bydd y dogfennau hyn yn darparu canllawiau manylach yng nghyswllt gweithredu'r polisïau.

### Casgliad

**8** Mae polisïau'r CDLI yn cyflawni ac yn cyrraedd eu targedau i raddau helaeth, er bod cynnydd mewn rhai meysydd rywfaint yn arafach na'r disgwyl. Gan fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod cyntaf o fonitro, ni ellir canfod tueddiadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hynny'n parhau i gael ei fonitro mewn adroddiadau blynyddol dilynol.

**9** Mae'r AMB yn dod i'r casgliad bod y CDLI yn cyflawni ei strategaeth twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n allweddol i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun. Nid oes ffactorau ar hyn o bryd i awgrymu bod angen gwneud newidiadau i'r Cynllun, ac o ganlyniad, nid oes angen adolygiad cynnar o'r Cynllun (yn rhannol nac yn llawn) ar hyn o bryd.



## **RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir**



# 1 . Cyflwyniad

## 1 Cyflwyniad

**1.0.1** Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)<sup>(1)</sup> a fabwysiadwyd yn darparu fframwaith defnydd tir y bydd penderfyniadau ynghylch datblygu yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu seilio arno.

**1.0.2** Mae Is-adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r AMB cyntaf hwn yn cwmpasu'r cyfnod o ddyddiad mabwysiadu'r cynllun (27 Ionawr 2016) tan 31 Mawrth 2017, ac mae gofyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017. Bydd yr AMBau dilynol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn.

**1.0.3** Mae'r AMB yn darparu cyfle i fonitro cynnydd y gwaith o gyflawni'r CDLI, hygyrdd y Cynllun o safbwynt cynaliadwyedd, ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar ei weithredu. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLI, a bydd gofyn bod y Cyngor yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Cynllun bob 4 blynedd.

### Beth yw'r AMB?

**1.0.4** Prif nod yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLI yn effeithiol ac yn cyflawni ei nodau ac a yw'r polisïau strategol yn gweithio'n ymarferol. Wrth werthuso'r materion hyn, mae'r AMB (gan gynnwys monitro amcanion yr AC) yn ystyried effeithiolrwydd y Cynllun yn ei gryswth er mwyn pennu a oes angen adolygu'r Cynllun mewn rhyw fodd.

### Dangosyddion

**1.0.5** O dan Reoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) Cymru (Diwygio) 2015, mae'n ofynnol bod yr AMB yn monitro'r dangosyddion craidd canlynol:

Table 1.0.1 Dangosyddion a Ragnodwyd yn Rheoliad 37

Dangosyddion Craidd a Ragnodwyd yn Rheoliad 37	Cyfeirnod y Fframwaith Monitro
Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mesurir hyn yn ôl y blyneddoddedd o gyflenwad. <sup>(2)</sup>	40
Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI (h.y. trwy'r system gynllunio). Dylai hyn ddangos lefel y tai newydd a adeiladwyd, llai unrhyw dai a gafodd eu dymchwel, yn ystod cyfnod yr AMB ac ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu. <sup>(3)</sup>	39 & 41

1 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Ionawr 2016)

2 Rheoliad 37(4)(a) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

3 Rheoliad 37(4)(a) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

**1.0.6** Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion, sef y 2 ddangosydd craidd, ynghyd ag amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â chyd-destun Castell-nedd Port Talbot a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

**1.0.7** Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r nesaf. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

## Targedau

**1.0.8** Mae targedau realistig a chyflawnadwy wedi cael eu nodi ar gyfer pob polisi strategol. Gellir grwpio'r targedau hyn yn fras i dri phrif gategori:

- Gallai **Targedau Rhifol** ymwneud â graddfa'r datblygiad sy'n cael ei gynnig (e.e. lefel y datblygiad tai a ragwelir) a gellid ei fynegi ar ffurf rhif neu ganran. Mae rhai polisïau (e.e. darparu tai newydd) yn nodi cyfres o dargedau interim dros gyfnod y Cynllun, gan sicrhau bod modd mesur cynnydd tuag at gyrraedd y targed cyffredinol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun.
- Mae **Targedau Canlyniadau** yn cyfeirio at ganlyniad penodol y mae'r polisi neu'r polisïau dan sylw yn ceisio ei gyflawni neu ei atal rhag digwydd; ac
- Mae **Targedau Penodol** yn ymwneud â chynigion datblygu penodol (e.e. cynllun priffordd newydd arfaethedig) lle mae targed o gyflawni'r cynnig o fewn cyfnod penodol o amser.

## Sbardunau

**1.0.9** Mae gan bob un o'r dangosyddion sbardun penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir sbardun, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

## Camau

**1.0.10** Gellid peryglu gweithrediad llwyddiannus y CDLI os na chyrhaeddir y targedau. Mae'r fframwaith monitro yn nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg rhifol neu ganlyniadau annisgwyl. Nid yw o reidrwydd yn wir, fodd bynnag, y byddai methiant i gyflawni targed penodol yn cael ei ddehongli fel methiant polisi a fyddai'n awtomatig yn golygu bod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun yn gyfan) yn destun adolygiad.

**1.0.11** Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro, ac mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

# 1 . Cyflwyniad

Table 1.0.2 Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Cam Gweithredu	Côd Lliwiau
Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau	
Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliid yn wreiddiol	Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	

## Adolygu'r Cynllun

**1.0.12** Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol wrth ddod i ddyfarniad ynghylch a oes angen adolygu'r Cynllun (yn rhannol neu'n llawn) cyn y cyfnod statudol o 4 blynedd:

- Newid pwysig mewn polisi neu ddeddfwriaeth cenedlaethol;
- Newid pwysig yn yr amodau allanol;
- Newid pwysig yn y cyd-destun lleol (e.e. cau safle cyflogaeth pwysig sy'n tansilio'r economi leol neu effaith gronol cyfres o bethau'n cau);
- Newid pwysig o ran pwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr; a
- Phryderon pwysig yn sgîl canfyddiadau'r AMB o ran effeithiolrwydd polisi, cyflawni safleoedd, cyfraddau cynnydd ac unrhyw broblemau gyda gweithrediad.

## Strwythur a Chynnwys

Mae'r AMB wedi'i strwythuro yn ôl y pedair rhan yma:

- **Rhan 1: Cyflwyniad a Chefndir** - yma ceir cyflwyniad ac amlinelliad o'r newid cyd-destunol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu;
- **Rhan 2: Monitro'r CDLI**- yma ceir manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLI (yn nhrefn y Cynllun);
- **Rhan 3: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd**- yma ceir manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro wyth Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd; a
- **Rhan 4: Casgliadau ac Argymhellion**- yma cynigir casgliadau ac argymhellion.

## 2 Y Newid Cyd-destunol

### 2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

#### Y Cyd-destun Cenedlaethol

**2.1.1** Ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ar 27 Ionawr 2016, mae nifer o ddogfennau polisi cynllunio newydd/wedi'u diweddarw wedi cael eu cyhoeddi ac mae deddfwriaeth wedi cael ei chyflwyno.

#### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015<sup>(4)</sup>

**2.1.2** Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol i gyflawni'r gwaith o ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn gydnherth ac yn caniatáu datblygu. Mae'r ddeddf yn ymdrin â 5 amcan allweddol:

1. Fframwaith wedi'i foderneiddio ar gyfer cyflawni gwasanaethau cynllunio - mae'r ddeddf yn cyflwyno pwerau sy'n golygu bod modd cyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau cyfyngedig;
2. Cryfhau'r dull gweithredu a arweinir gan y cynllun - mae'r ddeddf yn cyflwyno sylfaen gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol;
3. Gwella cydnherthedd - bydd y ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio lleol gydweithio ac er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol gael eu cyfuno;
4. Blaenlwytho a gwella'r system rheoli datblygu - bydd y ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn-ymgeisio statudol ar gyfer categorïau diffiniedig o geisiadau cynllunio; a
5. Galluogi gorfodi ac apeliadau effeithiol - mae'r ddeddf yn golygu bod modd cyflawni newidiadau i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau camau gweithredu prydlon, ystyrion yn erbyn achosion o dorri rheolau cynllunio a chynyddu tryloywder ac effeithlonrwydd y system apelio.

**2.1.3** O gyfuno hyn â'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau eilaidd, bydd y ddeddf yn cefnogi darparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith y mae ar Gymru eu hangen; darparu cyfleoedd i amddiffyn a gwella amgylcheddau adeiledig a naturiol pwysig; a chefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg.

**2.1.4** Cynhyrchwyd dogfen sy'n esbonio'r cysylltiadau rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ystod y broses o ddrafftio a chraffu ar yr eitemau perthnasol o ddeddfwriaeth.

## 2 . Y Newid Cyd-destunol

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>(5)</sup>

**2.1.5** Er mai dyddiad y Ddeddf hon yw 2015, daeth i rym ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2016.

**2.1.6** Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a meddu ar agwedd fwy cydlynus. Bydd y gyfraith newydd hon yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, am y tro cyntaf, wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud mewn ffordd gynaliadwy. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod, wrth wneud eu penderfyniadau, yn cymryd i ystyriaeth yr effaith y gallen nhw ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd yn disgwyl iddyn nhw wneud y canlynol:

- Cydweithio'n well;
- Cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau;
- Edrych i'r tymor hir yn ogystal â chanolbwyntio ar nawr; a
- Chymryd camau i geisio atal problemau rhag gwaethygu - neu hyd yn oed eu hatal rhag codi yn y lle cyntaf.

**2.1.7** Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol ar gyfer Cymru, sydd â'r rôl o weithredu fel gwarcheidwad ar gyfer buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae rhaid i bob BGC wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant.

### Ein Cwm Ni, Ein Dyfodol Ni

**2.1.8** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen o'r enw 'Ein Cwm Ni, Ein Dyfodol Ni', sef cynnig i ailfywiogi cymunedau'r cymoedd yng Nghymru. Mae'n gynllun gweithredu lefel uchel sy'n cyflwyno blaenoriaethau'r Tasglu Gweinidogol ar sail y dystiolaeth a glywyd a'r adborth a dderbyniwyd gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd De Cymru.

**2.1.9** Y cam nesaf fydd canolbwyntio ar sut gellir datblygu'r blaenoriaethau hyn ymhellach trwy gynllun cyflawni manwl a fydd yn nodi:

- Sut cyflawnir y blaenoriaethau;
- Pwy ddylai gael eu cynnwys;
- Y manteision a ddisgwyliid;
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau; a
- Sut mesurir llwyddiant.

**2.1.10** Bydd cyflawni effeithiol yn galw am bartneriaeth barhaus gyda'r cyhoedd a gweithio'n agos gyda chyrff statudol, yn arbennig Awdurdodau Lleol. Cyhoeddir y Cynllun Cyflawni yn hydref 2017.

### **Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (2016)<sup>(6)</sup>**

**2.1.11** Gwnaed nifer o newidiadau, y mae llawer ohonynt yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau Rheoli Datblygu. Yng nghyswllt CDLlau, mae Pennod 2 wedi cael ei hadolygu i gymryd newidiadau deddfwriaeth i ystyriaeth, gan gynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

**2.1.12** Mae'r bennod ar yr Amgylchedd Hanesyddol wedi cael ei hadolygu'n gyfangwbl yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

**2.1.13** Mae'r bennod ar fanwerthu wedi cael ei diwygio i roi sylw i bolisi cynllunio cenedlaethol LIC ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol. Mae penodau eraill wedi cael eu hadnewyddu yn bennaf i adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

### **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol (Tachwedd 2016)<sup>(7)</sup>**

**2.1.14** Mae'n darparu arweiniad/cyngor ar rôl cynllunio defnydd tir mewn datblygiadau manwerthu a masnachol, gan gynnwys:

- Strategaethau manwerthu, prif gynllunio a chynlluniau lle;
- Profion angen manwerthu ac agwedd ddilyniannol at ddatblygu;
- Aseidiadau Effaith Manwerthu;
- Wynebluniau manwerthu a masnachol sylfaenol ac eilaidd mewn canolfannau;
- Amodau cynllunio manwerthu;
- Gorchmynion Datblygu Lleol; a
- Dangosyddion hyfywedd a dichonoldeb mewn ardaloedd manwerthu a masnachol.

### **TAN 12 Dylunio (Mawrch 2016)<sup>(8)</sup>**

**2.1.15** Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn rhoi arweiniad ar sut dylid cyflawni dylunio da trwy'r broses gynllunio. Mae'n darparu cyngor a gwybodaeth ar nifer o feysydd cysylltiedig, gan gynnwys y diffiniad o ddylunio at ddibenion cynllunio, ystyriaethau dylunio megis mynediad, polisi a chyngor dylunio yr awdurdod cynllunio lleol, y broses ar gyfer paratoi datganiadau dylunio a mynediad a gwybodaeth ynghylch sut mae cyflawni adeiladau cynaliadwy.

### **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)<sup>(9)</sup>**

**2.1.16** Rhannau allweddol y ddeddf yw:

---

6 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (2016)  
7 TAN4 Manwerthu  
8 TAN 12 Datganiadau Dylunio a Mynediad  
9 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016



## 2 . Y Newid Cyd-destunol

- Rhan 1: Rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol - fel bod modd rheoli adnoddau Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynus. Mae hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau rydym ni'n eu hwynebu ac mae'n canolbwyntio ar y cyfleoedd y mae ein hadnoddau yn eu darparu.
- Rhan 2: Newid yn yr Hinsawdd – mae hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi targedau lleihau allyriadau statudol ar waith, gan gynnwys gostyngiad o 80% o leiaf yn yr allyriadau erbyn 2050, a chyllidebu carbon i gefnogi eu cyflwyno. Mae hyn yn hanfodol yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau presennol o ran y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ac yn gosod llwybr clir ar gyfer dad-garboneiddio. Mae hefyd yn darparu sicrwydd ac eglurder ar gyfer busnes a buddsoddi.
- Rhan 3: Taliadau am fapiau untro - mae hyn yn estyn pwerau Gweinidogion Cymru fel bod modd iddynt bennu tâl am fathau eraill o fapiau cludo, megis bagiau am oes. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i gyfrannu enillion net gwerthu bagiau untro i achosion da.
- Rhan 4: Casglu a gwaredu gwastraff - mae hyn yn gwella prosesau rheoli gwastraff trwy ein helpu i gyflawni lefelau uwch o ailgylchu gwastraff busnes, gwell triniaeth ar gyfer gwastraff bwyd, a chynyddu'r ynni a adenillir. Bydd hyn yn helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, a hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr economi a'r amgylchedd.
- Rhannau 5 a 6: Pysgodfeydd ar gyfer trwyddedu pysgod cregyn a morol - mae'n egluro'r gyfraith mewn perthynas â rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn a thrwyddedu morol.
- Rhan 7: Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol a draenio tir – mae'n egluro'r gyfraith ar gyfer trefniadau rheoli eraill amgylcheddol, gan gynnwys rheoli risg llifogydd a draenio tir.

### Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016)<sup>(10)</sup>

**2.1.17** Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau pwysig i'r ddwy brif gyfraith yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer amddiffyn a rheoli'r amgylchedd hanesyddol: Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae hefyd yn ymgorffori tair darpariaeth annibynnol. Bydd y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella'r rheolaeth gynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

### Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru - Strategaeth ar gyfer y Deng Mlynedd Nesaf (2016 – 2026)<sup>(11)</sup>

**2.1.18** Mae'r strategaeth yn ystyried ein rôl yn gyrru'r agenda hon, yn ogystal â rôl sefydliadau, busnesau a pherchnogion tai eraill. Mae hefyd yn amlygu ein gweledigaeth i sicrhau bod modd i Gymru wireddu ei photensial llawn o ran effeithlonrwydd ynni a dod yn allforiwr pwysig o safbwynt technoleg a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni.

10 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

11 Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru

**2.1.19** Gweithredu ynghylch effeithlonrwydd ynni: mae hyn yn cyfrannu'n gryf ar draws ein nodau llesiant, yn ffactor o bwys ar gyfer twf gwyrdd, swyddi, sgiliau a chadwyni cyflenwi, yn ddull mwyaf cost-effeithiol o gyflawni ein hymrwymiaadau i leihau allyriadau carbon, yn gostwng y taliadau ynni a godir ar fusnesau a'r sector cyhoeddus, ac yn gallu ymdrin yn uniongyrchol â thlodi tanwydd trwy leihau cost gwresogi cartrefi pobl agored i niwed.

**2.1.20** Nid yw'r pŵer i weithredu ynghylch effeithlonrwydd ynni wedi'i ddatganoli'n llawn i Gymru. Mae ein rôl wedi'i chyfyngu i hybu effeithlonrwydd ynni, tra bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol am reoleiddio effeithlonrwydd ynni.

### **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016<sup>(12)</sup>**

**2.1.21** Mae ceisiadau ar gyfer Datblygiadau sy'n brosiectau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn derbyn sylw gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn fath o gais cynllunio ar gyfer prosiect seilwaith mawr sydd â phwysigrwydd cenedlaethol - er enghraifft, fferm wynt, gorsaf bŵer neu gronfa ddŵr. Mae Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn wahanol i gais cynllunio cyffredin o ran y modd y penderfynir arno. Yn hytrach na bod Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud y penderfyniad, mae Arolygydd yn archwilio'r cais ac yn cyflwyno argymhelliad i Weinidog Cymru ar sail rhinweddau cynllunio a blaenoriaethau cenedlaethol. Yna bydd y Gweinidog yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu beidio. Ceir rhestr gyflawn o'r mathau o ddatblygiadau sydd o arwyddocâd cenedlaethol yn y Rheoliadau.

### **Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch darparu tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio <sup>(13)</sup>**

**2.1.22** Mae'r llythyr yn ymdrin â'r angen i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu cyflenwad o dir ar gyfer tai sydd ar gael yn ddilys, a hynny ar sail diwallu'r gofynion tai a nodwyd ganddynt yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

**2.1.23** Er bod rhai o'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn arwyddocaol, bernir nad ydynt yn cael llawer o effaith uniongyrchol yng nghyswllt yr AMB hwn. Fodd bynnag, byddant yn cael eu hystyried yn llawn pan gaiff y CDLI ei adolygu'n ffurfiol.

### **Brexit**

**2.1.24** Ym mis Mehefin 2016, pleidleisiodd etholwyr y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac ers hynny mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi galw Erthygl 50 i rym, mewn perthynas ag ymadael â'r UE. Mae hynny'n caniatáu cyfnod o 2 flynedd ar gyfer trafod a chytuno ar delerau'r ymadael.

12 Rheoliadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol

13 Llythyr Gweinidogol ynghylch Tai Fforddiadwy



## 2 . Y Newid Cyd-destunol

**2.1.25** Er na fu fawr ddim cynnydd amlwg hyd yma, mae gan Brexit botensial i effeithio ar yr economi yn ystod y blynyddoedd sy'n dod; bydd a yw'r effaith honno'n gadarnhaol neu beidio yn dibynnu ar y telerau y cytunir arnynt. Yng nghyswllt yr AMB hwn, ni fydd yn cael llawer o effaith, ac ni ddaw hynny'n amlwg ond gydag amser, a bydd yn dal i gael ei ystyried yng nghyswllt y CDLI ac unrhyw adolygiad dilynol.

### 2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol

#### Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru

**2.2.1** Yng ngoleuni'r trefniadau cynllunio newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau), mae gwaith wedi parhau ynghylch cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol.

**2.2.2** Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ynghylch rôl awdurdodau yn y dyfodol a'r posibilïadau o ran mentrau ac astudiaethau cydweithio yn y dyfodol. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi ymgymryd â'r rôl arweiniol/ysgrifenyddiaeth ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru yn 2017/18.

#### Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**2.2.3** Ers dyddiad mabwysiadu'r CDLI, y newid allweddol ar lefel ranbarthol oedd llofnodi Bargen y Ddinas-Ranbarth ar 20 Mawrth 2017, sy'n cwmpasu Awdurdodau Lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Caerfyrddin a Sir Benfro, ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chwmnïau sector preifat. Mae'n cynnwys pecyn buddsoddi sylweddol sy'n cynnwys Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, a fydd yn trawsnewid tirlun economaidd yr ardal ac yn rhoi hwb i'r economi leol.

**2.2.4** Nodwyd 11 o brosiectau mawr yn rhanbarth De-orllewin Cymru sy'n ceisio darparu cyfleusterau sydd ymhlith y gorau yn y byd ym meysydd ynni, gweithgynhyrchu clyfar, arloesedd a gwyddor bywyd, gyda buddsoddiad mawr yn seilwaith digidol y rhanbarth.

**2.2.5** Bydd pob Awdurdod Lleol yn arwain nifer o brosiectau yn eu hardal weinyddol. Mae tri o'r un prosiect ar ddeg wedi'u cynnig yn ardal Castell-nedd Port Talbot:

1. Bydd **Canolfan Ragoriaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Digidol y Genhedlaeth Nesaf (CENGs)**, a leolir ym Maglan, yn ganolog i'r canolbwynt digidol rhanbarthol. Bydd y prosiect yn cynyddu nifer y syniadau busnes technoleg y gellir eu masnacholi, yn helpu busnesau technoleg newydd ar draws y rhanbarth i gychwyn a thyfu, ac yn troi syniadau newydd yn gyfleoedd masnachol. Cyflawnir hyn wrth i'r Ganolfan gynnig amrywiaeth o le swyddfa a labordai ar gyfer diwydiant a'r gymuned wyddonol, gan gyfuno amrywiaeth o arbenigwyr masnachol a thechnegol, a phontio'r bwch rhwng ymchwil a chymhwysio syniadau i fyd diwydiant. Bydd hyn yn helpu i droi datblygiadau arloesol yn gynnyrch a gwasanaethau newydd.
2. Bydd **Prosiect Cartrefi'n Orsafoedd Pŵer**, a arweinir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, ar ran y rhanbarth, yn targedu tai newydd eu hadeiladu ac ôl-osod yn y cyflenwad presennol, gan ddarparu cartrefi arloesol, carbon isel. Prif nod fydd lleihau tloedi tanwydd ac effaith hynny ar iechyd a llesiant. Bydd yn cefnogi targedau gostwng

lefelau carbon, gan leihau'r galw am drydan a nwy a diogelu'r cyflenwad o dai yn y rhanbarth. Bydd datblygiad tai newydd peilot yn cael ei adeiladu yng Nghastell-nedd, ac estynnir y cysyniad ar draws y rhanbarth. Bydd y prosiect yn creu diwydiant newydd yn y rhanbarth, gan ddatblygu ac adeiladu technolegau ynni arloesol, gwneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni, a lleihau costau ynni. Bydd yn helpu i gynhyrchu tai cynaliadwy, fforddiadwy, yn ymdrin â thlodi tanwydd, ac yn canolbwyntio ar dechnolegau clyfar, mewn perthynas â rheoli'r galw am ynni.

3. Byddai'r **Ganolfan Wyddoniaeth ar gyfer Dur**, a leolid yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn darparu canolfan arloesedd mynediad agored ar gyfer Diwydiant Dur Prydain a'i gadwyni cyflenwi, gan ganolbwyntio ar ddarparu Ymchwil a Datblygu masnachol. Bydd y ganolfan yn golygu bod modd i dechnolegwyr dur, staff academiaidd a staff ymchwil gydweithio i gael hyd i atebion i broblemau y mae'r sector dur yn eu hwynebu, a datblygu ffyrdd arloesol i'r diwydiant dur ddefnyddio cynnyrch gwastraff lleol i greu cynnyrch dur carbon positif, gan leihau'r effaith o ran carbon. Mae'n adeiladu ar gryfderau rhanbarthol o ran cynhyrchu dur a phartneriaethau cryf rhwng busnes ac academia i ddatblygu cadwyni cyflenwi ac ymchwil. Nodau'r prosiect yw sicrhau bod dyfodol tymor hir i'r sector dur trwy wneud y Ddinas-Ranbarth yn ganolfan naturiol i'r Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil a datblygu ym maes gwyddoniaeth cysylltiedig â dur.

### Lagŵn Llanw Bae Abertawe

**2.2.6** Byddai'r prosiect rhanbarthol hwn, sy'n cwmpasu rhannau o ardal weinyddol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, yn creu Gorsaf Gynhyrchu Ynni gyntaf y byd ar lagŵn llanw. Rhoddwyd Caniatâd Datblygu i'r prosiect Seilwaith Cenedlaethol Arwyddocaol hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 2015. Yn awr mae'n rhaid sicrhau trwydded forl gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynghyd â'r caniatâd angenrheidiol gan Ystâd y Goron, sy'n berchen ar wely'r môr.

**2.2.7** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ystyried argymhellion Adolygiad Hendry ac mae wrthi'n ystyried lefel y cymhorthdal ariannol y bernir ei fod yn briodol. Mae'r Comisiwn Ffiniau hefyd wrthi yn ystyried cais am newid ffiniau awdurdodaeth yr Awdurdod Perthnasol, fydd yn rhoi rheolaeth ar yr agweddau ar y datblygiad sydd wedi'u lleoli o dan y cymedr dŵr isel.

**2.2.8** Gallai'r cynllun gael effaith gadarnhaol ar Gastell-nedd Port Talbot. Bydd yn golygu cryn fuddsoddiad yn economi leol Bae Abertawe, yn cynnig potensial ar gyfer cryn dipyn o gyflogaeth yn ystod y gwaith adeiladu, ac yn darparu ased hamdden a thwristiaeth gwerthfawr ar gyfer y trigolion ac ymwelwyr ar ôl ei adeiladu.

**2.2.9** Er bod cryn risgiau y gallai'r cynllun beidio â mynd rhagddo ar hyn o bryd, petai'r lagŵn yn cael ei ddatblygu, byddai'n brosiect arloesol ar gyfer y rhanbarth a fyddai'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd. Er na fyddent yn cael effaith ar yr AMB hwn, bydd unrhyw effeithiau'n cael eu hystyried yn llawn fel rhan o adolygiad o'r Cynllun.

### 2.3 Y Cyd-destun Lleol

**2.3.1** Ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu pum Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) a chymeradwywyd ymgynghori ar bedwar arall (gweler isod).

## 2 . Y Newid Cyd-destunol

**2.3.2** Mae'r Cyngor hefyd wedi cyhoeddi 'Asesiad Llesiant' fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a hefyd y 'Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth' er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**2.3.3** Ar ben hynny, mae Parth Menter Glannau Port Talbot wedi cael ei sefydlu; bu rhai pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli swyddi yn TATA, Port Talbot, ac mae posibilrwydd y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder leoli carchar newydd Categori C yn y Fwrdeistref Sirol.

### Canllawiau Cynllunio Atodol

**2.3.4** Ym mis Hydref 2016, mabwysiadodd y Cyngor CCA ynghylch y canlynol<sup>(14)</sup>

- Rhwymedigaethau Cynllunio;
- Tai Fforddiadwy;
- Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan;
- Llygredd; a
- Safonau Parcio.

**2.3.5** Hefyd cafwyd cymeradwyaeth gan Fwrdd y Cabinet ar 13 Mawrth 2017 i ymgynghori ym mis Mai/Mehefin 2017 ar y CCA canlynol<sup>(15)</sup>

- Mannau Agored a Mannau Glas;
- Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel;
- Dylunio; a
- Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.

### Asesiad / Cynllun Llesiant

**2.3.6** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynhyrchu amcanion llesiant sy'n cyfrannu at gyflawni set o nodau llesiant trosfwaol. Ar ben hynny, mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant lleol, a fydd yn nodi'r amcanion a sut bydd y bwrdd neu'r aelodau unigol yn eu cyflawni. Bydd y cynllun hwn yn cael ei lywio gan Asesiad Llesiant o'r ardal lleol.

**2.3.7** Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei Asesiad Llesiant cyntaf yn gynharach eleni. Mae'n crynhoi cryfderau ac asedau pobl a chymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot a bydd yn llywio Cynllun Llesiant lleol Castell-nedd Port Talbot. Bydd y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Cynllun Llesiant yn digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf, ac ar ôl ei gymeradwyo, bydd yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl (CIS).

14 Dolen i'r CCA a fabwysiadwyd

15 Ni allai'r ymgynghori cyhoeddus gychwyn cyn diwedd y cyfnod monitro hwn oherwydd y 'purdah' cysylltiedig ag Etholiadau Llywodraeth Leol ar 4 Mai 2017

### Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot (2017)

**2.3.8** Bydd Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot yn dangos sut bydd y Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth a nodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a bydd yn gweithredu fel sbardun ar gyfer gweithgareddau cadwraeth ar draws Castell-nedd Port Talbot.

**2.3.9** Mae'r cynllun hefyd yn egluro sut mae'r Cyngor, trwy gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth, yn cyflawni'r amcanion llesiant a'r dulliau o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.


### Parth Menter Glannau Port Talbot

**2.3.10** Ym mis Mawrth 2016, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai Glannau Port Talbot yn derbyn statws Parth Menter. Mae'r cyfuniad unigryw o ffactorau a geir yno, o ran lleoliad, seilwaith a chysylltedd â'r economi wybodaeth, wedi denu rhai o brif weithgynhyrchwyr y Deyrnas Unedig.

**2.3.11** Mae'r gwneuthurwyr yn yr ardal yn cynnwys TATA Steel, BOC, SPECIFIC, TWI a ThyssenKrupp ac, ar y cyd â llu o gwmnïau eraill galluog a hynod dechnegol, maent yn creu sylfaen gref ar gyfer creu clwstwr deinamig ac arloesol o fusnesau.

**2.3.12** Mae'r ardal a gwmpasir gan y dynodiad yn cynnwys: Glannau'r Harbwr, Dociau Port Talbot, Parc Ynni Baglan ac Ystâd Ddiwydiannol Baglan.

Map 2.1 Port Talbot Waterfront Enterprise Zone



Source: Business Wales - Enterprise Zones in Wales

**2.3.13** Mae Port Talbot wedi hen ennill ei blwyf o ran cryfderau gweithgynhyrchu a chynhyrchu dur. Cyfunir hyn â ffocws pendant ar barhau i ddatblygu diwydiannau o'r radd flaenaf, sydd ymhlith y gorau yn y byd, mewn sectorau megis Deunyddiau Uwch a Gweithgynhyrchu, Adeiladwaith ac Ynni Gwyrdd.

## 2 . Y Newid Cyd-destunol

**2.3.14** Byddai busnesau sy'n symud i'r ardal yn elwa o gryfderau cynhenid a photensial twf presennol y rhanbarth, a momentwm Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe sy'n gatalydd ar gyfer gwella rhagolygon cymunedau, busnesau a'r economi.

**2.3.15** Yn ôl gwefan Busnes Cymru mae'n gallu cynnig rhai o'r lefelau uchaf o gefnogaeth i fusnesau sy'n lleoli yno, p'un a ydynt yn mewnfuddsoddi, yn cychwyn neu'n fusnes sydd eisoes yn bodoli.

### **TATA Steel**

**2.3.16** Roedd peth pryder yn gynnar yn 2016, pan roddodd TATA, un o brif gyflogwyr Castell-nedd Port Talbot, waith Port Talbot ar werth (ynghyd ag eraill yng Nghymru). Roedd pryder ynghylch yr effaith y byddai hynny'n ei chael ar swyddi a'r economi leol, gan fod perfformiad TATA (fel prif gyflogwr) yn dylanwadu'n gryf ar ffyniant y rhanbarth.

**2.3.17** Yn gynharach yn 2017, fodd bynnag, yn gyfnewid am ymrwymo i barhau i gynhyrchu ym Mhort Talbot am 10 mlynedd arall a buddsoddiad o £100m, daeth TATA i gytundeb gyda'r undebau ynghylch cronfa bensïynau'r cwmni.

**2.3.18** Mae TATA wrthi ar hyn o bryd yn cael hyd i ateb i'r anawsterau gyda'i gynllun pensiwn er mwyn sicrhau dyfodol ei weithrediadau yn y Deyrnas Unedig a chyn cyfuno ei weithrediadau dur Ewropeaidd â'r cwmni ThyssenKrupp o'r Almaen. Disgwylir i drefniant pensiynau newydd gael ei gytuno tua diwedd 2017, a fyddai'n caniatáu'r cyfuno â ThyssenKrupp.

**2.3.19** Ymhellach, mae optimistiaeth o'r newydd yn dilyn y cyhoeddiad diweddar bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyfraniad ariannol tuag at adeiladu gorsaf bŵer newydd ar y safle a fydd yn ailddefnyddio nwy gwastraff, er mwyn delio gyda'r biliau ynni sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau.

**2.3.20** Bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei monitro er mwyn gallu ystyried unrhyw effaith ar y CDLI.

## RHAN 2 - Monitro'r CDLI

## 3 . Y Strategaeth

### 3 Y Strategaeth

#### 3.1 Y Strategaeth

**3.1.1** Mae'r CDLI wedi'i seilio ar strategaeth twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir, sydd yn ei dro yn rhagfynegi nifer y cartrefi newydd y bydd angen amdanynt. Mae'r dull gweithredu'n sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth wedi'u halinio a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

**3.1.2** Mae'r Cynllun yn nodi cyfanswm o 25 o amcanion, wedi'u grwpio o dan y themâu canlynol:

- Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy;
- Hybu Economi Gynaliadwy;
- Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu Unigrywiaeth.

**3.1.3** Wrth roi sylw i'r amcanion hyn, nodau Strategaeth y CDLI yw:

**Hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio ar Goridor yr Arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r Cymoedd**

**3.1.4** Wrth fonitro dangosyddion y CDLI mae modd asesu i ba raddau mae polisïau'r cynllun yn cyflawni'r strategaeth.

**3.1.5** Mae'r senario a ddewiswyd, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau economaidd, yn un uchelgeisiol, ac yn ceisio mwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Er mwyn ymdrin â materion allweddol y Fwrdeistref Sirol, mae creu cyfoeth trwy dwf swyddi yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y CDLI. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ragweld sut mae newidiadau economaidd dros gyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaeth a nifer y tai newydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm a ragwelir i'r boblogaeth a'r cyflenwad llafur fydd yn ofynnol. Mae'r strategaeth yn ceisio cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd a lleihau lefelau diweithdra yn unol â chyfartaledd Cymru.

**3.1.6** Mae cyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot wedi codi'n uwch na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig. O'r flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2011 hyd at y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2017, mae'r bwch rhwng Castell-nedd Port Talbot a chyfartaledd Cymru wedi lleihau. Yn 2011 roedd Castell-nedd Port Talbot 3% o dan gyfartaledd Cymru, ac mae bellach 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru erbyn diwedd Mawrth 2017. O gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, mae'r bwch rhwng Castell-nedd Port Talbot a'r Deyrnas Unedig wedi lleihau o 6.8% yn 2011 i 3.6% yn 2017.



**3.1.7** Erbyn y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2016, roedd y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng i 6.9%, sef y gyfradd sy'n uchelgais i'r CDLI erbyn 2026 (cyfartaledd Cymru yn yr hir dymor). Gostyngodd y gyfradd ymhellach yn ystod y cyfnod monitro presennol i 5.5%, sy'n arwydd o ddarlun economaidd cadarnhaol ar gyfer yr ardal ac yn dangos bod nodau'r CDLI yn cael eu cyflawni.

**3.1.8** O ran gweithredu, mae peth cynnydd yn digwydd o ran cyflawni dyraniadau tai, er y cydnabyddir bod rhai safleoedd yn cael eu darparu'n arafach na'r disgwyl. Hyd yma mae'r CDLI wedi cyflawni tua 74% o'r targed cronol. Er bod lefel y tai a gwblheir yn is na'r hyn a ragwelwyd, mae nifer o safleoedd ym mhortffolio Polisi H1 naill ai wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro (e.e. Heol Castell-nedd / Heol Fairyland, Tonna) neu wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ceisiadau sydd heb eu penderfynu neu drafodaethau cyn-ymgeisio. Disgwylir felly y bydd cyfradd cyflwyno tai yn cynyddu'n sylweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod nesaf o 5 mlynedd.

**3.1.9** Oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, mae Campws y Brifysgol wedi cael ei gyflawni, mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygiadau yn Ysgol Glanafan a Chynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd ac mae'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig yn cael ei gyflwyno ym Mhort Talbot.

**3.1.10** Mae Ffordd yr Harbwr (FfDdY) wedi cael ei chwblhau ym Mhort Talbot, gan ddarparu ffordd gyswllt allweddol trwy ardal adfywio Glannau'r Harbwr rhwng Margam a Baglan a gwella mynediad i lawer o gartrefi a busnesau ar ochr ddeheuol Port Talbot. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i Gyffordd 43 o'r M4 i hwyluso datblygiad pellach yng Nghoed Darcy ac mae Ffordd Amazon yn darparu llwybr newydd pwysig sy'n cysylltu busnesau hen a newydd â gogledd Ffordd Fabian. Mae'r gwaith o ddatblygu Safle Sipsiwn a Theithwyr Cae Garw hefyd wedi cael ei gwblhau, gan ddarparu 11 llain ychwanegol.

**3.1.11** Oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd, mae cyflwyno tai ryw fymryn o dan y targed, ond bernir mai problem tymor byr yw hon, a rhagwelir cynnydd yn unol â thargedau'r Cynllun, gyda chymorth pellach drwy waith Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, cymeradwywyd nifer o safleoedd annisgwyl, a fydd yn ychwanegu at y safleoedd a ddyrannwyd yn yr ardal hon. Mae llwybrau beicio Cwm Afan, Cognition a'r Great Dragon Ride wedi cael eu cwblhau, ac mae llwybr Beicio Dyffryn Aman bron wedi'i gwblhau.

**3.1.12** Mae gosodiad hydrobŵer bychan ym Maesgwyn, Glyn-nedd ac un tyrbîn gwynt ger Rhydyfro wedi cael eu cymeradwyo, gan ddarparu 0.6 MW o ynni adnewyddadwy. Mae'r ffigur hwn ar ben y cyfraniad sylweddol y mae'r Fwrdeistref Sirol eisoes yn ei wneud at gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cymeradwywyd dau gais cysylltiedig â thwristiaeth, gan ganiatáu llety gwyliau ar ffermydd yn yr ardal. Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r cynlluniau mwy yn y cymoedd (e.e. Park Avenue, Glyn-nedd a Rheola) yn ddyheadau tymor hwy nad oes disgwyl iddynt gael eu cyflawni yn y tymor byr.

**3.1.13** At ei gilydd bernir bod y CDLI yn gweithredu'n dda ac yn cyflawni manteision economaidd o ran codi'r cyfraddau gweithgaredd economaidd a gostwng y gyfradd ddiweithdra, gan fodloni strategaeth y Cynllun, a arweinir gan yr economi.



## 3 . Y Strategaeth

**3.1.14** Er bod y lefel o gyflwyno tai rywfaint o dan y targed, ac er gwaethaf ymdrechion i ddarparu llawer iawn o wybodaeth gefndir am y safleoedd tai yn Atodiad A o'r Cynllun a fabwysiadwyd (gan gynnwys mesurau lleddfu/gwneud iawn angenrheidiol a'r gofynion posibl o ran S106/seilwaith), mae'r cynnydd yn achos rhai ceisiadau yn araf, gwaetha'r modd.

**3.1.15** Bydd cyflwyno safleoedd yn parhau i gael ei fonitro trwy'r AMB, a dylid nodi bod yr Astudiaeth ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) yn nodi bod gan y Fwrdeistref Sirol, ar 1af Ebrill 2017, gyflenwad tir ar gyfer tai o 5.3 blynedd.

## 4 Polisiâu Troswaol

### 4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd

Tabl 4.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA)	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
2	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
3	Faint o dir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
4	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
5	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
6	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau

#### Dangosydd 1: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.

Tabl 4.1.2 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy batrymau aneddiadau ac anheddu mwy cydlynus ac effeithlon	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA).
Targed y Polisi	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASCA.
Pwynt Sbarduno	Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Bolisi 1 yn syrthio o dan 35 uned yr hectar, oni bai ei fod yn cyfateb i'r fframwaith polisi
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

## 4 . Polisiâu Troswaol

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.1.1** Mae'r targed a'r sbardunau ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd. Daeth cyfanswm o chwe chais am ddatblygiadau preswyl i law ar safleoedd a ddyndodwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA) yn ystod y cyfnod monitro. At ei gilydd, y dwysedd datblygiad cyfartalog a gyflawnwyd ar draws yr holl safleoedd hyn yw 30 annedd fesul hectar (afh).

**4.1.2** Mae un o'r ceisiadau perthnasol (P2016/0654) ar gyfer defnydd preswyl/manwerthu cymysg yng nghanol tref Castell-nedd, sy'n cynnwys unedau siop ar y llawr gwaelod yn ardal y safle sy'n effeithio ar y cyfrifiad dwysedd. Fodd bynnag, nid yw eithrio'r datblygiad hwn o'r cyfrifiad cyffredinol ar gyfer y dangosydd hwn yn newid y dwysedd cyfartalog a gyflawnwyd, sef 30 afh. O ran dangosydd 1, felly, mae'r datblygiadau a ganiatawyd yn methu â chyflawni'r targed polisi, sef dwysedd cyfartalog o 35 afh.

**4.1.3** Nid yw pedwar o'r ceisiadau unigol yn cyflawni'r dwysedd targed, tra bod un safle (Ysgol Aberafan, Port Talbot) yn rhagori ar y dwysedd targed, gan gyflawni 61 afh. Cyflwynir y gofynion dwysedd ym Mholisi BE1 maen prawf 8(a) a pharagraff 5.5.14 o'r CDLI. Mae hyn yn dangos y dylid dylunio datblygiadau, lle bo modd, i fwyafu'r llety a ddarperir heb gollu cymeriad yr ardal o amgylch. Mae'n nodi ymhellach na chaniateir datblygiad o dan y lefelau dwysedd preswyl a bennwyd oni bai bod modd dangos bod cyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â safle sy'n atal datblygiad ar y lefelau penodedig neu lle byddai datblygiad o'r dwysedd gofynnol yn cael effaith niweidiol ar gymeriad neu wedd yr ardal leol neu'n arwain at gollu nodwedd bwysig o'r safle.

**4.1.4** Mewn rhai achosion, nodwyd y broblem o ran dwysedd yn adroddiad y swyddog, a darparwyd cyfiawnhad yn unol â gofynion y CDLI a nodwyd uchod. Bernir felly bod yr achosion hynny yn unol â'r fframwaith polisi ac felly na fyddent yn geisiadau 'sbarduno'. Fodd bynnag, mewn dau o'r achosion, nid yw adroddiad y swyddog yn darparu unrhyw gyfiawnhad am y dwysedd is a ganiatawyd.

**4.1.5** Mae un o'r ceisiadau hyn (P2016/1105) ar gyfer un tŷ mawr ar ei ben ei hun ar diroedd eang, oddi mewn i ddatblygiad sefydledig y mae ei gymeriad yn cydweddu ag anheddau eraill o fewn y dyraniad. Mae'r ail gais (P2015/0011) ar gyfer datblygiad preswyl ar safle lle mae cyfyngiadau penodol ynghylch topograffi a llethrfeydd, lle profwyd anawsterau dylunio wrth geisio cyflawni llethr derbyniol ar gyfer ffyrdd a llwybrau troed, ochr yn ochr â chynnal cynllun a gwedd priodol i'r datblygiad. Yn y ddau achos dan sylw, felly, bernir y gellid cyfiawnhau dwysedd is yn unol â Pholisi BE1, er nad oedd hynny wedi'i gwmpasu'n benodol yn adroddiad y cais.

**4.1.6** At ei gilydd, bernir bod gofynion dangosydd 1 wedi cael eu cyflawni i bob pwrpas, er na nodir hynny'n benodol yn yr holl ddogfennau cais. Gellir ymdrin â hyn trwy drafodaeth bellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu.

**4.1.7** Mae canllawiau pellach yn cael eu datblygu ar ffurf y CCA Dylunio sydd i ddod (i'w fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017), sy'n cynnwys cyngor penodol pellach ar faterion dwysedd, a bernir y bydd y ddogfen hon yn bwysig i sicrhau bod y polisi dwysedd yn cael ei gymhwyso'n fwy cyson yn y dyfodol.

### Dangosydd 2: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.

Tabl 4.1.3 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy batrymau aneddiadau ac anheddau mwy cydlynus ac effeithlon	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC).
Targed y Polisi	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASC.
Pwynt Sbarduno	Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Bolisi H1 yn syrthio o dan 30 uned yr hectar, oni bai ei fod yn cyfateb i'r fframwaith Polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.1.8** Fel yn achos Dangosydd 1, mae'r targed a'r sbardunau ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd. Ni phenderfynwyd ar unrhyw geisiadau ynghylch safleoedd tai a ddyrannwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd yn ystod y cyfnod monitro, felly nid oes ceisiadau sbarduno yn achos y dangosydd hwn.

### Dangosydd 3: Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.

Table 4.1.1 Tabl 4.1.4 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy batrymau aneddiadau ac anheddau mwy cydlynus ac effeithlon	
(Gweler hefyd Bolisiâu SP16 a BE1)	
Dangosydd Lleol	Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.
Targed y Polisi	Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Colli tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

## 4 . Polisiâu Trosfwaol

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.1.9** Y diffiniad o safleoedd maes glas yw safleoedd nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a geir yn PCC <sup>(16)</sup>. Mae Polisi BE1[8(c)] yn datgan na chaniateir cynigion ond pan fyddant yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys tir ac ynni, mor effeithlon â phosibl trwy ddatblygu tir maes llwyd yn hytrach na thir maes glas lle bo modd.

**4.1.10** Cymeradwywyd cyfanswm o 9 cais ar gyfer datblygiadau ar safleoedd maes glas oedd heb eu dyrannu ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn cadw at y fframwaith polisi, byddai angen dangos nad oedd modd cyflawni'r datblygiadau ar safle maes llwyd amgen.

**4.1.11** Mae pedwar o'r ceisiadau ar gyfer anheddau ar safleoedd bychain lle na fuasai opsiwn maes llwyd amgen ar gael, ac mae tri ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hamdden neu chwaraeon yn ymyl meysydd chwarae neu gyfleusterau marchogaeth lle na ellid adleoli'r adeiladau'n hwylus i unrhyw ardal o dir maes llwyd. Mae'r ddau gais sy'n weddill ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, na fuasai modd eu lleoli ar unrhyw safle maes llwyd priodol oherwydd eu natur a'u gofynion arbennig o ran lleoliad.

**4.1.12** Bernir felly bod gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni.

### Dangosydd 4: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.

Tabl 4.1.5 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd trwy annog cludo nwyddau ac anfon trafndiaeth fasnachol ar hyd llwybrau heblaw'r ffyrdd	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi ar safleoedd sydd wedi'u diogelu ar gyfer cludo nwyddau.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.1.13** Ni chafwyd ond un cais mewn lleoliad nwyddau sy'n cael ei gwmpasu gan Bolisi TR4 (Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau) yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y cynnig, o leolwyd yng Nghyfedeiledd Pwll Unity, Cwmgwrach, ar gyfer newid dros dro yn nefnydd rhan o'r offer/peirianwaith a'r adeiladau, o brosesu glo i gyfleuster Offer Trydanol ac

Electronig Gwastraff (WEEE) am gyfnod o 12 mis. Oherwydd y natur a'r defnydd dros dro, fodd bynnag, ni fyddai'r cynnig yn atal nac yn amharu ar ddefnydd tymor hwy na datblygiad y derfynell nwyddau rheilffordd.

### Dangosydd 5: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.

Tabl 4.1.6 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy dywys datblygiad i ffwrdd oddi wrth dir sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd.	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 os nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus nad yw'n bodloni holl ofynion TAN 15.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.1.14** Cymeradwywyd cyfanswm o 13 cais o fewn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau o fewn neu'n rhannol o fewn Parth MCD C1. Roedd y rhain i gyd yn bodloni'r gofynion a nodwyd ar gyfer datblygiadau o'r fath yn TAN 15.

**4.1.15** Mae'r pwyntiau targed a sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â chaniatáu datblygiadau hynod fregus (fel y'u diffiniwyd yn TAN15) nad ydynt yn bodloni'r profion a nodwyd yn y TAN. Ni phenderfynwyd ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o'r fath yn ystod y cyfnod monitro, felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

### Dangosydd 6: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.

Tabl 4.1.7 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy dywys datblygiad i ffwrdd oddi wrth dir sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd.	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus.

## 4 . Polisiâu Trosfwaol

Ymdrin â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy dywys datblygiad i ffwrdd oddi wrth dir sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd.	
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.1.16** Mae'r pwyntiau targed a sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau hynod fregus (fel y'u diffiniwyd yn TAN15) a ganiateir oddi mewn i barth MCD C2. Cymeradwywyd tri chais ar gyfer unedau preswyl ym mharth C2 yn ystod y cyfnod monitro: mae un ar gyfer tŷ newydd rhwng dau annedd sydd eisoes yn bodoli, un ar gyfer trawsnewid ysgubor yn fwthyn gwyliau, ac un ar gyfer fflat ychwanegol mewn tŷ sydd eisoes yn bodoli. Ym mhob un o'r tri achos, mae adroddiad y swyddog yn cwmpasu'r materion llifogydd a chyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) y cytunwyd arno gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae'r cynigion yn groes i ofynion TAN15 yn yr ystyr eu bod yn caniatáu unedau preswyl newydd (h.y. datblygiad 'hynod fregus') oddi mewn i'r gorlifdir heb ei amddiffyn a nodwyd.

**4.1.17** Ar ben hynny, cymeradwywyd un datblygiad ar gyfer ysgol newydd oddi mewn i barth MCD C2 (sydd hefyd yn cael ei ddsbarthu fel datblygiad 'hynod fregus'). Fodd bynnag, derbyniwyd hyn yn dilyn gwaith modelu llifogydd manwl pellach, y derbyniodd CNC ei fod yn dangos bod y parthau MCD yn anghywir yn y lleoliad hwn, ac nad oes perygl llifogydd mewn gwirionedd ar y safle.

**4.1.18** Er bod mwyafrif y ceisiadau wedi cael eu penderfynu'n llawn yn unol â'r CDLI a pholisi cenedlaethol ynghylch materion llifogydd, trwy fethu â chydymffurfio â gofynion TAN15, mae'r [tri] phenderfyniad yma yn codi pryderon nad yw Polisi SP1 y CDLI yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob achos yng nghyswllt yr angen am roi sylw i ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bernir bod modd rhoi sylw i'r mater hwn trwy drafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu er mwyn sicrhau y glynir at yr holl ofynion polisi perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau.

## 4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd

Tabl 4.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
8	Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
9	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 7: Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.**

Tabl 4.2.2 Polisi Strategol SP2 – Iechyd

Ymdrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden hygyrch, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol (Gweler hefyd Bolisiâu SP10, OS2, SC2)	
Dangosydd Lleol	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Collwyd un cyfleuster yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

#### Cyfleusterau Cymunedol

**4.2.1** Ers dyddiad mabwysiadu'r Cynllun cafwyd 10 cais, sydd wedi arwain at 'golli' cyfleuster cymunedol <sup>(17)</sup> Mae tair Eglwys wag wedi cael eu trosi i ddefnyddiau eraill; mae un ganolfan gymunedol wedi cael ei throsi i ddefnydd preswyl; mae un dafarn wedi cael ei throsi i ddefnydd manwerthu/masnachol, gyda llety preswyl ar y llawr uchaf; ac mae pum uned fanwerthu (A1) wedi newid i ddefnyddiau preswyl neu fasnachol gwahanol.

17 Er eglurder, o ran monitro cyfleusterau cymunedol, nid yw hynny'n edrych ar golli unedau manwerthu oddi mewn i Ganol Trefi a Rhanbarthau a ddiffiniwyd (Polisi R2/1), gan y byddai hynny'n dyblygu'r monitro trwy'r arolwg manwerthu blynyddol. Serch hynny, mae yn rhoi sylw i golli unedau manwerthu mewn canolfannau lleol a'r tu allan i ardaloedd dynodedig.



## 4 . Polisiâu Trosfwaol

**4.2.2** Nid arweiniodd dim o'r cynigion at golli'r cyfleuster cymunedol olaf yn yr ardal leol, ac yn gysylltiedig â datblygiadau yn yr ardal drefol, oddi mewn i aneddiadau, ond y tu allan i ganol trefi/ganolfannau dosbarth diffiniedig. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r 10 cynnig wedi ystyried effaith colli'r defnydd cymunedol yn llawn, bernir bod modd rhoi sylw i'r hepgoriad hwn trwy drafodaeth bellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu.

### ***Mannau Agored***

**4.2.3** Ers dyddiad mabwysiadu'r Cynllun cymeradwywyd 2 gais sydd wedi arwain at golli darpariaeth man agored a nodwyd yn yr Asesiad Mannau Agored. Yn y ddau achos, manylir ar golli'r man agored yn adroddiad y swyddog, a nodir y rhesymau pam y bernir bod y datblygiad yn dderbyniol.

**4.2.4** Roedd y cais cyntaf yn ymwneud â datblygu'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot (Polisi TR1/6), oedd yn arwain at golli ardal fechan o fan agored anffurfiol lle roedd glaswellt/planhigion a meinciau. Serch hynny, mae'r datblygiad yn cynnwys gwaith sylweddol yn y parth cyhoeddus, gan agor ardal eang lle gall pobl eistedd mewn ardal fodern, addas at y diben, sydd wedi'i dirlunio'n agored ag arwyneb caled yn bennaf, y tu allan i'r canolbwynt trafndiaeth.

**4.2.5** Roedd yr ail gais yn ymwneud â cholli ardal fechan o le chwarae arwyneb caled ar Lan y Môr yn Aberafan er mwyn datblygu cyfleuster golff antur. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth bresennol o ansawdd gwael a gwerth cyfyngedig o ran chwarae, felly er bod natur y ddarpariaeth wedi newid, bernir bod y cyfleuster golff yn cynnig mwy o gyfleoedd adloniadol.

**4.2.6** O ran y sbardun monitro felly, er bod dau gyfleuster wedi'u colli, darparwyd cyfleusterau eraill fel rhan o'r gwaith ailddatblygu.

**4.2.7** At ei gilydd, ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n gymharol dda, er bod rhai achosion wedi codi yng nghyswllt colli cyfleusterau cymunedol lle na roddwyd sylw llawn i'r gofynion polisi yn y broses o wneud penderfyniad. Bernir, fodd bynnag, fod modd gwneud iawn am hynny trwy drafodaeth bellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r mathau o gynigion a allai sbarduno'r polisi hwn, ac

er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni wrth ystyried ceisiadau yn y dyfodol. Er bod rhai cyfleusterau wedi cael eu colli, mae llawer o'r newidiadau o fanwerthu wedi bod i ddefnydd arall lle mae gwasanaethau'n dal i gael eu darparu i'r gymuned.

### Dangosydd 8: Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.

Tabl 4.2.3 Polisi Strategol SP2 – Iechyd

Ymddrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol hygrych (Gweler hefyd Bolisi BE1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.2.8** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â materion iechyd a salwch a'r angen am gadw cyfleusterau ac amwynderau. Cyfeirir hefyd at amcanion 23 a 24 yn y CDLI, sy'n ymwneud â'r angen am amddiffyn, diogelu a gwell treftadaeth hanesyddol, amgylchedd adeiledig a hunaniaeth y Fwrdeistref Sirol, a'r prif byrth sy'n arwain i mewn i Gastell-nedd Port Talbot ac yn gwasanaethu'r ardal.

**4.2.9** Y dangosydd yw nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio, tra bod y targed a'r pwynt sbarduno yn cyfeirio at ganiatâd a roddwyd yn groes i'r fframwaith polisi dylunio. Gwrthodwyd cyfanswm o 6 chais ar sail dylunio yn ystod y cyfnod monitro, un yn groes i argymhelliad swyddogion, a chaniatawyd un yn ddiweddarach ar ôl apêl. Bernir na chymeradwywyd ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi dylunio. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno yng nghyswllt y dangosydd hwn.

### Dangosydd 9: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio.

Tabl 4.2.4 Polisi Strategol SP2 - Iechyd

Ymddrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol hygrych (Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dylunio)	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio.

## 4 . Polisiâu Troswaol

Ymdrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol hygrych

(Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio)

Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Dylunio erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.2.10** Paratowyd y CCA Dylunio erbyn diwedd Ebrill 2017 ac wedyn fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 10 Mai a 21 Mehefin. Rhagwelir y bydd y CCA terfynol yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

## 4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy

Tabl 4.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Perfformiad	Cam Gweithredu
10	Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau

**Dangosydd 10: Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiatawyd yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref.**

Tabl 4.3.2 Polisi Strategol SP3 - Cymunedau Cynaliadwy

Hybu cymunedau cynaliadwy, cydlynus trwy nodi hierarchaeth aneddiadau (Gweler hefyd Bolisi SC1)	
Dangosydd Craidd	Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

## Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.3.1** Allan o gyfanswm o 19 o geisiadau oedd yn ymwneud â datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden yn ystod y cyfnod monitro, un yn unig sy'n ymwneud â datblygiad mawr, sef y cynnig ar gyfer amnewid siop Lidl ym Mharc Ynysderw, Pontardawe (P2015/1090). Er bod y cais hwn yn ymwneud â siop newydd, fwy o faint, nad yw wedi'i lleoli mewn canolfan fanwerthu ddynodedig, ymdriniwyd â'r profion a geir ym Mholisi R3 ag asesiad manwerthu a ddaeth i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn groes i'r polisi. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 11: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.**

## 4 . Polisiâu Troswaol

Tabl 4.3.3 Polisi Strategol SP3 - Cymunedau Cynaliadwy

Hybu cymunedau cynaliadwy a chydlynus trwy wrthsefyll datblygiadau amhriodol y tu allan i derfynau anheddiad (Gweler hefyd Bolisi SC1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.3.2** Cymeradwywyd tri chais ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i Bolisi SC1, dau oherwydd bod caniatâd cynllunio 'byw' eisoes yn bodoli ar gyfer cynigion tebyg y gellid eu gweithredu ar y safleoedd, ac un yn sgîl derbyn y dylid rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau perthnasol nag ar bolisi'r CDLI.

**4.3.3** Er bod mwyafrif y ceisiadau wedi cael eu penderfynu'n llawn yn unol â Pholisi SC1, mae'r tri phenderfyniad hyn yn codi pryderon nad yw Polisi SP3 y CDLI yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob achos. Bernir bod modd rhoi sylw i'r mater hwn trwy drafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu er mwyn sicrhau y glynir at yr holl ofynion polisi perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau.

### 4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith

Tabl 4.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
13	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

**Dangosydd 12: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr.**

Tabl 4.4.2 Polisi Strategol SP4 – Seilwaith

Darparu seilwaith ac effaith datblygiad newydd ar gymunedau sydd eisoes yn bodoli (Gweler hefyd Bolisi I1)	
Dangosydd Lleoli	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr.
Targed y Polisi	Bydd Datblygiad Newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.4.1** Mae nifer o geisiadau cynllunio wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod adrodd yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol Adran 106 (A106) i sicrhau seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr. Mae'r tabl canlynol yn darparu manylion y cytundebau cyfreithiol A106 perthnasol a lefel y cyfraniadau a sicrhawyd gan ddatblygwyr:

Cyf. y Cais	Lleoliad y Safle	Cyf. y Safle	Mannau Agored	Priffyrdd	Yr Iaith Gymraeg	Addysg	Bioamrywiaeth
P2014/1122	Heol Samuels, Cwmllynfell		£91,074.00		£20,500.00	£69,741.00	£16,600.00
P2015/0011	Heol Castell-nedd/Heol Fairyland, Tonna	H1/11	£187,956.00	£100,000			

## 4 . Polisiau Trosfwaol

Cyf. y Cais	Lleoliad y Safle	Cyf. y Safle	Mannau Agored	Priffyrdd	Yr Iaith Gymraeg	Addysg	Bioamrywiaeth
P2015/0778	Waun Sterw, Rhydyfro, Pontardawe		£18,512.00				
P2015/0905	Stablau Baglan gynt, Baglan		£2,700.00				
P2016/0135	Heol Wenallt, Cwmgwrach		£7,746.00				
P2016/0410	Heol Nedd, Cwmgwrach		£11,619.00				
P2016/0468	Wembley, Castell-nedd		£5,700.00				
P2016/0657	Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot	H1/16	£27,360.00				
P2016/0663	Cartref, Sgiwen		£23,156.00				
P2016/0601	Cyfnod 2 Morfa Afan		£10,230.00				

**4.4.2** Roedd y cytundebau A106 oedd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio P2015/0011 a P2015/0778 hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy. Ceir ymdriniaeth fanylach â'r mater hwn yn Adran 6.2 (Dangosydd 41).

**4.4.3** Cymeradwywyd nifer o geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod adrodd lle na cheisiwyd cyfraniadau datblygwyr tuag at fannau agored. Ceir ymdriniaeth fanylach â'r mater hwn yn Adran 6.4 (Dangosydd 46). Nid yw'r polisi'n cael ei weithredu'n gyson, felly, ym mhob achos, a bernir bod modd ymdrin â'r mater hwn trwy drafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu.

**4.4.4** O ran pob categori arall o seilwaith, mae effaith datblygiad newydd ar gymunedau wedi derbyn sylw cynhwysfawr yn ystod y broses o benderfynu ar y cais cynllunio ym mhob achos yn ystod y cyfnod adrodd. Lle barnwyd bod hynny'n gam gweithredu priodol, mae cytundebau A106 bellach yn eu lle i ymdrin ag effeithiau penodol cysylltiedig â'r datblygiadau arfaethedig, a hefyd i sicrhau bod anghenion defnyddwyr terfynol yn cael eu diwallu yn y dyfodol.

### Dangosydd 13: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio.

Tabl 4.4.3 Polisi Strategol SP4 - Seilwaith

Darparu seilwaith ac effaith datblygiad newydd ar gymunedau sydd eisoes yn bodoli	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio.
Targed y Polisi	Paratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

#### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**4.4.5** Paratowyd y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn ystod haf 2016, ac yn unol â'r targed monitro hwn, mabwysiadwyd y canllaw gan y Cyngor ym mis Hydref 2016.



## 4 . Polisiau Trosfwaol

## 5 Polisiau Ardal

### 5.1 Polisi Strategol 5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Tabl 5.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
14	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
15	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
16	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
17	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
18	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
19	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
21	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
22	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
23	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref	Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol
24	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
25	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
26	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

## 5 . Polisiâu Ardal

Cyf	Dangosydd	Aseu	Cam Gweithredu
27	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
28	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
30	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

### Dangosydd 14: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.

Tabl 5.1.2 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Darparu ar gyfer mwyafrif y datblygiadau tai newydd ar hyd Coridor yr Arfordir (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.
Targed y Polisi	<p>Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu <b>5,690</b> o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun.</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12 - 152</p> <p>2012/13 - 134</p> <p>2013/14 - 216</p> <p>2014/15 - 268</p> <p>2015/16 - 318</p> <p>2016/17 - 379</p> <p>2017/18 - 495</p> <p>2018/19 - 533</p> <p>2019/20 - 518</p> <p>2020/21 - 513</p>

Darparu ar gyfer mwyafrif y datblygiadau tai newydd ar hyd Coridor yr Arfordir (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
	2021/22 - 502 2022/23 - 468 2023/24 - 412 2024/25 - 387 2025/26 - 375
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

## Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.1** Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai ar hyd Coridor yr Arfordir yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro.

Tabl 5.1.3 Cyflenwi Tai ar hyd Coridor yr Arfordir

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi yn erbyn y Targed
2011/12	152	<b>152</b>	152	152	<b>0</b>
2012/13	134	<b>134</b>	286 (+134)	286	<b>0</b>
2013/14	216	<b>217</b>	502 (+216)	503	<b>+1</b>
2014/15	268	<b>235</b>	770 (+268)	738	<b>-32</b>
2015/16	318	<b>130</b>	1088 (+318)	868	<b>-220</b>
2016/17	379	<b>113</b>	1467 (+379)	981	<b>-486</b>

**5.1.2** Mae'r cyflenwi tai ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn coridor yr arfordir wedi syrthio o dan y targedau a geir yn y fframwaith monitro. Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, mae'r cyflenwi cronol wedi syrthio rhyw 486 o unedau o dan y targed cronol.

**5.1.3** Er bod y cyflenwi'n arafach na'r disgwyl, gwnaed cynnydd ar sawl safle yn y portffolio H1 yn ystod y cyfnod monitro presennol, naill ai drwy roi caniatâd cynllunio, neu trwy geisio cyngor cyn-ymgeisio manwl ar nifer o safleoedd. Yn ogystal â dyraniadau oddi mewn i'r portffolio H1, mae nifer o safleoedd annisgwyl wedi derbyn caniatâd a chael eu datblygu ers dyddiad sylfaen y CDLI. Rhagwelir felly y bydd cyfradd cyflenwi tai ar hyd coridor yr arfordir yn cynyddu yn ystod y cyfnod nesaf o 5 mlynedd, ac y bydd nifer o safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Bolisi H1 yn cael eu cyflenwi.

## 5 . Polisiau Ardal

**5.1.4** Gan fod y cyfnod monitro hwn yn cwmpasu'r flwyddyn gyntaf ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor wedi barnu mai dyma'r flwyddyn gyntaf i'r cyflenwi syrthio o dan y targed cronol. Bydd y safleoedd, a datblygiad y ceisiadau a ganiatawyd yn cael eu monitro'n fanwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 15: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.4 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisiau SP7, SRA1, H1)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	<p>Darparu ar gyfer datblygu <b>2,400</b> o unedau tai newydd erbyn 2026.</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12 - 0</p> <p>2012/13 - 3</p> <p>2013/14 - 72</p> <p>2014/15 - 100</p> <p>2015/16 - 125</p> <p>2016/17 - 140</p> <p>2017/18 - 170</p> <p>2018/19 - 190</p> <p>2019/20 - 215</p> <p>2020/21 - 215</p> <p>2021/22 - 215</p> <p>2022/23 - 225</p> <p>2023/24 - 235</p> <p>2024/25 - 245</p> <p>2025/26 - 250</p>
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Coed Darcy yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisiau SP7, SRA1, H1)	
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

## Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.5** Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai yng Nghoed Darcy yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro.

Tabl 5.1.5 Cyflenwi Tai yng Nghoed Darcy

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflawni yn erbyn y Targed
2011/12	0	0	0	0	0
2012/13	3	3	3	3	0
2013/14	72	72	75 (+72)	75	0
2014/15	100	76	175 (+100)	151	-24
2015/16	125	62	300 (+125)	213	-87
2016/17	140	53	440 (+140)	266	-214

**5.1.6** Mae nifer yr unedau a gyflenwyd yng Nghoed Darcy ers mabwysiadu'r CDLI wedi bod yn is na'r disgwyl gwreiddiol, ac mae nifer y tai a gwblhawyd wedi bod yn is na'r targedau yn y fframwaith monitro, yn arbennig ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016.

**5.1.7** Mae'r Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) yn cydweithio ar hyn o bryd i adolygu'r cytundeb Adran 106 a chyflymu'r cynnydd ar y safle. Mae un elfen o'r trafodaethau sy'n parhau yn canolbwyntio ar ddull gweithredu a fyddai'n golygu bod gwaith datblygu'n cychwyn ar ardal ddeheuol y safle, yn ogystal â pharhau ar y rhan ogleddol. Bydd y dull gweithredu hwn yn cynyddu'r tai sy'n cael eu cyflenwi ar y safle ac yn golygu bod nifer o ddatblygwyr yn datblygu sawl allfa ar draws ardaloedd y gogledd a'r de yn ystod y 12-18 mis nesaf.

**5.1.8** Ar sail cyfraddau adeiladu calonogol 1 allfa ddatblygu, mae SMDL yn credu bod modd gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y 5 mlynedd nesaf, ac mae disgwyl i'r safle ddarparu dros 200 o unedau y flwyddyn erbyn 2019/20, a fyddai'n cyfateb i'r targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro. Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y datblygiad yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 5 . Polisiâu Ardal

### Dangosydd 16: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.6 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisiau SP11, SRA1, EC1/3)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Bydd isafswm o 4ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.66ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Coed Darcy yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.9** Hyd yma, ni ddatblygwyd tir at ddefnyddiau cyflogaeth oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. Mae datblygiad tai yng Nghoed Darcy wedi bod yn arafach nag y rhagwelwyd yn wreiddiol, er y disgwylir y bydd y gyfradd gyflwyno'n cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac yn cyrraedd y targedau gofynnol oddi mewn i'r fframwaith monitro. Mae cyflwyno tai a seilwaith yn arafach wedi achosi oedi yn elfen gyflogaeth yr adfywiad defnydd cymysg, ond disgwylir y bydd hyn yn cyflymu, yn unol ag elfennau eraill o'r aiddatblygiad, ac yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

### Dangosydd 17: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.7 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisi TR1/2)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.



Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisi TR1/2)	
Pwynt Sbarduno	Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn cael ei chyflawni yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.10** Yng nghyswllt Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 o ran cefnogi datbygiad preswyl pellach yn rhan ogleddol y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu ar gyfer cychwyn ail haen o ddatblygiad yn yr ardal ddeheuol.

**5.1.11** Er na wnaed hynny'n ffurfiol eto, mae'r Cyngor a SMDL wedi dod i gytundeb mewn egwyddor i weithredu sbardun diwygiedig ar gyfer cyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol. Roedd yr A106 wreiddiol yn gofyn bod y Ffordd yn cael ei chyflawni cyn bod mwy na 300 o gartrefi'n cael eu meddiannu, a bwriad y diwygio yw caniatáu i'r ffigur hwn godi, ac addasu amseriad y Ffordd Fynediad Ddeheuol a'r ddolen gyswllt strategol â'r briffordd. Mae diwygio fel hyn yn golygu bod modd datblygu Coed Darcy mewn dau gyfeiriad, fel bod nifer yr unedau preswyl i'w meddiannu yn gallu cynyddu.

**5.1.12** Yn y man, bydd sbardun diwygiedig ar gyfer cyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol yn cael ei gytuno a'i gynnwys, fel bod gofyniad i gwblhau'r ffordd cyn dyddiad penodol neu lefel meddiant penodol (p'un bynnag ddaw gyntaf). Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y cynllun yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dangosydd 18: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.**

Tabl 5.1.8 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisi TR1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Cyflawni'r gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn raddol, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.

## 5 . Polisiâu Ardal

### Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy

(Gweler hefyd Bolisi TR1/4)

Pwynt Sbarduno	Nid yw Cyffordd 43 (yr M4) yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.13** Yn gysylltiedig â chyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler Dangosydd 17 uchod), mae'r Cytundeb A106 presennol hefyd yn gofyn bod cyfres o welliannau'n cael eu gwneud i Gyffordd 43 o'r M4, a'r ffordd sy'n cysylltu'r cynllun â'r gyffordd, sef y Ffordd Fynediad Ogleddol fel y'i gelwir. Mae gwaith eisoes wedi'i gwblhau o ran cyfnodau cychwynnol y gwaith gwella.

**5.1.14** Fel rhan o'r trafodaethau parhaus, cytunwyd mewn egwyddor hefyd rhwng y Cyngor a SMDL i ymgorffori amserlenni diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r gwaith ar Gyffordd 43 yn raddol. Yn syml, bydd y newidiadau'n addasu'r cyfnodau o gyflwyno'r gwaith er mwyn cynyddu'r capasiti posibl o ran traffig ychwanegol o'r safle i Gyffordd 43 yn gynharach, fel bod modd adeiladu nifer mwy o anheddau preswyl cyn adeiladu'r ddolen briffordd strategol sy'n cysylltu Cyffordd 43 â'r A483 (Ffordd Fabian), ar hyd y Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler uchod) - h.y. bydd cyfran uwch o'r traffig yn cael ei chyfeirio i mewn ac allan o'r safle o'r gogledd yn y tymor byrrach, a bydd cyfnodau'r gwaith i wella'r briffordd yn cael eu hailbroffilio i ddarparu ar gyfer hynny.

**5.1.15** Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y cynllun yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dangosydd 19: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

Tabl 5.1.9 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr	
(Gweler hefyd Polisiâu SP7, SRA2, H1)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	Darparu <b>385</b> o unedau tai newydd erbyn 2026.  Targedau Blynyddol:  2011/12 - 0

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisiau SP7, SRA2, H1)	
	2012/13 - 0
	2013/14 - 0
	2014/15 - 0
	2015/16 - 35
	2016/17 - 0
	2017/18 - 10
	2018/19 - 30
	2019/20 - 30
	2020/21 - 50
	2021/22 - 50
	2022/23 - 50
	2023/24 - 50
	2024/25 - 50
	2025/26 - 30
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Glannau'r Harbwr yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.16** Ailddatblygu 'Green Park' yw'r elfen breswyl gyntaf o Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r datblygiad yn 2014 ar gyfer datblygu 34 o unedau preswyl, ac fe'i cwblhawyd yn 2016/17.

**5.1.17** Mae'r fframwaith monitro yn gosod targed o 35 uned i'w cwblhau yn 2015/16 a 0 uned yn 2016/17, ac er i'r datblygiad o 34 uned gael ei gyflawni flwyddyn yn ddiweddarach na'r targed monitro, ni fydd hynny'n cael effaith ar gyflawni'r safle yn gyffredinol. Mae'r llwyddiant i gyflawni cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl, ynghyd â datblygiad defnyddiau eraill amhreswyl yng Nglannau'r Harbwr, yn dangos bod y gwaith o ailddatblygu Glannau'r Harbwr yn mynd rhagddo. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

## 5 . Polisiâu Ardal

**Dangosydd 20: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

Tabl 5.1.10 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisiau SP11, SRA2, EC1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	Bydd isafswm o <b>7 hectar</b> o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o <b>0.92 hectar</b> i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Glannau'r Harbwr yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.18** Ers dyddiad sylfaen y CDLI, mae cyfanswm o 1.8 hectar (ha) o dir at ddefnyddiau cyflogaeth wedi cael ei ddatblygu yng Nglannau'r Harbwr.

Tabl 5.1.1

Blwyddyn	Tir Cyflogaeth a Ddatblygwyd	Targed Cronnol	Datblygiad Cronnol	Datblygiad yn erbyn y Targed
2011/2012	1.72ha	1.7ha	1.7ha	0
2012/2013	0	2.16ha (+0.46ha)	1.7ha	-0.46ha
2013/2014	0	2.62ha (+0.46ha)	1.7ha	-0.92ha
2014/2015	0	3.08ha (+0.46ha)	1.7ha	-1.38ha
2015/2016	0.098ha	3.54ha (+0.46ha)	1.8ha	-1.74ha
2016/2017	0	4ha (+0.46ha)	1.8ha	-2.2ha

**5.1.19** Targed y polisi yw datblygu isafswm o 0.46ha y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gyda tharged cronol o 0.92ha i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, datblygwyd 0.098ha o dir cyflogaeth, sy'n is na'r targed blynyddol o 0.46ha.

**5.1.20** Yn gronnol, mae'r hyn a gyflawnir yng Nglannau'r Harbwr wedi syrthio o dan y targedau a bennwyd yn y fframwaith monitro. Er bod yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd wedi syrthio o dan y targed, caniatwyd nifer o geisiadau at ddibenion cyflogaeth. Mae cais i adeiladu 3 uned fusnes B1 ar wahân ar safle o 1.37ha ac estyniad deulawr i'r cyfleuster Ymchwil a Datblygu TWI presennol, sy'n cyfateb i 0.33ha, fel ei gilydd wedi cael caniatâd cynllunio.

**5.1.21** Gan fod y cyfnod monitro hwn yn cwmpasu'r flwyddyn gyntaf ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor wedi barnu mai dyma'r flwyddyn gyntaf i'r cyflenwi syrthio o dan y targed cronol. Bydd y safle, a datblygiad y ceisiadau a ganiatwyd yn cael ei fonitro'n fanwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dangosydd 21: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatwyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

Tabl 5.1.12 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisi R1/3)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr, yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir y datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.22** Penderfynwyd ar un cais (perthnasol i'r dangosydd hwn) ar gyfer cynnig oddi mewn i AAS Glannau'r Harbwr yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hyn yn ymwneud â newid defnydd swyddfa bresennol/uned ddiwydiannol yn gampfa, a rhoddwyd caniatâd dros dro er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad yn peryglu fframwaith cyffredinol y datblygiad (P2016/0005). Hyd yma, felly, bernir bod datblygiadau oddi mewn i AAS Glannau'r Harbwr yn unol â'r fframwaith datblygu mewn perthynas ag elfen dyrannu manwerthu'r cynllun. Fodd bynnag, mae CCA Glannau'r Harbwr a'r fframwaith datblygu i gael eu diwygio a'u diweddarau nawr (gweler Dangosydd 23 isod).

**Dangosydd 22: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatwyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

## 5 . Polisiâu Ardal

Tabl 5.1.13 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisi TR1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY).
Pwynt Sbarduno	WEDI'I GWBLHAU.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.23** Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr (FfDdY), sy'n ddolen gyswllt bwysig â'r M4 ar gyfer trafndiaeth AAS Glannau'r Harbwr, yn 2014.

**Dangosydd 23: Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref.**

Tabl 5.1.14 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.24** Hyd yma, ni pharatowyd CCA ar gyfer Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref. Ar hyn o bryd, mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fireinio a gwella'r modelu llifogydd ar gyfer yr ardal, er mwyn sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o'r systemau llifogydd a'r ffactorau fydd yn dylanwadu ar batrwm datblygiad yn y dyfodol yng Nglannau'r Harbwr.

**5.1.25** Mae'r gwaith o baratoi'r CCA wedi cael ei ohirio, felly, fel bod modd i fframwaith datblygu Glannau'r Harbwr gael ei lywio'n llawn gan y gwaith pellach sydd i'w wneud ynghylch modelu llifogydd. Bydd unrhyw gynnydd ar y safle yn cael ei fonitro'n fanwl, a bydd yr angen am baratoi CCA i gyflwyno gweledigaeth gyffredinol, ffurf a chymeriad y safle yn cael ystyriaeth bellach yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

**Dangosydd 24: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.**

Tabl 5.1.15 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Canol Tref Castell-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, CCRS1/1, H1/7)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd yn cael ei gyflawni o 2016/17.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.26** Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yn 2013, gyda chaniatâd cynllunio llawn ar gyfer cyfnod cyntaf y datblygiad preswyl (6 uned fasnachol a 12 uned breswyl) yn cael ei roi ym mis Ionawr 2017.

**5.1.27** Mae'r dangosydd ar gyfer y targed hwn yn awgrymu y dylai datblygiad gychwyn o 2016/17. Er na chychwynnodd y datblygiad o fewn y terfynau amser hyn, mae Grŵp Tai Coastal yn disgwyl dechrau gweithio ar y safle yn hydref 2017, a chan fod y datblygiad i gael ei ddechrau'n fuan, ni fernir bod angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd. Bydd y gwaith o fonitro datblygiad y safle yn parhau trwy'r broses TAN1, a sonnir am hynny yn adroddiad monitro'r flwyddyn nesaf.



## 5 . Polisiâu Ardal

### Dangosydd 25: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

Tabl 5.1.16 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Canol Tref Castell-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP12, CCRS1/1, R1/1)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd: Cyfnod 1 erbyn 2016; Cyfnod 2 erbyn 2020.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn unol â'r amserlenni a nodwyd.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.28** Cyfnod 1 o Gynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yw maes parcio aml-lawr newydd yn lle'r hen un ac uned siopa fawr. Cwblhawyd y cyfnod cyntaf hwn ac roedd yn cael ei ddefnyddio erbyn canol 2016, gan gydymffurfio â gofynion rhan gyntaf targed y polisi. Mae'r caniatâd y cyfeirir ato uchod ar gyfer 6 uned fasnachol a 12 uned breswyl yn cyfeirio at ran o Gyfnod 2 ac, fel y nodwyd, mae'r gwaith adeiladu i gychwyn yn hydref 2017. Bydd y monitro cynnydd o ran cyflawni cyfnod 2 yn parhau.

### Dangosydd 26: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.

Tabl 5.1.17 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Ysgol Gyfun Glanafan (Gweler hefyd Bolisiau SP7, CCRS1/2, H1/17)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.
Targed y Polisi	Cyflawni 50 o unedau tai y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan yn cael ei gyflawni o 2017/18.
Perfformiad	

## Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Ysgol Gyfun Glanafan

(Gweler hefyd Bolisiau SP7, CCRS1/2, H1/17)

Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.
----------------	--

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau**

**5.1.29** Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ailddatblygu Ysgol Glanafan ym mis Mawrth 2017. Sicrhawyd cyllid ar gyfer y cynllun trwy'r Grant Tai Cymdeithasol ac arian Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Dechreuodd Grŵp Tai Coastal weithio ar y safle yn haf 2017, ac mae'r datblygiad i gael ei gwblhau ym mis Medi 2018. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 49 o unedau, yn hytrach na'r 50 a ragwelwyd. Mae disgwyl felly i'r cynllun ddarparu datblygiad tai o 2017/18, yn unol â'r fframwaith monitro.

**Dangosydd 27: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.**

Tabl 5.1.18 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

## Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Ysgol Gyfun Glanafan

(Gweler hefyd Bolisiau SP12, CCRS1/2, R1/2)

Dangosydd Lleoli	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.
Targed y Polisi	Cyflawni 50 o unedau tai y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan yn cael ei gyflawni o 2017/18.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau**

**5.1.30** Mae elfen fanwerthu arfaethedig safle Ysgol Glanafan yn rhan o'r un caniatâd cynllunio a datblygiad cyffredinol â'r elfennau preswyl y cyfeirir atynt uchod. Fel y nodwyd uchod, dechreuodd gwaith ar y safle yn haf 2017, ac mae i gael ei gwblhau ym mis Medi 2018. Rhagwelir y bydd yr elfen fanwerthu hefyd yn cael ei darparu o 2018, gan gyflawni targed y polisi.

**Dangosydd 28: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.**

## 5 . Polisiâu Ardal

Tabl 5.1.19 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Lido Afan (Gweler hefyd Bolisiau SP7, CCRS1/3, H1/19)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.
Targed y Polisi	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan yn cael ei gyflawni o 2016/17.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.31** Er bod y dangosydd yn awgrymu y bydd datblygiad yn cychwyn o 2016/17 ymlaen, hyd yma ni fu datblygiad ar y safle, ac ni chyflwynwyd cais cynllunio.

**5.1.32** Mae'r safle, sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, wedi'i glirio ac yn barod i'w ddatblygu. Mae'r safle'n wastad, yn hygyrch ac un o'i fanteision yw lleoliad yn ymyl y traeth. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r safle ar gyfer proses dendro i ddatblygu'r safle ar gyfer 150 o unedau preswyl, gan gynnwys elfennau masnachol/twristiaeth. Mae'r cynigion a ddaeth i law gan ddarpar ddatblygwyr yn cael eu hasesu ar hyn o bryd gan y Cyngor, a disgwylir i'r datblygiad gael ei gwblhau o fewn cyfnod o 4 blynedd, yn unol â briff y tendr.

**5.1.33** Er bod yr oedi wrth ddatblygu'r safle yn golygu bod y dangosydd wedi taro'r pwynt sbarduno, o ystyried y cynnydd diweddar a diddordeb datblygwyr, gallai cryn gynnydd ddigwydd yn ystod y flwyddyn nesaf, a rhagwelir y bydd y safle'n dechrau cyflwyno unedau preswyl erbyn 2018/19. Ni fernir, felly, bod angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd, a bydd y safle'n cael ei fonitro'n fanwl yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

**Dangosydd 29: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.**

Tabl 5.1.20 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Lido Afan (Gweler hefyd Bolisi CCRS1/3)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.
Targed y Polisi	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020.

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Lido Afan (Gweler hefyd Bolisi CCRS1/3)	
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan yn cael ei gyflawni erbyn 2020.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.34** Mae datblygiad elfen dwristiaeth/adloniant y cynllun yn debygol o ddibynnu ar ddatblygiad yr elfen breswyl, gan fod y safle'n debygol o gael ei ddatblygu yn ei gryswth.

**5.1.35** Fel y nodwyd uchod, mae'r safle wedi cael ei gyflwyno ar gyfer tendr yn ddiweddar, ac mae cynigion y datblygwyr yn cael eu hasesu gan y Cyngor ar hyn o bryd. O ystyried bod y safle'n wastad, yn hygyrch, mewn lleoliad yn ymyl y traeth, ac yn barod i'w ddatblygu, disgwylir y bydd y safle'n dechrau cael ei gyflwyno yn 2018/19, ac felly mae elfen dwristiaeth y cynllun yn debygol o gael ei chwblhau erbyn 2020. Ni fernir, felly, bod angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd, a bydd y safle'n cael ei fonitro'n fanwl yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

**Dangosydd 30: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.**

Tabl 5.1.21 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Cyflawni Campws Prifysgol Gwyddoniaeth ac Arloesedd ar Ffordd Fabian (Polisi CCUC1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015:  Mai 2013 - Gwaith i gychwyn.  Mai 2014 - Cwblhau'r adeiladau cyntaf.  Mai 2015 - Yr holl adeiladau amhreswyl wedi'u cwblhau.  Medi 2015 - Cwblhau'r llety myfyrwyr.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	

## 5 . Polisiâu Ardal

Cyflawni Campws Prifysgol Gwyddoniaeth ac Arloesedd ar Ffordd Fabian (Polisi CCUC1)	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.1.36** Mae datblygiad Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn ddatblygiad pwysig yn y Fwrdeistref Sirol, ac mae ganddo'r potensial i gefnogi twf yn yr economi wybodaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ac ar draws y Ddinas-Ranbarth.

**5.1.37** Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer y campws ym mis Awst 2012, a chymeradwywyd materion dilynol a neilltuwyd ar gyfer Cyfnod 1 ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r CDLI yn dyrannu tir i ddarparu ar gyfer datblygiad oddi mewn i'r cais amlinellol presennol ar ardaloedd ychwanegol ar y safle er mwyn ehangu ymhellach. Mae tir hefyd ar gael i'r gorllewin o'r safle, oddi mewn i ffiniau gweinyddol Dinas a Sir Abertawe.

**5.1.38** Mae'r targedau a geir yn y fframwaith monitro yn cyfeirio at ddatblygiad Cyfnod 1a o'r Campws, oedd yn cynnwys llawer o'r prif adeiladau oedd yn ofynnol er mwyn i'r campws agor yn ffurfiol ym mis Medi 2015, megis y Neuadd Fawr, y Canolbwynt Arloesedd, y Cyfleuster Gweithgynhyrchu, llety preswyl ac adeiladau academaidd.

**5.1.39** Agorodd y Campws yn ffurfiol ym mis Medi 2015, ac erbyn hynny roedd yr adeiladau academaidd a'r llety preswyl oedd yn rhan o Gyfnod 1a wedi'u cwblhau yn unol â'r fframwaith monitro. Ers cwblhau Cyfnod 1a, mae'r rhan fwyaf o Gyfnodau 1b ac 1c naill ai wedi cael eu cwblhau neu ar waith ar hyn o bryd ac yn agos i'w cwblhau, ac mae rhai rhannau o'r datblygiad hwn wedi'u cwblhau 5 mlynedd o flaen yr amserlen wreiddiol. Dengys hyn fod y polisi wedi'i weithredu'n llwyddiannus ac mae hefyd yn arwydd o lwyddiant Campws y Brifysgol.

**5.1.40** Mae rhai ardaloedd sy'n rhan o Gyfnod 2 y datblygiad hefyd wedi symud ymlaen yn y rhaglen waith, gan fod adeiladau megis adeiladau academaidd ESRI a Navitas bellach wedi'u cwblhau. Mae rhannau ychwanegol o Gyfnod 2 sydd i'w datblygu, gan gynnwys maes parcio aml-lawr ac adeiladau preswyl ac academaidd ychwanegol. Mae'r holl geisiadau cynllunio a ddaeth i law hyd yma wedi bod yn unol â Pholisi CCUC1.

## 5.2 Polisi Strategol 6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Tabl 5.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
32	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
33	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
34	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
35	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
36	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol
37	Nifer y cynigion gwaith byw a ganiatawyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 31: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.**

Tabl 5.2.2 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Cyflawni datblygiad tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.
Targed y Polisi	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu <b>1,435</b> o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun.
	2011/12 - 61 2012/13 - 108

## 5 . Polisiau Ardal

Cyflawni datblygiad tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
	2013/14 - 44
	2014/15 - 60
	2015/16 - 90
	2016/17 - 112
	2017/18 - 92
	2018/19 - 75
	2019/20 - 122
	2020/21 - 125
	2021/22 - 117
	2022/23 - 117
	2023/24 - 112
	2024/25 - 126
	2025/26 - 74
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.1** Oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd, bu peth datblygu arwyddocaol ers dechrau cyfnod y Cynllun, fel y manylir yn y tabl canlynol:

Tabl 5.2.3 Cwblhau Tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	61	64	61	64	<b>3</b>
2012/13	108	108	169 (+108)	172	<b>3</b>
2013/14	44	44	213 (+44)	216	<b>3</b>
2014/15	60	81	273 (+60)	297	<b>24</b>
2015/16	90	85	363 (+90)	382	<b>19</b>



Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2016/17	112	18	475 (+112)	400	<b>-75</b>

**5.2.2** Y sbardun polisi ar gyfer y dangosydd hwn yw lle mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd ar safleoedd tai a ddyrannwyd (Polisi H1) oddi mewn i Ardaloedd Strategaeth y Cymoedd yn syrthio o dan y gofyniad **cronnol** ar gyfer 2 flynedd olynol. O edrych ar y targed cronol o flwyddyn i flwyddyn, nid yw'r lefelau cwblhau yn methu â chyrraedd y targed ond yn achos y llynedd.

**5.2.3** Er bod diffyg dros dro wedi codi wrth gyflwyno tai ar sail y targedau yn ystod cyfnod 2016/17, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae hefyd yn werth nodi, oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd, bod nifer o achosion o gwblhau wedi digwydd ar safleoedd annisgwyl, a bod caniatâd wedi'i roi ar nifer o safleoedd mawr yn ystod y cyfnod monitro.

**Dangosydd 32: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe.**

Tabl 5.2.4 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Ardal Twf Strategol Pontardawe (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe.
Targed y Polisi	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu <b>664</b> o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun.
Targedau Blynyddol	2011/12 - 0 2012/13 - 46 2013/14 - 30 2014/15 - 38 2015/16 - 65 2016/17 - 92 2017/18 - 72 2018/19 - 50 2019/20 - 66 2020/21 - 50

## 5 . Polisiau Ardal

Ardal Twf Strategol Pontardawe (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
	2021/22 - 40 2022/23 - 40 2023/24 - 35 2024/25 - 40 2025/26 - 0
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.4** Bu peth datblygu arwyddocaol yn Ardal Twf Strategol Pontardawe ers dechrau cyfnod y Cynllun. Mae'r cyfraddau adeiladu blynnyddol fel a ganlyn:

Tabl 5.2.5 Cwblhau Tai yn Ardal Twf Strategol Pontardawe

Flwyddyn	Targed Blynnyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	0	3	0	3	<b>3</b>
2012/13	46	46	46 (+46)	49	<b>3</b>
2013/14	30	30	76 (+30)	79	<b>3</b>
2014/15	38	43	114 (+38)	122	<b>8</b>
2015/16	65	66	179 (+65)	188	<b>9</b>
2016/17	92	18	271 (+92)	206	<b>-65</b>

**5.2.5** sbardun polisi ar gyfer y dangosydd hwn yw lle mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd ar safleoedd tai a ddyrannwyd (Polisi H1) oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe yn syrthio o dan y gofyniad **cronnol** ar gyfer 2 flynedd olynol. O edrych ar y targed cronol o flwyddyn i flwyddyn, nid yw'r lefelau cwblhau yn methu â chyrraedd y targed ond yn achos y llynedd.

**5.2.6** Er bod diffyg dros dro wedi codi wrth gyflwyno tai ar sail y targedau yn ystod cyfnod 2016/17, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae hefyd yn werth nodi, oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe, bod nifer o achosion o gwblhau wedi digwydd ar safleoedd annisgwyl, a bod caniatâd wedi'i roi ar nifer o safleoedd mawr yn ystod y cyfnod monitro.

### Dangosydd 33: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.

Tabl 5.2.6 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.
Targed y Polisi	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu <b>264</b> o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun.
Targed Blynyddol	2011/12 - 5 2012/13 - 0 2013/14 - 9 2014/15 - 2 2015/16 - 0 2016/17 - 0 2017/18 - 0 2018/19 - 0 2019/20 - 21 2020/21 - 45 2021/22 - 37 2022/23 - 37 2023/24 - 37 2024/25 - 36 2025/26 - 35
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.

## 5 . Polisiau Ardal

Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.7** Bu datblygiad mwy cyfyngedig yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf, fel y manylir yn y tabl canlynol:

Table 5.2.1 Housing Completions in the Upper Neath Valley Strategic Growth Area

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	5	5	5	5	<b>0</b>
2012/13	0	0	5 (+0)	5	<b>0</b>
2013/14	9	9	14 (+9)	14	<b>0</b>
2014/15	2	2	16 (+2)	16	<b>0</b>
2015/16	0	0	16 (+0)	16	<b>0</b>
2016/17	0	0	16 (+0)	16	<b>0</b>

**5.2.8** Dengys y ffigurau fod y lefelau cwblhau yn unol â'r targedau blynyddol a nodwyd uchod, sy'n dangos bod datblygu'n mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl. Er na ragwelir y bydd safleoedd mawr wedi'u cwblhau tan 2019/20, bydd lefelau cwblhau tai yn dal i gael eu monitro yn ystod y cyfnod.

**Dangosydd 34: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.**

Tabl 5.2.8 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Adfywio defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1/1, H1)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni <b>150</b> o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2020/21.

Adfywio defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1/1, H1)	
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn cael ei gyflawni o 2020/21.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.9** Hyd yma ni fu cynnydd ar y safle hwn ac mae disgwyl na fydd y datblygiad yn cychwyn am rai blynyddoedd o hyd, gan y rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflawni'n ddiweddarach yng nghyfnod y cynllun. Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro

**Dangosydd 35: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.**

Tabl 5.2.9 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Datblygiad Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP12, VRS1/1, R1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.10** Fel uchod, ni fu cynnydd hyd yma yn elfen fanwerthu y datblygiad ar y safle hwn. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro ar y cyd â Dangosydd 34.

**Dangosydd 36: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.**

## 5 . Polisiâu Ardal

Tabl 5.2.10 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Datblygiad Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.11** Nid yw'r CCA wedi cael ei gynhyrchu erbyn dyddiad pwynt sbarduno Ebrill 2017. O ystyried nad oes disgwyl i'r safle gael ei gyflwyno tan ran ddiweddarach cyfnod y Cynllun (h.y. o 2020 ymlaen), mae'r oedi wrth gynhyrchu'r CCA yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar y gwaith cyffredinol o gyflwyno'r safle. Bydd unrhyw gynnydd ar y safle yn cael ei fonitro'n fanwl, a bydd yr angen am baratoi CCA i gyflwyno gweledigaeth gyffredinol, ffurf a chymeriad y safle yn cael ystyriaeth bellach yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

### Dangosydd 37: Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd.

Tabl 5.2.11 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Annog Defnyddiau Cyflogaeth, gan gynnwys unedau Bywyd/Gwaith (Gweler hefyd Bolisiâu SP11, EC5, EC6)	
Dangosydd Lleol	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd.
Targed y Polisi	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir.
Pwynt Sbarduno	Dim cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**5.2.12** Ers mabwysiadu'r CDLI, ni wnaed ceisiadau am unedau bywyd/gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r polisi bywyd/gwaith yn darparu fframwaith ar gyfer caniatáu datblygiad y tu allan i derfynau anheddiad yn Ardal Strategol y Cymoedd, gan ddarparu dull polisi mwy arloesol er mwyn annog datblygiad yn y Cymoedd i gyfrannu at adfywio cyffredinol. Gan fod y dull polisi hwn yn arloesol ac yn gymharol newydd, gallai gymryd amser i geisiadau ddechrau dod i law trwy'r system gynllunio. Bydd y polisi, ac unrhyw geisiadau a gyflwynir, yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dangosydd 38: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.**

Tabl 5.2.12 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Datblygu Twristiaeth (Gweler hefyd Bolisiâu SP13, TO3/1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.
Targed y Polisi	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau**

**5.2.13** Mae'r safle'n destun cais cynllunio amlinellol sydd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio, yn amodol ar lofnodi Cytundeb Adran 106. Mae'r cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, gyda thwristiaeth yn brif elfen, gyda hyd at 100 o unedau llety gwyliau, cyfadeilad hamdden, ac mae hefyd yn caniatáu ar gyfer elfen breswyl a fydd yn galluogi'r datblygiad.

**5.2.14** Yn ddiweddar, bu newid ym mherchnogaeth rhan o'r safle ac mae CNC yn parhau i ymchwilio i'r modelu llifogydd sy'n effeithio ar y safle. Er bod y cytundeb A106 heb ei lofnodi eto, gan fod y safle i gael ei gyflawni yn 2021, mae digon o amser i'r materion dderbyn sylw, i'r cytundeb gael ei gwblhau, ac i'r datblygiad gychwyn.

**5.2.15** Ar y sail, ni fernir bod angen gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y cynnydd yn parhau i gael ei fonitro.



## 5 . Polisiau Ardal

## 6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

### 6.1 Polisi Strategol 7 - Gofynion Tai

Tabl 6.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
40	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.**

Tabl 6.1.2 Polisi Strategol SP7 - Gofynion Tai

Darparu tai digonol i fodloni'r strategaeth ar gyfer twf a seiliwyd ar ffactorau economaidd (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, H1)	
Dangosydd Craidd	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
Targed y Polisi	<p>Darperir cyfanswm o <b>8,760</b> o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026.</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12 - 262</p> <p>2012/13 - 287</p> <p>2013/14 - 301</p> <p>2014/15 - 386</p> <p>2015/16 - 486</p> <p>2016/17 - 549</p> <p>2017/18 - 625</p> <p>2018/19 - 686</p> <p>2019/20 - 698</p> <p>2020/21 - 676</p> <p>2021/22 - 647</p> <p>2022/23 - 614</p>

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Darparu tai digonol i fodloni'r strategaeth ar gyfer twf a seiliwyd ar ffactorau economaidd (Gweler hefyd Bolisiau SP2, H1)	
	2023/24 - 553 2024/25 - 542 2025/26 - 488
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.1.1** Mae'r CDLI yn darparu ar gyfer 8,760 o unedau tai newydd, er mwyn cyflenwi'r angen o 7,800 o unedau tai newydd erbyn 2026. Hyd yma, mae'r CDLI wedi cyflenwi 1,679 o unedau tai, fel y dangoswyd yn y tabl isod.

Tabl 6.1.3 Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Union Nifer y Tai a Gwblhawyd	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Croniad Tai a Gwblhawyd yn erbyn y Targed
2011/12	262	262	262	262	0
2012/13	287	287	549	549	0
2013/14	301	301	850	850	0
2014/15	386	401	1,236	1,251	15
2015/16	486	250	1,722	1,501	-221
2016/17	549	178	2,271	1,679	-592

**6.1.2** Oddi mewn i'r cyfnod monitro hwn a blwyddyn gyntaf mabwysiadu'r CDLI, mae'r union gyfraddau cwblhau tai yn is na'r targed blynyddol a geir yn y fframwaith monitro. Mae'r cyfraddau cwblhau cronol, o'u cymharu â'r targed cronol, 592 uned o dan y targed yn y cyfnod monitro cyfredol. Er bod hwn yn ffigur sylweddol, o gymharu cyfanswm y tai a gwblhawyd (1,679) â'r targed cronol (2,271), mae'r CDLI wedi cyflenwi tua 74% o'r targed cronol hyd yma.

**6.1.3** Er bod lefel y tai a gwblheir yn is na'r hyn a ragwelwyd, mae nifer o safleoedd ym mhorthfolio Polisi H1 naill ai wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro (e.e. Heol Castell-nedd / Heol Fairyland, Tonna) neu wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ceisiadau sydd heb eu penderfynu neu drafodaethau cyn-ymgeisio. Disgwylir felly y bydd cyfradd cyflwyno tai yn cynyddu'n sylweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod nesaf o 5 mlynedd. Ar y sail hon, a chan mai hwn yw'r cyfnod monitro cyntaf ers

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

mabwysiadu, ni chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno eto, ac nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Bydd lefelau cwblhau tai yn parhau i gael eu monitro yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

### Dangosydd 40: Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Tabl 6.1.4 Polisi Strategol SP7 - Gofynion Tai

Darparu digon o dir ar gyfer tai newydd i ddiwallu'r anghenion tymor byr, canolig a hir (Gweler hefyd Bolisi H1)	
Dangosydd Craidd	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1).
Targed y Polisi	Ni ddylai'r cyflenwad tir ar gyfer tai syrthio o dan 5 mlynedd, fel y pennwyd gan yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1) mewn unrhyw flwyddyn benodol.
Pwynt Sbarduno	Mae'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn syrthio o dan 5 mlynedd, fel y pennwyd gan yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1) mewn unrhyw flwyddyn benodol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.1.4** Cwblhawyd dwy Astudiaeth ar y cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) yn ystod y cyfnod monitro hwn. Dangosodd astudiaeth 2016 (oedd yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2016), fod cyflenwad tir o 5.0 mlynedd, a dangosodd yr astudiaeth ddiweddaraf, yn 2017 (oedd yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017), ffigur cyflenwad tir o 5.3 mlynedd.

**6.1.5** O ganlyniad, ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor wedi arddangos cyflenwad tir o 5 mlynedd, a bodlonwyd gofynion y dangosydd hwn.

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

### 6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy

Tabl 6.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosyddr	Asesu	Cam Gweithredu
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
42	Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad: 1) Port Talbot; 2) Castell-nedd; 3) Pontardawe; 4) Castell-nedd a Chwm Dulais; 5) Abertawe a Dyffryn Aman; 6) Cwm Afan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
43	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
44	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

**Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.**

Tabl 6.2.2 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy (Gweler hefyd Bolisiau SP2, AH1)	
Dangosydd Craidd	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
Targed y Polisi	Cyflawni <b>1,200</b> o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026.  Targedau Blynyddol:  2011/12 - 7  2012/13 - 5  2013/14 - 22  2014/15 - 37  2015/16 - 72  2016/17 - 90  2017/18 - 115  2018/19 - 130

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy (Gweler hefyd Bolisïau SP2, AH1)	
	2019/20 - 124 2020/21 - 120 2021/22 - 111 2022/23 - 102 2023/24 - 90 2024/25 - 89 2025/26 - 86
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.2.1** Mae'r fframwaith monitro yn darparu targedau blynyddol ar gyfer cyflenwi unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio. Hyd yma, mae nifer y tai fforddiadwy a ddarparwyd wedi bod yn sylweddol is na'r targedau a bennwyd o fewn y fframwaith, fel y dangoswyd yn y tabl canlynol:

Tabl 6.2.3 Tai Fforddiadwy a Gwblhawyd fesul Blwyddyn

Blwyddyn	Targedau Blynyddol	Yr Union Unedau Tai Fforddiadwy a Gyflenwyd	Targed Cronol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronol yn erbyn y Targed
2011/12	7	11	7	11	4
2012/13	5	0	12	11	-1
2013/14	22	0	34	11	-23
2014/15	37	23	71	34	-37
2015/16	72	8	143	42	-101
2016/17	90	0	233	42	-191

**6.2.2** Ers dyddiad sylfaen y CDLI, mae 42 o unedau tai fforddiadwy wedi cael eu cyflenwi trwy'r system gynllunio. Er bod cyflwyno unrhyw nifer o dai fforddiadwy yn gadarnhaol a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol ac yn helpu i gyflawni'r angen

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

am dai fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r gyfradd gyflawni yn is na'r targedau a bennwyd o fewn y fframwaith monitro. Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, mae'r cyflenwi cronol yn erbyn y targed yn -191 o unedau tai fforddiadwy.

**6.2.3** Y prif reswm pam mae'r lefel gyflenwi yn debygol o fod wedi syrthio'n is na'r targed yw bod lefelau cyflenwi tai wedi syrthio o dan y targed, ac nid yw rhai o'r safleoedd yn y portffolio H1 wedi dod trwy'r system gynllunio mor gyflym ag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Wedi dweud hynny, mae nifer o gytundebau Adran 106 i gyflenwi tai fforddiadwy wedi cael eu llofnodi hyd yma, a disgwylir felly y bydd y gyfradd gyflenwi yn cynyddu. Ymhellach, derbyniwyd arian ar ffurf symiau a gymudwyd oddi mewn i'r cyfnod monitro presennol, sy'n cyfateb i £276,120.

**6.2.4** Gan mai'r cyfnod monitro hwn yw'r flwyddyn gyntaf ers mabwysiadu'r CDLI, ni chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno o 2 flynedd olynol eto. Bydd y tai fforddiadwy a gyflenwir, a chynnydd y cytundebau Adran 106 a lofnodwyd, yn cael ei fonitro'n fanwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 42: Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad.

Tabl 6.2.4 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy	
Dangosydd Lleol	Changes in the residual values across the the 6 sub-market areas:  Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad:  1. Port Talbot 2. Castell-nedd 3. Pontardawe 4. Cymoedd Nedd a Dulais 5. Cwm Tawe a Dyffryn Aman 6. Cwm Afan
Targed y Polisi	Cyflawni'r lefel uchaf o dai fforddiadwy y bernir ei bod yn ddichonadwy.
Pwynt Sbarduno	Cynnydd neu ostyngiad o 5% yng ngwerth gweddilliol unrhyw ardal dai is-farchnad mewn un flwyddyn
Perfformiadf	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.2.5** Bu'r Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy (2012) yn asesu dichonoldeb economaidd safleoedd datblygu preswyl preifat, yn arbennig, i ba raddau gallai datblygwyr preifat gyfrannu at ddarparu unedau tai fforddiadwy ym mhob is-barth. Llywiodd canfyddiadau'r adroddiad hwn y targedau tai fforddiadwy a geir ym Mholisi AH1.

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

**6.2.6** Diben y dangosydd hwn yw monitro newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol a phenderfynu a yw'r newidiadau hynny'n ddigon arwyddocaol i gael effaith ar y targedau sy'n rhan o Bolisi AH1. Er enghraifft, os bydd newid yn y gwerth gweddilliol yn fwy na 5%, gallai hynny fod yn arwydd bod cynlluniau wedi dod yn fwy dichonadwy, ac felly, yn gallu cynnal nifer uwch o unedau tai fforddiadwy. Fel arall, os yw'r gostyngiad yn fwy na 5%, gallai hynny fod yn arwydd bod cynlluniau wedi dod yn llai dichonadwy, a bod y targedau tai fforddiadwy yn y CDLI yn rhy uchel.

**6.2.7** Mae'r asesiad yn defnyddio 31 Mawrth 2016 (blwyddyn mabwysiadu'r CDLI) yn ddyddiad meincnod, ac yn asesu unrhyw newidiadau i'r gwerthoedd meincnod gweddilliol hyn ar 31 Mawrth 2017. Fel rhan o'i asesiad, bu'r Cyngor yn ystyried Mynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Dir, Canllaw Ardal Zoopla, a'i gronfa ddata ei hun o eiddo newydd eu hadeiladu. Er y gall asesu data ynghylch prisiau tai ail-law fod yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer perfformiad y farchnad ym mhob is-barth, mae'r Cyngor wedi rhoi'r pwys mwyaf ar ddata prisiau tai newydd yn achos yr ymarferiad hwn.

**6.2.8** Mae'r Cyngor wedi defnyddio data prisiau tai newydd (a gafwyd o'r Gofrestrfa Dir) ynghyd ag ymchwil pellach i fath a maint unedau a nifer yr ystafelloedd gwely, i sicrhau cost gywir fesul metr sgwâr ar gyfer datblygiadau sy'n adeiladau newydd. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, cafwyd, er bod cynnydd bychan cyffredinol yng nghyfanswm gwerth y gwerthiannau rhwng 2016 a 2017, gwrthweithiwyd hynny i raddau helaeth gan gynydd yn y costau adeiladu yn ystod yr un cyfnod. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Tabl 6.2.5 Newid yn y Gwerth Gweddilliol fesul Ardal Is-Farchnad

Ardal	Newid Gweddilliol
Castell-nedd	-1.97%
Port Talbot	-4.26%
Pontardawe	-3.51%
Cymoedd Nedd a Dulais	-4.03%
Cwm Tawe a Dyffryn Aman	-7.73%
Cwm Afan	-10.86%

**6.2.9** Dengys y canlyniadau ostyngiad yn y gwerth gweddilliol ar draws pob ardal yn ystod y cyfnod profi. Mae gostyngiad o lai na 5% yn ardaloedd Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe (h.y. yr ardaloedd sydd â tharged tai fforddiadwy ym Mholisi AH1), felly nid oes angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.

**6.2.10** Mae gan ardaloedd y Cymoedd (ac eithrio Pontardawe) darged tai fforddiadwy o 0% ym Mholisi AH1. Wrth ddiweddarau'r profion, cafwyd bod yr ardaloedd hyn yn dal i fethu cynnal tai fforddiadwy, ac er bod rhai parthau yn dangos newid negyddol o fwy na 5%, nid yw hynny'n cael unrhyw effaith ar y gyfradd darged bresennol ar gyfer tai fforddiadwy.



## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

### Dangosydd 43: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.

Tabl 6.2.6 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy (Polisiau SP2, AH2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.
Targed y Polisi	Cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.
Pwynt Sbarduno	Ni chaniateir cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriad o ran tai fforddiadwy am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.2.11** Ers mabwysiadu'r CDLI, ni chyflwynwyd ceisiadau am safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy. Awgrymir mai un o'r rhesymau posibl am hyn yw bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) sy'n gweithredu yn yr ardal wedi bod yn datblygu nifer o safleoedd o dan y Grant Tai Cymdeithasol a chyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Unwaith bydd datblygiadau o'r fath wedi'u cwblhau o dan eu rhaglen ddatblygu gyfredol, mae'n bosibl y byddant yn ceisio tir ychwanegol i'w ddatblygu, a gallai'r polisi eithriadau gael ei ddefnyddio. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 44: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy.

Tabl 6.2.7 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.2.12** Paratowyd y CCA Tai Fforddiadwy yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn ystod haf 2016, ac yn unol â'r targed monitro hwn, mabwysiadwyd y canllaw gan y Cyngor ym mis Hydref 2016.

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

### 6.3 Polisi Strategol 9 - Sipsiwn a Theithwyr

Tabl 6.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
45	Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw, nifer y cynigion ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol, nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol, a'r angen am ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol, fel y nodwyd mewn GTAA	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 45: Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw; Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol; nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol; a'r angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA).**

Tabl 6.3.2 Polisi Strategol SP9 - Sipsiwn a Theithwyr

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (gweler hefyd Bolisiau SP2, GT1, GT2)	
Dangosyddion Lleol	Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw.  Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol.  Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol.  Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA.
Targedau'r Polisi	Darperir 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017.  Darperir 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022.  Darperir 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026.
Pwyntiau Sbarduno	Methiant i ddarparu'r 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017.  Methiant i ddarparu'r 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022.  Methiant i ddarparu'r 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.3.1** Nododd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2012<sup>(18)</sup> fod angen 4 llain erbyn 2017, 7 llain erbyn 2022 a 9 llain erbyn 2026.

**6.3.2** Ar y cychwyn, roedd y Cyngor yn bwriadu datblygu safle Cae Garw, Margam, fesul 3 chyfnod, er mwyn cyflawni'r targedau tymor byr, canolig a hir a nodwyd yn GTAA 2012. Oherwydd bod angen cymaint o waith paratoi ar gyfer y safle, fodd bynnag, a chan ystyried cost-ffeithiolrwydd a chyflawni effeithlon, gwnaeth y Cyngor y penderfyniad i roi 11 llain ar waith yn y tymor byr, er mwyn diwallu'r angen oedd yn ofynnol hyd at 2022.

**6.3.3** Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr 11 llain yn gynnar yn 2015, a phryd hynny gwnaeth y Cyngor gais am gyllid o Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer yr estyniad, a hynny'n llwyddiannus. Wedi hynny, cwblhawyd yr estyniad (11 o leiniau) yng ngwanwyn 2016, yn unol â thelerau'r grant.

**6.3.4** O fewn y cyfnod monitro, cyflwynodd y Cyngor Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 a derbyn cymeradwyaeth Gweinidogol ar ei gyfer, yr asesiad cyntaf o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Daeth yr asesiad diweddaraf hwn i'r casgliad bod yr 11 llain a roddwyd ar waith gan y Cyngor yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021. Ar gyfer gweddill cyfnod y CDLI (h.y. hyd at 2026), nododd yr asesiad fod angen 4 llain ychwanegol, sy'n is na'r 9 llain a ragwelwyd yn wreiddiol yn GTAA 2012. Mae angen GTAA pellach erbyn 2021, a bydd hynny'n asesu'r angen tymor hwy yn fwy cywir.

**6.3.5** Ni chaniatawyd safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr o fewn y cyfnod monitro, ac nid adroddwyd am wersylloedd heb eu hawdurdodi. Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd monitro'n parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

### 6.4 Polisi Strategol 10 - Mannau Agored

Tabl 6.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
48	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

**Dangosydd 46: Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr.**

Tabl 6.4.2 Polisi SP10 - Mannau Agored

Datblygiadau Newydd a Darparu Mannau Agored (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, OS1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr.
Targed y Polisi	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored.
Pwynt Sbarduno	Un cais am ddatblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy, cyhyd ag nad yw'n darparu ar gyfer man agored pan fo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth o ran mannau agored.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.4.1** Cymeradwywyd cyfanswm o 14 o geisiadau yn ystod y cyfnod monitro, heb fod angen darparu gofynion mannau agored (neu swm a gymudwyd ar gyfer ddarpariaeth oddi ar y safle), er bod y cynigion wedi cyrraedd y trothwy a nodwyd ym Mholisi OS1.

**6.4.2** Cyfeiriodd mwyafrif y cyfanswm hwn (9) at ddichonolrwydd fel rheswm pam nad oedd ddarpariaeth neu gyfraniad ariannol A106 wedi bod yn bosibl. Er bod y diffyg dichonoldeb yn anffodus, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau pan na ellir cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodwyd heb beryglu dichonoldeb cyffredinol cynllun datblygu penodol. Aseswyd pob un o'r achosion unigol hyn ac yn y pen draw roedd y Cyngor wedi'i fodloni bod y datblygwr wedi gallu darparu tystiolaeth nad oedd y gofyniad i ddarparu man agored yn ddichonadwy.

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

**6.4.3** O'r 5 achos oedd yn weddill, ac o ran y cyfiawnhad a nodwyd yn adroddiad y swyddogion, barnwyd bod un cais yn rhy bell o'r ddarpariaeth man agored agosaf i wario cyfraniadau A106 yno'n rhesymol; roedd un cais yn ymwneud ag adnewyddu caniatâd lle bernid ei fod yn afresymol gofyn am ddarpariaeth gan na ofynnwyd am hynny wrth geisio caniatâd ddiwethaf yn 2013; roedd un cais yn barnu y dylai gwelliannau i'r parth cyhoeddus orbwysu'r gofyniad am ddarpariaeth mannau agored; barnodd un cais oedd yn ymwneud â chaniatâd amlinellol blaenorol oedd yn bodoli ei bod bellach yn afresymol gwneud cais am gyfraniadau A106; ac yn olaf roedd un cais yn ystyried ei bod hi'n afresymol ceisio darpariaeth lle cyfeiriwyd at gostau cynyddol datblygu'r cynllun a darparu gwelliannau i'r parth cyhoeddus ar dir cyfagos (a ddarparwyd trwy gais arall).

**6.4.4** Er gwaethaf yr achosion hyn o gyfiawnhau, ni chyflawnwyd gofynion y polisi yn yr achosion hyn, ac felly roedd pob un o'r 5 cais a gymeradwywyd yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. Nid yw'r polisi'n cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd, felly, ar hyn o bryd, a bernir bod modd ymdrin â'r mater hwn trwy drafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu.

**6.4.5** Ymhellach, rhagwelir y bydd y CCA Mannau Agored a Mannau Glas yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 (gweler Dangosydd 48 isod) a bydd y ddogfen hon yn darparu canllawiau manylach ynghylch gweithredu'r polisi.

**Dangosydd 47: Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi.**

Tabl 6.4.3 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored

Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli (Gweler hefyd Bolisiau SP2, OS2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais oedd yn arwain at golli man agored yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.4.6** Ers dyddiad mabwysiadu'r Cynllun cymeradwywyd 2 gais sydd wedi arwain at golli darpariaeth mannau agored a nodwyd yn yr Asesiad Mannau Agored. Yn y ddau achos, manylir ar golli'r man agored yn adroddiad y swyddog, a nodir y rhesymau pam y bernir bod y datblygiad yn dderbyniol.

## 6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

**6.4.7** Roedd y cais cyntaf yn ymwneud â datblygu'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot (Polisi TR1/6), oedd yn arwain at golli ardal fechan o fan agored anffurfiol lle roedd glaswellt/planhigion a meinciau. Serch hynny, mae'r datblygiad yn cynnwys gwaith sylweddol yn y parth cyhoeddus, gan agor ardal eang lle gall pobl eistedd mewn ardal fodern, addas at y diben, sydd wedi'i dirlunio'n agored ag arwyneb caled yn bennaf, y tu allan i'r canolbwynt trafndiaeth.

**6.4.8** Roedd yr ail gais yn ymwneud â cholli ardal fechan o le chwarae arwyneb caled ar Lan y Môr yn Aberafan er mwyn datblygu cyfleuster golff antur. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth bresennol o ansawdd gwael a gwerth cyfyngedig o ran chwarae, felly er bod natur y ddarpariaeth wedi newid, bernir bod y cyfleuster golff yn cynnig mwy o gyfleoedd adloniadol.

**6.4.9** O ran y sbardun monitro felly, er bod dau gyfleuster wedi'u colli, darparwyd cyfleusterau eraill fel rhan o'r datblygiad. Ymhellach, rhagwelir y bydd y CCA Mannau Agored a Mannau Glas yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 (gweler Dangosydd 48 isod) a bydd y ddogfen hon yn darparu canllawiau manylach ynghylch gweithredu'r polisi.

**6.4.10** Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y cynllun yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 48: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas.

Tabl 6.4.4 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored

Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli (Gweler hefyd Bolisi OS2)	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**6.4.11** Paratowyd y CCA Mannau Agored a Mannau Glas erbyn diwedd Ebrill 2017 ac wedyn fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 10 Mai a 21 Mehefin. Rhagwelir y bydd y CCA terfynol yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

## 7 Hybu Economi Gynaliadwy

### 7.1 Polisi Strategol 11 - Twf Cyflogaeth

Tabl 7.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
49	Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT, lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
50	Tir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
51	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
52	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
53	Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
54	Cyfradd diweithdra CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
55	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach
56	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT, lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.**

Tabl 7.1.2 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth	
(Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Dangosyddion Lleol	<p><u>Dangosydd Lleol:</u></p> <p>Lefel cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot.</p> <p><u>Dangosydd Cyd-destunol:</u></p>



## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
	<p>Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig.</p> <p>Lefel a chyfraddau cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot.</p> <p>Lefel a chyfraddau cyflogaeth ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig.</p>
Targedau'r Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026.</p> <p><u>Targedau Interim:</u></p> <p>2011/14: - 1458</p> <p>2014/17: +1326</p> <p>2017/20: +1326</p> <p>2020/23: +1326</p> <p>2023/26: +1326</p> <p><u>Targed Blynyddol:</u></p> <p>Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</p>
Pwynt Sbarduno	Mae lefel twf swyddi yn amrywio o'r targed cronol o 884 o swyddi dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.1** Mae'r CDLI wedi'i seilio ar strategaeth twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir, a nifer y cartrefi newydd y bydd angen amdanynt. Mae'r dull gweithredu'n sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth wedi'u halinio a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

**7.1.2** Mae'r model twf economaidd yn rhagweld y bydd 3,850 o swyddi yn cael eu creu yn ystod cyfnod y Cynllun, gyda thwf poblogaeth yr ardal yn deillio o gymhareb y boblogaeth oedran gwaith â'r boblogaeth gyfan. O ystyried bod twf economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi peidio i bob pwrpas cyn dyddiad sylfaen y CDLI, roedd y strategaeth economaidd ei phwyslais yn gyfle i ymdrin â materion economaidd allweddol yn y

Fwrdeistref Sirol, gan gydnabod y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer twf trwy brosiectau adfywio a seilwaith allweddol. Mae cyflogaeth yn y gweithle, a nifer y swyddi a greir, felly yn un o'r dangosyddion allweddol a fydd yn pennu sut mae'r CDLI yn perfformio, a bydd yn dylanwadu ar elfennau eraill o'r Cynllun.

**7.1.3** Mae'r model twf economaidd yn rhagfynegi cynnydd o 3,850 o swyddi yn ystod cyfnod y CDLI, yn codi o 48,200 o swyddi yn 2011 i 52,050 o swyddi yn 2026. Yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y CDLI, rhyddhawyd data newydd oedd yn dangos bod cyflogaeth yn y gweithle mewn gwirionedd wedi gostwng o 48,200 yn 2011 i 46,300 yn 2013, oedd o ganlyniad yn golygu, er mwyn i'r CDLI gyrraedd y targed o 52,050 o swyddi yn 2026, fod y targed blynyddol ar gyfer creu swyddi wedi codi o 256 o swyddi'r flwyddyn i 442 o swyddi'r flwyddyn, ac felly y byddai gofyn i'r cynllun greu swyddi'n gyflymach yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill. Roedd y targedau interim yn y fframwaith monitro yn adlewyrchu'r gostyngiad o ran cyflogaeth yn y gweithle rhwng 2011 a 2013, ac yn cynnwys y gofyniad diwygiedig, sef 442 o swyddi'r flwyddyn.

**7.1.4** Ar ôl mabwysiadu'r CDLI, roedd y datganiad ystadegol nesaf yn diwygio'r ffigurau ar gyfer 2011 i 2013, gan nodi safle uwch o ran y dyddiad sylfaen yn 2011, a gostyngiad mwy drastig yn 2013. Dangosodd y data a ryddhawyd ar gyfer 2014 gynnydd amlwg mewn swyddi, oedd yn gwneud yn iawn am y gostyngiad sydyn yn 2013, ac yn dangos bod yr ardal o bosibl wedi datblygu sylfaen economaidd gadarnach, sydd â'r gallu i adennill tir, fel y dangosir isod:

Tabl 7.1.3 Cyflogaeth Gwreiddiol a Diwygiedig yn y Gweithle

	2011	2012	2013	2014
<b>Sefyllfa Wreiddiol</b>	48,200	49,100	46,300	-
<b>Sefyllfa Ddiwygiedig</b>	49,400	50,200	47,100	50,600

**7.1.5** O ganlyniad i'r data diweddarach a ryddhawyd, mae'r targedau interim yn y fframwaith monitro bellach, i bob pwrpas, wedi dyddio; dangosodd y targed interim ar gyfer 2011-2014 ostyngiad o -1,458 o swyddi mewn perthynas â'r ffigur gwaelodlin, ond mewn gwirionedd cafwyd cynnydd o 1,200 o swyddi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ffigurau a ddiweddarwyd, a'r cynnydd mewn swyddi yn ystod y cyfnod o 2011-2014, bellach wedi newid y swyddi blynyddol sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed o 3,850 o swyddi yn ystod cyfnod y Cynllun.

**7.1.6** Gan fod y dangosydd hwn a nifer y swyddi a grewyd yn un o elfennau hanfodol strategaeth y CDLI, wrth fonitro'r dangosydd, bernir ei bod yn bwysig edrych ar y data diweddaraf a monitro'r swyddi a grewyd yn erbyn targed cyffredinol y CDLI, sef 3,850 o swyddi. Gan fod 1,200 o swyddi wedi'u creu mewn gwirionedd yn ystod cyfnod 2011-2014, i gyrraedd y targed terfynol o 3,850 o swyddi, bydd angen llai o swyddi yn ystod gweddill cyfnod y CDLI i gyflawni dyheadau'r CDLI. Mae'r tabl canlynol yn darlunio'r targedau a geir yn y fframwaith monitro a'r targedau 'diwygiedig' (gan ddefnyddio'r ffigur dyddiad sylfaen diwygiedig, uwch, sef 49,400):

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Tabl 7.1.4 Fframwaith Monitro a Thargedau Diwygiedig

	Fframwaith Monitro	Sefyllfa Ddiwygiedig
Swyddi yn 2011	49,400	49,400
2011-14	47,942 (-1458)	50,600 (+1,200)
2014-17	49,268 (+1326)	51,262 (+662)
2017-20	50,594 (+1326)	51,924 (+662)
2020-23	51,920 (+1326)	52,586 (+662)
2023-26	53,246 (+1326)	53,248 (+662)
<b>Swyddi yn 2026</b>	<b>53,250</b>	<b>53,250</b>
<b>Cyfanswm y Newid yn ystod y Cyfnod</b>	<b>+3,848</b>	<b>+3,846</b>

**7.1.7** Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd mewn swyddi ers dyddiad sylfaen y CDLI:

Tabl 7.1.5 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot

	2011	2012	2013	2014	2015
Castell-nedd Port Talbot	49,400	50,200	47,100	50,500	50,800

**7.1.8** Ers dyddiad sylfaen y CDLI, crewyd 1,400 o swyddi yn y Fwrdeistref Sirol. Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, y targed interim sy'n cwmpasu'r cyfnod hwn (2014-17) yw +1326, gan ddefnyddio'r targedau a geir yn y fframwaith monitro, neu +662, gan ddefnyddio'r sefyllfa ddiwygiedig. Er bod cyflogaeth yn y gweithle wedi gostwng yn 2013 i 47,100, cododd i 50,800 yn 2015, gan greu cyfanswm o 3,700 o swyddi, gyda rhyw hanner o'r targed gofynnol (300) yn cael ei greu yn 2 flynedd gyntaf y cyfnod interim cyfredol (2014-17). Mae hyn yn arwydd o amgylchedd economaidd cadarnhaol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, ac yn dangos rhagolygon economaidd mwy llewyrchus ar gyfer yr ardal.

### Dangosyddion Cyd-destunol

**7.1.9** Mae gan y dangosydd hwn hefyd nifer o ddangosyddion cyd-destunol i'w monitro. Yn gyntaf, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau ers dyddiad sylfaen y CDLI:

Tabl 7.1.6 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

	2011	2012	2013	2014	2015
Cymru	1,346,700	1,337,200	1,365,200	1,394,400	1,405,600
Y Deyrnas Unedig	30,137,000	30,382,100	30,824,600	31,463,800	32,158,200

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

**7.1.10** Dengys y data, ers dyddiad sylfaen y CDLI, fod cynnydd o 58,900 o swyddi wedi digwydd yng Nghymru, sy'n cynrychioli cynnydd o 4.37%. Roedd y cynnydd yn y Deyrnas Unedig yn 2,021,200, sy'n cyfateb i gynnydd o 6.71%. O ran canran, er bod cyfradd y cynnydd yn ystod y cyfnod yn is yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef 2.83%, mae'n dal i ddangos rhagolygon cadarnhaol ac yn darparu arwydd cychwynnol bod dyhead y CDLI i greu 3,850 o swyddi yn ystod cyfnod y Cynllun yn realistig ac yn gyflawnadwy.

**7.1.11** Mae'r dangosyddion cyd-destunol sy'n weddill yn canolbwyntio ar gyfradd cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau o ran cyfraddau cyflogaeth rhwng 2011 a 2017:

Tabl 7.1.7 Cyfradd Cyflogaeth 2011-2017


Blwyddyn yn Diwedd	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2011	63.4%	66.4%	70.6%
31 Mawrth 2012	60.4%	66.7%	70.7%
31 Mawrth 2013	65.1%	67.6%	71.3%
31 Mawrth 2014	67.3%	69.5%	72.6%
31 Mawrth 2015	67%	69.3%	73.6%
31 Mawrth 2016	66.7%	71.1%	74.4%
31 Mawrth 2017	70.7%	71.4%	75.1%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**7.1.12** Mae cyfradd cyflogaeth wedi codi ar draws pob un o'r ardaloedd, a gwelwyd y cynnydd mwyaf yn ystod y cyfnod yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef codiad o 7.3% yn ystod y cyfnod, o'i gymharu â +5% yng Nghymru a +4.5% yn y Deyrnas Unedig. Dengys y graff sy'n dilyn y newidiadau a chyfradd y cynnydd yng Nghastell-nedd Port Talbot, a sut mae'r bwll rhwng cyfradd cyflogaeth Castell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig yn cau:

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Ffigur 7.1 Cyfradd Cyflogaeth 2011-2017



**Dangosydd 50: Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.**

Tabl 7.1.8 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisiau SP2 EC1/1, EC1/2, EC1/3, EC1/4)	
Dangosydd Craidd	Tir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.
Targedau'r Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Datblygu isafswm o 32 hectar o dir ar y safleoedd canlynol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth hyd at 2026:</p> <p>Bae Baglan: 15ha</p> <p>Cyffordd 38: 6ha</p> <p>AAS Coed Darcy: 4ha</p> <p>AAS Glannau'r Harbwr: 7ha</p> <p><u>Targedau Interim:</u></p> <p>2011/14: 1.7ha (gwirioneddol)</p>

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisiâu SP2 EC1/1, EC1/2, EC1/3, EC1/4)	
	2014/17: 7.6ha 2017/20: 7.6ha 2020/23: 7.6ha 2023/26: 7.6ha <u>Targedau Blynyddol:</u> Datblygu cyfartaledd o 2.5 hectar o dir at ddibenion cyflogaeth y flwyddyn, dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 5 hectar i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronol o 5 hectar sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	(Cell empty)
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.13** Mae'r fframwaith monitro yn pennu targed blynyddol o 2.5 hectar (ha) y flwyddyn, a nod y targedau interim yw datblygu 7.6ha dros bob cyfnod o 3 blynedd. Yng nghyfnod interim cyntaf y CDLI (2011-2014), datblygwyd 1.7ha, sef y cyfleuster Ymchwil a Datblygu TWI yng Nglannau'r Harbwr.

**7.1.14** Oddi mewn i'r cyfnod monitro presennol, ni fu datblygiad at ddibenion cyflogaeth yng Nghoed Darcy, Cyffordd 38 (yr M4) na Bae Baglan. Datblygwyd un cais yng Nglannau'r Harbwr, sy'n cyfateb i 0.098ha, er mwyn cadw lle storio a dosbarthu sydd eisoes yn bodoli. Mae datblygiad wedi digwydd ym Mae Baglan, ond roedd hynny at ddefnydd heblaw dosbarth B (gweler Dangosydd 51 isod).

**7.1.15** Er bod y datblygiad ar gyfer defnyddiau cyflogaeth wedi bod yn gyfyngedig, gwelwyd cynnydd ar safleoedd Glannau'r Harbwr a Bae Baglan. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yng Nglannau'r Harbwr ar gyfer lle swyddfa B1 (1.37ha) ac estyniad i ddatblygiad TWI (0.33ha). Bydd datblygiad yr holl ardaloedd cyflogaeth a ddyrannwyd, gan gynnwys safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

### Dangosydd 51:Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan.

Tabl 7.1.9 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan.
Targedau'r Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Datblygu isafswm o <b>15ha</b> o dir ar Fae Baglan at ddibenion cyflogaeth</p> <p><u>Targedau Interim:</u></p> <p>2011/14: 0</p> <p>2014/17: 2.7ha</p> <p>2017/20: 4.1ha</p> <p>2020/23: 4.1ha</p> <p>2023/26: 4.1ha</p> <p><u>Targedau Blynyddol:</u></p> <p>Datblygu cyfartaledd o 1.35ha o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth, gyda tharged cronol o 2.7ha o dir i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</p>
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan yn amrywio o'r targed cronol o 2.7ha sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.16** Y targed ar gyfer swm y datblygiad ym Mae Baglan yn ystod y cyfnod 2014-2017 yw 2.7 hectar (ha). Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ni fu datblygiad at ddefnyddiau cyflogaeth ym Mae Baglan.

**7.1.17** Bu datblygiad o 3.3ha ar gyfer Parc Solar Ffotofoltaig, ond mae hwn yn ddefnydd 'sui-generis', yn hytrach na defnydd cyflogaeth. Oddi mewn i'r dyraniad EC1, dyrannwyd tir ychwanegol i gynnal anghenion y sector ynni cynyddol, ac yn hyn o beth mae'r datblygiad hwn yn gadarnhaol yng nghyd-destun ailddatblygu cyffredinol Bae Baglan. Mae cais hefyd wedi'i gyflwyno (heb ei benderfynu eto) ar gyfer parc solar ychwanegol yn y dyraniad.

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

**7.1.18** Er na fu datblygiad at ddefnyddiau cyflogaeth, mae ailddatblygu Bae Baglan yn uchelgais ailddatblygu tymor hir, y gallai gymryd sawl blwyddyn i'w gwblhau, gan y gallai rhai ardaloedd o fewn y dyraniad fod yn addas i hwyluso'r twf yn yr economi wybodaeth. Yn sgîl y cynnydd mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu mewn unedau llai ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ac yng Nglannau'r Harbwr, gallai fod angen unedau mwy wrth i'r safleoedd hyn barhau i ddatblygu, ac felly mae Bae Baglan yn darparu lle a seilwaith digonol iddynt ehangu.

**7.1.19** Oddi mewn i'r cyfnod monitro, mae'r ardal wedi cael statws parth menter, fydd yn annog buddsoddiad yn yr ardal. Ar ben hynny, mabwysiadwyd CCA Bae Baglan oddi mewn i'r cyfnod monitro, a bydd yn darparu eglurder ac arweiniad pellach ynghylch datblygiadau yn y dyfodol (gweler Dangosydd 55 isod).

### Dangosydd 52:Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr.

Tabl 7.1.10 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisïau SP2, EC1)	
Dangosydd Lleol	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr.
Targedau'r Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026.</p> <p><u>Targedau Interim:</u></p> <p>2011/14: 7,000 msg</p> <p>2014/17: 7,000 msg</p> <p>2017/20: 7,000 msg</p> <p>2020/23: 7,000 msg</p> <p>2023/26: 7,000 msg</p> <p><u>Targedau Blynyddol:</u></p> <p>Datblygu cyfartaledd o 2,250 m.sg. o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cronol o 4,500 m.sg. i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</p>
Pwynt Sbarduno	Mae swm yr arwynebedd llawr a ddatblygwyd at ddiibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronol, sef 4,500 m.sg. i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	



## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth

(Gweler hefyd Bolisiau SP2, EC1)

Cam Gweithredu

Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.20** Mae'r fframwaith monitro yn pennu targed o ddatblygu 2,250 m.sg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cyffredinol o 7,000 m.sg. fesul cyfnod interim.

**7.1.21** Mae'r tabl canlynol yn dangos y colledion a'r enillion o ran arwynebedd llawr cyflogaeth ers dyddiad sylfaen y CDLI, ac yn darparu'r cynnydd net cyffredinol o ran arwynebedd llawr cyflogaeth fesul cyfnod interim<sup>(19)</sup>:

Tabl 7.1.11 Newidiadau yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth fesul Cyfnod Interim

Cyfnod Interim	Cynnydd o ran Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG)	Colli Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG)	Cynnydd Net yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG)
2011/14	17,427.5	15,084	2,343.5
2014/17	13,884.16	10,023	3,861.16

**7.1.22** Dengys y tabl fod y newid net o ran arwynebedd llawr cyflogaeth wedi bod yn is na'r targed o 7,000 msg yng nghyfnodau 2011-2014 a 2014-17. Cafodd nifer o unedau diwydiannol hŷn, graddfa fawr eu dymchwel yn ystod y ddau gyfnod interim, ac mae hynny wedi cynyddu nifer y colledion. Er i'r rhain fod yn golledion i'r portffolio cyflogaeth, nid oedd nifer ohonynt bellach yn addas at y diben, ac nid yw'r colledion, felly, wedi cael effaith negyddol ar argaeledd cyffredinol safleoedd cyflogaeth.

**7.1.23** Er bod lefel yr arwynebedd llawr newydd ar gyfer cyflogaeth wedi syrthio'n is na'r targed, mae dangosyddion cyflogaeth eraill yn yr AMB yn dangos bod proffil economaidd Castell-nedd Port Talbot wedi gwella'n sylweddol ers dyddiad sylfaen y CDLI, gan fod y gyfradd cyflogaeth wedi codi o 63.4% yn 2011 i 70.7% yn 2017. Dengys hyn na fu angen swm yr arwynebedd llawr y rhagwelwyd yn wreiddiol fyddai'n ofynnol i gynnal swyddi newydd, gan fod y cynnydd mewn cyflogaeth wedi digwydd gydag arwynebedd llawr is na'r disgwyl. Mae swm yr arwynebedd llawr yn un o is-elfennau perfformiad economaidd cyffredinol yr ardal, ac fel y dengys Dangosyddion 53 a 54 isod, mae cyfradd gweithgaredd economaidd wedi codi a chyfradd diweithdra wedi gostwng, gan adlewyrchu newid cadarnhaol.

19 Dim ond cynnydd neu golled o fwy na 200msg sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau. Rhagdybir y bydd cynnydd neu golled llai, o dan 200msg, yn gwneud iawn am ei gilydd yn gyffredinol yn ystod y cyfnod.

### Dangosydd 53: Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Tabl 7.1.12 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Dangosyddion	<p><u>Dangosydd Lleol:</u></p> <p>Cyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot.</p> <p><u>Dangosydd Cyd-destunol:</u></p> <p>Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.</p>
Targed y Polisi	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026.
Pwynt Sbarduno	Mae cyfradd gweithgaredd economaidd yn dirywio am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.24** Adeg dyddiad sylfaen y CDLI, roedd cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 69%, ac roedd hynny 4% yn is na chyfartaledd Cymru, sef 73%. Un o amcanion y CDLI yw cynyddu cyfradd gweithgaredd economaidd i 76% erbyn 2026, ac alinio hynny â chyfartaledd Cymru.

**7.1.25** Yn y flwyddyn gyntaf ers dyddiad sylfaen y CDLI (diwedd Mawrth 2012), roedd cyfradd gweithgaredd economaidd wedi gostwng i 67.9%. Yna cododd y gyfradd y flwyddyn ganlynol, ac er ei bod wedi codi a gostwng tipyn ers hynny, mae wedi parhau uwchben ffigur cychwynnol y dyddiad sylfaen, sef 69%. Ers y dyddiad sylfaen, bu cynnydd yn y gyfradd gweithgaredd economaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig, fel y dengys y tabl isod:

Tabl 7.1.13 Gweithgaredd Economaidd 2011-2017

Blwyddyn yn Diwedd	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2011 (Dyddiad Sylfaen)	69.7%	72.7%	76.5%
31 Mawrth 2012	67.9%	73%	76.9%
31 Mawrth 2013	70.4%	73.9%	77.4%

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy


Blwyddyn yn Diwedd	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2014	74.3%	75.3%	77.9%
31 Mawrth 2015	71.1%	74.4%	77.8%
31 Mawrth 2016	71.8%	75.3%	78.2%
31 Mawrth 2017	74.9%	74.8%	78.5%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynnyddol/Arolwg y Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**7.1.26** Er bod cyfradd gweithgaredd wedi codi yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig, mae cyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot wedi codi ar gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig. O'r flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2011 hyd at y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2017, mae'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a chyfartaledd Cymru wedi gostwng. Yn 2011 roedd Castell-nedd Port Talbot 3% o dan gyfartaledd Cymru, ac mae bellach 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru erbyn diwedd Mawrth 2017. O gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, mae'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a'r Deyrnas Unedig wedi lleihau o 6.8% yn 2011 i 3.6% yn 2017. Mae'r tueddiadau hyn yn newid calonogol yn y cyd-destun economaidd lleol, gan ddangos bod amgylchedd economaidd yr ardal yn gwella, a bod y CDLI yn cyflawni'r amcanion a bennwyd.

**7.1.27** Dengys y graff canlynol gyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod 2011-2017, ac mae'n dangos sut mae'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a'r Deyrnas Unedig wedi gostwng i fan lle mae Castell-nedd Port Talbot bellach yn cyfateb i gyfartaledd Cymru.

Ffigur 7.2 Gweithgaredd Economaidd 2011-2017



## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

**7.1.28** Yn fwy penodol, yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae cyfradd gweithgaredd economaidd wedi codi'n gyson, tra bod cyfartaledd Cymru wedi gostwng rhywfaint. Mae'r ffaith bod y gyfradd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi parhau i godi, tra bod cyfartaledd Cymru wedi gostwng rhywfaint, yn arwydd pellach bod proffil economaidd Castell-nedd Port Talbot wedi cryfhau ers dyddiad sylfaen y CDLI, a bod y CDLI yn perfformio'n dda.

Tabl 7.1.14 Cyfradd Gweithgaredd Economaidd 2016-2017

Cyfnod yn Diweddu	Castell-nedd Port Talbot	Cyfartaledd Cymru
31 Mawrth 2016	71.8%	75.3%
30 Mehefin 2016	71.3%	75.2%
30 Medi 2016	72%	74.8%
31 Rhagfyr 2016	72.9%	74.8%
31 Mawrth 2017	74.9%	74.8%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg o'r Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Dangosydd 54: Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unediga chyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Tabl 7.1.15 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Dangosyddion	<p><u>Dangosydd Lleol:</u></p> <p>Cyfradd diweithdra Castell-nedd Port Talbot</p> <p><u>Dangosydd Cyd-destunol:</u></p> <p>Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig</p>
Targed y Polisi	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026
Targed y Polisi	Mae cyfradd diweithdra'n cynyddu 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.29** Un o amcanion y CDLI yw lleihau'r gyfradd diweithdra, ac mae model economaidd y CDLI wedi'i seilio ar ostwng y gyfradd i gyfartaledd hir dymor Cymru, sef 6.9%.

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

**7.1.30** Mae'r tabl canlynol yn nodi cyfradd gymharol diweithdra yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig yn eu tro ers dyddiad sylfaen y CDLI, ac mae'r ffigurau'n dangos gostyngiad sylweddol yn y gyfradd diweithdra ers 2011.

Tabl 7.1.16 Cyfraddau Diweithdra Cymharol fesul Blwyddyn

Blwyddyn yn Diwedd	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2012	10.8%	8.4%	8.1%
31 Mawrth 2013	7.4%	8.3%	7.8%
31 Mawrth 2014	9.3%	7.4%	7.2%
31 Mawrth 2015	5.6%	6.7%	5.9%
31 Mawrth 2016	6.9%	5.4%	5.1%
31 Mawrth 2017	5.5%	4.4%	4.7%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg o'r Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**7.1.31** Yng Nghastell-nedd Port Talbot, er bod cyfradd diweithdra wedi amrywio rhywfaint yn ystod y cyfnod cyfan, mae wedi gostwng yn sylweddol o 10.8% yn 2011 i 5.5% yn 2017. Mae lefelau cyfartalog Cymru a'r Deyrnas Unedig hefyd wedi gostwng yn ystod yr un cyfnod, er i'r gostyngiadau hynny fod yn fwy graddol, a heb amrywio yn yr un modd â'r gyfradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**7.1.32** Erbyn y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2016, roedd y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng i 6.9%, sef y gyfradd sy'n uchelgais i'r CDLI erbyn 2026 (cyfartaledd Cymru yn yr hir dymor). Gostyngodd y gyfradd ymhellach yn ystod y cyfnod monitro presennol i 5.5%, sy'n arwydd o ddarlun economaidd cadarnhaol ar gyfer yr ardal ac yn dangos bod nodau'r CDLI yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 55: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan.

Tabl 7.1.17 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	

### Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth

Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.
----------------	--------------------------

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.33** Paratowyd y CCA ar gyfer Bae Baglan (Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan) yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn ystod haf 2016, ac yn unol â'r targed monitro hwn, mabwysiadwyd y canllaw gan y Cyngor ym mis Hydref 2016.

**Dangosydd 56:Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.**

Tabl 7.1.18 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Cefnogi a diogelu defnyddiau cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, EC2, EC3, EC4, EC5)	
Dangosydd Lleoli	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.1.34** Mae Polisi EC3 (Defnyddiau Ardal Gyflogaeth) yn cyfyngu ar ddefnyddiau oddi mewn i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai a ddyrannwyd i ddsbarthiadau defnydd B1, B2 a B8, cyfleusterau ategol neu wasanaethau a fyddai'n cynnal defnyddiau cyflogaeth a gwasanaethau masnachol heb gysylltiad â dosbarth B. Byddai angen i'r gwasanaethau masnachol gydweddu â swyddogaeth economaidd ehangach yr ardal gyflogaeth, ac ni ddylent fod yn ddefnyddiau y byddai'n well eu lleoli yng nghanol tref.

**7.1.35** Yn ystod y cyfnod monitro, caniatawyd 3 chais oddi mewn i ardaloedd cyflogaeth a ddiogelir y gellid barnu eu bod yn groes i'r fframwaith polisi, ac roedd pob un o'r 3 chais er mwyn cadw campfeydd (dosbarth defnydd D2). Er bod y ceisiadau hyn o bosibl wedi bod yn groes i'r fframwaith, wrth gymeradwyo, mae'r Cyngor wedi pennu cyfyngiadau a fydd yn helpu i reoli a monitro defnydd yn yr ardal gyflogaeth.

**7.1.36** Roedd y cais cyntaf yn ceisio cadw defnydd campfa (dosbarth defnydd D2) ar safle defnydd B1, oedd wedi'i leoli mewn ardal a ddyrannwyd ar gyfer manwerthu nwyddau swmpws yn Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr. Roedd y cais yn ôl-weithredol, gan fod y defnydd wedi bod yn gweithredu ar y safle heb ganiatâd ers cyfnod o 2 flynedd, gan

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

sefydlu cronfa gref o gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, a datblygu'n fusnes llwyddiannus. Am y rheswm hwn, cymeradwyodd y Cyngor y cais gydag amod amser-gyfyngedig oedd yn cyfyngu'r defnydd i 2 flynedd, fel bod y busnes yn cael digon o amser i adleoli i safle arall lle byddai defnydd D2 yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â pholisi'r CDLI.

**7.1.37** Roedd yr ail gais mewn perthynas â safle oedd wedi'i leoli ar Ystâd Ddiwydiannol Heol Milland, gyda'r nod o gadw defnydd campfa ar gyfer Clwb Chwaraeon Campfa. Roedd gan y clwb chwaraeon ganiatâd blaenorol ar gyfer uned arall yn yr ystâd ddiwydiannol, ond ni chafodd eu cytundeb rhentu ar yr uned honno ei adnewyddu, ac felly gwnaeth y clwb chwaraeon gais am symud y defnydd i uned arall oedd yn rhan o'r un ystâd. Roedd y clwb chwaraeon wedi bod yn gweithredu yn yr ardal ers 2 flynedd, ac roedd wedi dod yn gyfleuster sefydledig oedd yn cyflogi 20 o staff. O'r herwydd, rhoddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio, gyda chyfyngiad ar y defnydd oedd yn golygu mai'r clwb chwaraeon campfa yn unig gâi feddiannu'r safle, a bod yr eiddo'n dychwelyd i'w ddefnydd blaenorol fel warws (dosbarth defnydd B8) os/pan fydd yr eiddo'n peidio â bod ym meddiant y clwb.

**7.1.38** Roedd y trydydd cais yn ceisio cadw defnydd campfa ffitrwydd ar Ystâd Ddiwydiannol Lôn Las, defnydd a fu'n gweithredu yn y lleoliad hwnnw ers 2 flynedd heb ganiatâd ac a oedd wedi dod yn gampfa sefydledig yn ystod y cyfnod. Fel rhan o'r cyflwyniad, darparodd yr ymgeisydd dystiolaeth nad oedd defnydd cyflogaeth yn ymarferol ar y safle yn y tymor byr, ac y byddai newid defnydd yn dderbyniol felly o dan Bolisi EC4 (Amddiffyn Defnyddiau Cyflogaeth Presennol). Er i'r ymgeisydd geisio dangos nad oedd defnydd cyflogaeth yn briodol bellach, ni farnwyd bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn ddigonol i gyfiawnhau'r newid defnydd o dan Bolisi EC4, ac nid oedd y Cyngor yn hyderus na fyddai galw am ddsbarth defnydd B yn y dyfodol. O ystyried y lefel bresennol o leoedd gwag ar y safle, a chan fod y gampfa wedi ymsefydlu, penderfynodd y Cyngor edrych ar y mater yn bragmataidd a rhoi caniatâd dros dro am gyfnod o 3 blynedd, fel bod y Cyngor yn cael cyfle i asesu a oedd amodau'r farchnad a'r galw wedi newid.

**7.1.39** Ar sail manylion penodol pob achos, ni fernir bod angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd, a bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn nesaf.



## 7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu

Tabl 7.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
57	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 57: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.**

Tabl 7.2.2 Polisi Strategol SP12 - Manwerthu

Polisi Strategol SP12 - Manwerthu	
Deddfwriaeth	Mae'r deddfwriaeth yn parhau'n ddilys a'n hysbysu'r awdurdodau i'w hysbysu.
Ydychyd	Mae'r ydychyd yn parhau'n ddilys a'n hysbysu'r awdurdodau i'w hysbysu.
Parhau	Mae'r parhau yn parhau'n ddilys a'n hysbysu'r awdurdodau i'w hysbysu.
Parhau	Mae'r parhau yn parhau'n ddilys a'n hysbysu'r awdurdodau i'w hysbysu.
Parhau	Mae'r parhau yn parhau'n ddilys a'n hysbysu'r awdurdodau i'w hysbysu.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.2.1** Cymeradwywyd cyfanswm o 6 cais cynllunio ynghylch darparu safleoedd manwerthu newydd yn ystod y cyfnod monitro [roedd dau o'r rhain yn cyfeirio at gynlluniau amgen ar gyfer un eiddo (6 Heol yr Orsaf Port Talbot)].

**7.2.2** Roedd tri o'r cynigion ar gyfer trawsnewid safleoedd presennol mewn canolfannau manwerthu o ddefnyddiau eraill presennol i ddefnydd manwerthu A1. Mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd â hierarchaeth fanwerthu'r CDLI, ac nid ydynt felly yn cyrraedd pwynt sbarduno'r dangosydd hwn.

**7.2.3** Roedd dau o'r cynigion ar gyfer trawsnewid tafarndai y tu allan i ganolfannau manwerthu i ddefnydd manwerthu, ymhlith newidiadau eraill. Gan nad oes angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o A3 i A1 ynddo'i hun, nid yw'r cynigion hyn yn cyrraedd pwynt sbarduno'r dangosydd hwn.

**7.2.4** Mae un cais (am archfarchnad newydd fwy o faint ym Mhontardawe) yn berthnasol i'r dangosydd hwn, gan ei fod ar gyfer datblygiad manwerthu y tu allan i unrhyw ganolfan fanwerthu a ddiffiniwyd, ac felly'n groes i'r hierarchaeth fanwerthu. Fodd bynnag, dangoswyd bod y cynnig hwn yn cydymffurfio â gofynion Polisi R3, ac felly nid yw'n groes i'r fframwaith polisi. Nid yw'r cynnig felly yn cyrraedd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.



## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

**Dangosydd 58:Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.**

Tabl 7.2.3 Polisi Strategol SP12 - Manwerthu

Cynigion manwerthu ar raddfa fach (Gweler hefyd Bolisiau SP2, R3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.
Targed y Polisi	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir.
Pwynt Sbarduno	Ni chaniateir cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.2.5** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â chynigion manwerthu 'ar raddfa fach'. Mae hyn yn dilyn geiriad Polisi Strategol 12 sy'n cael ei weithredu trwy Bolisi manwerthu R3, sy'n pennu trothwyon o arwynebedd llawr gros 100m<sup>2</sup> yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir a 200m<sup>2</sup> yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Y trothwyon hyn, felly, sy'n diffinio maint safleoedd 'ar raddfa fach' yn achos y ddwy ardal.

**7.2.6** Mae un cais yn berthnasol i'r dangosydd hwn, ac yn ymwneud â newid defnydd safle presennol yng nghanol tref Port Talbot, sy'n golygu bod y dangosydd yn cyflawni targed y polisi ar hyn o bryd.

## 7.3 Polisi Strategol 13 - Twristiaeth

Tabl 7.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
59	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
61	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwll	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

### Dangosydd 59: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 7.3.2 Polisi Strategol SP13 - Twristiaeth

Darparu dull hyblyg o ymdrin â chynigion twristiaeth yng nghefn gwlad agored (Gweler hefyd Bolisi TO1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer cynigion twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

## Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.3.1** Mae sawl cais wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae'r holl geisiadau wedi bod yn unol â'r fframwaith monitro a byddant yn cefnogi datblygiad twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

### Dangosydd 60: Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 7.3.3 Polisi Strategol SP13 - Twristiaeth

Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth (Gweler hefyd Bolisi TO2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.

## 7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth (Gweler hefyd Bolisi TO2)	
Targed y Polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais oedd yn arwain at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.3.2** Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd un cais a fyddai'n arwain at golli cyfleuster twristiaeth. Roedd y cais yn ceisio trawsnewid llety twristiaeth presennol yn uned byw â chymorth. Roedd y llety twristiaeth wedi dirywio, a bernid nad oedd bellach yn addas at y diben. Gan fod y cyfleuster oedd yn dirywio yn cael ei gyfnewid am ddefnydd a fyddai'n creu cyflogaeth, barnwyd bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi TO2.

### Dangosydd 61: Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell.

Tabl 7.3.4 Polisi Strategol SP13 - Twristiaeth

Darparu llwybrau cerdded a beicio newydd a gwell (Gweler hefyd Bolisiau SP2, TO4/1, TO4/2, TO4/3)	
Dangosydd Lleol	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell.
Targedau'r Polisi	Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012. Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013. Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012.
Pwynt Sbarduno	Wedi'i gwblhau.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**7.3.3** Mae 'Llwybr Arfordirol Cymru', 'Trywyddau Beicio Mynydd Cognation' a 'Llwybr Taith Fawr y Ddraig' i gyd wedi'u cwblhau.

## 8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### 8.1 Polisi Strategol 14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

Tabl 8.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
63	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun	Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol

**Dangosydd 62: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ardaloedd Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi.**

Tabl 8.1.2 Polisi Strategol SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

Yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig (Gweler hefyd Bolisi EN1, EN2, EN3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ardaloedd Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.1.1** Cymeradwywyd cyfanswm o saith cais ar gyfer datblygiadau perthnasol i'r dangosydd hwn yn ystod y cyfnod monitro. Roedd chwech o'r cynigion wedi'u lleoli mewn Ardaloedd Tirlun Arbennig (Polisi EN2) ac un mewn Lletem Las (Polisi EN1). Ni dderbyniwyd ceisiadau am ddatblygiadau oddi mewn i'r arfordir heb ei ddatblygu a ddiffiniwyd.

**8.1.2** Roedd tri o'r datblygiadau mewn Ardaloedd Tirlun Arbennig ar gyfer amnewid adeiladau, neu newid defnydd adeilad presennol, ac o ganlyniad ni fyddent yn cael effaith sylweddol ar y tirlun ac roeddent yn dderbyniol o safbwynt y tirlun. Roedd dau ar gyfer adeiladau newydd oedd yn ofynnol at ddibenion fferm neu farchogaeth, y cyfan wedi'u lleoli'n agos at adeiladau fferm presennol, ac o ganlyniad barnwyd nad oeddent yn niweidiol

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

i'r tirlun. Roedd un cais ar gyfer tyrbîn gwynt unigol lle rhoddwyd sylw helaeth i'r effeithiau ar y tirlun, gan arwain at y casgliad na fyddai'r cynnig yn niweidiol i'r tirlun, a'i fod yn unol â Pholisi EN2.

**8.1.3** Roedd un cais ar gyfer fferm solar mewn Lletem Las. Yn unol â'r diffiniadau ym Mholisi Cynllunio Cymru, barnwyd nad oedd cynnig o'r fath yn ddatblygiad amhriodol mewn Lletem Las, a'i fod felly'n unol â Pholisi EN1.

**8.1.4** Ni farnwyd, felly, bod yr un o'r ceisiadau'n groes i'r fframwaith polisi, ac felly ni chafwyd ceisiadau oedd yn cyrraedd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

### Dangosydd 63: Paratoi CCA ar gyfer y Tirlun a'r Morlun.

Tabl 8.1.3 Polisi Strategol SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

Yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA ar gyfer y Tirlun a'r Morlun.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.1.5** Gohiriwyd y gwaith o baratoi'r CCA Tirlun a Morlun er mwyn i'r ddogfen gael ei llywio gan yr '*Asesiad o Gymeriad y Morlun Lleol*' a baratowyd ar ran pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

**8.1.6** Roedd y ddogfen hon i gael ei llunio'n derfynol a'i chyhoeddi yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus erbyn hydref 2017, ac o ganlyniad, rhagwelir bellach y bydd y CCA Tirlun a Morlun yn cael eu paratoi erbyn mis Ebrill 2018.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### 8.2 Polisi Strategol 15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaethy

Tabl 8.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
65	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol

**Dangosydd 64: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.**

Tabl 8.2.2 Polisi Strategol SP15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

#### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.2.1** Ni dderbyniwyd/chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### Dangosydd 65: Paratoi CCA sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth.

Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol

Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.2.2** Bu oedi wrth baratoi'r CCA Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth er mwyn i'r ddogfen gael ei llywio gan astudiaeth y 'Cynllun Gwneud lawn am Fioamrywiaeth'. Cwblhawyd yr astudiaeth honno yng ngwanwyn 2017, ac o ganlyniad, rhagwelir bellach y bydd y CCA Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn cael eu paratoi erbyn mis Ebrill 2018.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### 8.3 Polisi Strategol 16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Tabl 8.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
68	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	The indicators point to the successful implementation of the Policy	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), yn groes i'r fframwaith polisi.**

Tabl 8.3.2 Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Amddiffyn yr Amgylchedd (Gweler hefyd Bolisi SP2, EN8)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

#### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.3.1** Dim ond un cais a gymeradwywyd ar safle yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) Port Talbot, sef ysgol newydd ym Margam. Aseswyd y cynnig gan Is-adran Ansawdd Aer y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafwyd ei fod yn cyd-fynd â Pholisi EN8, cyhyd â bod amodau yn eu lle ynghylch cyflwyno Cynllun Rheoli Adeiladwaith Amgylcheddol ac allyriadau'r offer boeler. Bernir, felly, bod y cynnig yn unol â'r fframwaith polisi.



## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### Dangosydd 67: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith.

Tabl 8.3.3 - Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Amddiffyn Ardal Ganolog Port Talbot rhag achosion o dorri'r amcanion ansawdd aer (Gweler hefyd Bolisiau SP2, EN9)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith.
Targed y Polisi	Ni ddylid gweld unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno.
Pwynt Sbarduno	Gwelwyd un achos neu fwy o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.3.2** Fel y cwmpaswyd o dan Ddangosydd 66 uchod, caniatawyd un cais oddi mewn i ARhAA Port Talbot. Cymeradwywyd y cais hwn ar sail amod oedd yn galw am gyflwyno a chymeradwyo Cynllun Rheoli Adeiladwaith Amgylcheddol, ac felly nid yw'n gais perthnasol i'r dangosydd yn yr achos hwn. Ni chyflwynwyd ceisiadau na'u cymeradwyo, felly, mewn perthynas â'r Dangosydd hwn. Nid oedd gwaith wedi cychwyn ar y safle hwn oddi mewn i'r cyfnod monitro.

### Dangosydd 68: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd.

Tabl 8.3.4 - Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Amddiffyn Ardal Ganolog Port Talbot rhag achosion o dorri'r amcanion ansawdd aer	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Llygredd erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.3.3** Paratowyd y CCA Llygredd yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn ystod haf 2016, ac yn unol â'r targed monitro hwn, mabwysiadwyd y canllaw gan y Cyngor ym mis Hydref 2016.

**Dangosydd 69: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig.**

Tabl 8.3.5 Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Quiet Areas (See also Policies SP2 EN10)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.3.4** Ni dderbyniwyd ceisiadau o fewn y cyfnod monitro ar gyfer cynigion mewn unrhyw Ardaloedd Tawel, felly nid oedd ceisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### 8.4 Polisi Strategol 17 - Mwynau

Tabl 8.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
70	Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
72	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn cydweddu â Pholisi M2	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
73	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 70: Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).**

Tabl 8.4.2 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

Cynnal isafswm cyflenwad o agregau ar hyd cyfnod y Cynllun	
Dangosydd Craidd	Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).
Dangosydd Lleol	Cyflenwad tir agregau.
Targed y Polisi	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun.
Pwynt Sbarduno	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.4.1** Y diffiniad o fanc tir yw stoc o ganiatâd cynllunio ar gyfer sicrhau a gweithio mwynau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cwmpas y banc tir o gerrig wedi'u malu wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar yn Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

**8.4.2** Cyfrifwyd ffigurau'r banc tir yn ôl y dull a nodwyd yn MTAN1 (Agregau) a chan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant y 3 blynedd diwethaf (h.y. ni chaniatawyd ar gyfer y tuedd o ran y galw). Mae'r adroddiad yn nodi bod gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir o 46 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 3 blynedd (2012-2014).

**8.4.3** Roedd Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS), a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014, yn barnu mai doeth fyddai ystyried cyfartaledd o 10 mlynedd, gan ei fod yn waelodlin mwy dibynadwy na chyfartaledd 3 blynedd. Mae'r adroddiad yn nodi felly bod gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir o 33 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10 mlynedd (2005-2014).

**8.4.4** Mae gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni, felly.

### Dangosydd 71: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol.

Tabl 8.4.3 Polisi Strategol SP17 – Mwynau

Safeguarding identified resources (See also Policy M1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.4.5** Mae'r dangosydd hwn yn monitro nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys adnoddau mwynau helaeth, gyda'r Fwrdeistref Sirol gyfan, fwy neu lai, yn gorwedd uwchben adnoddau glo ac agregau. Er gwaethaf y ddarpariaeth helaeth hon mae'n bwysig bod mynediad at waddodion mwynau y gallai fod angen amdanynt yn y dyfodol yn cael ei ddiogelu.

**8.4.6** Caniatawyd 19 o geisiadau oddi mewn i ardaloedd diogelu mwynau (Polisi M1) yn ystod y cyfnod monitro, ond roedd mwyafrif y cynigion hyn wedi'u lleoli mewn adeiladau neu gyfadeiladau sydd eisoes yn bodoli, felly nid oedd mater sterileiddio'n codi.

**8.4.7** O gyfanswm o 6 chais a ganiatawyd oddi mewn i ardal fwynau wedi'i diogelu, nid oedd 5 cais yn ystyried gofynion Polisi M1. O'u hadolygu, fodd bynnag, barnwyd bod yr holl gynigion ar raddfa ac mewn lleoliad na fyddai'n cael effaith sylweddol ar weithio'r mwyn yn y dyfodol.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

**8.4.8** Er nad oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn, bernir bod angen trafodaeth bellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu er mwyn sicrhau bod y gofynion polisi yn cael eu hystyried yn gyson ym mhob achos yn y broses o wneud penderfyniadau.

**Dangosydd 72: Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn cydweddu â Pholisi M2.**

Tabl 8.4.4 Polisi Strategol SP17 – Mwynau

Safeguarding identified resources (See also Policy M2)	
Dangosydd Lleol	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn cydweddu â Pholisi M2.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam GweithreduDim angen camau pellach. Monitro i barhau.	

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.4.9** Mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â cheisiadau ar gyfer gweithgaredd ar yr wyneb sy'n gysylltiedig ag echdynnu glo. Ni phenderfynwyd ar geisiadau yn ystod y cyfnod monitro, felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 73: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau.**

Tabl 8.4.5 Polisi Strategol SP17 – Mwynau

Datblygiad mewn Parthau Clustogi Mwynau (Gweler hefyd Bolisi M3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

Datblygiad mewn Parthau Clustogi Mwynau (Gweler hefyd Bolisi M3)	
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.4.10** Mae'r dangosydd yn ymwneud â nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau (Polisi M3). Mae parthau clustogi wedi'u nodi o amgylch safleoedd mwynau presennol ac arfaethedig, a'u bwriad yw: i) amddiffyn y gwaith mwynau rhag defnyddiau newydd sensitif megis datblygiad preswyl trwy sefydlu pellter gwahanu rhwng y defnyddiau a allai wrthdaro, a ii) sicrhau na fyddai unrhyw ddatblygiad newydd yn peryglu echdynnu'r cronfeydd a ganiateir na gweithrediad y safle yn y dyfodol.

**8.4.11** Caniatawyd 5 cais (2 gynnig tai, cyfleuster Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE), sianel lliniaru llifogydd a chynllun hydrobŵer), oddi mewn i barthau clustogi mwynau yn ystod y cyfnod monitro.

**8.4.12** Mae un o'r cynigion tai yn rhan o anheddiad diffiniedig, sefydledig, mae mwyafrif y cynnig tai arall am y ffin â'r parthau clustogi mwynau, gyda rhan fechan, ddibwys yn unig yn syrthio o fewn y parth. Mae gan y cyfleuster WEEE ganiatâd dros dro mewn adeilad presennol ym Mhwll Unity, ac mae'r sianel lliniaru llifogydd a'r cynllun hydrobŵer, oherwydd natur y cynigion, yn annhebygol o arwain at sterileiddio'r adnodd mwynau na dioddef effaith niweidiol yn sgîl gwaith mwynau.

**8.4.13** Barnwyd felly nad yw dim o'r cynigion yn groes i Bolisi M3.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### 8.5 Polisi Strategol 18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Tabl 8.5.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
74	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
76	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

**Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.**

Tabl 8.5.2 Polisi Strategol SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Darparu ar gyfer cyfraniad priodol i gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy (Gweler hefyd Bolisi RE1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.
Targed y Polisi	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.
Pwynt Sbarduno	Ni chofnodwyd cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.5.1** Cymeradwywyd tri chais ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy / carbon isel o fewn y cyfnod monitro, yr oedd y mwyaf ohonynt yn ymwneud â fferm solar ym Margam. Roedd y cynlluniau eraill ar gyfer gosodiad hydrobŵer bychan ym Maesgwyn, Glyn-nedd ac un tyrbîn gwynt ger Rhydyfro. Nid yw'r tyrbîn gwynt arfaethedig mewn unrhyw Ardal Chwilio Strategol a wellwyd, ond mae pob un o'r tri chynnyg yn cyfrannu at gyflawni'r targed polisi hwn.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### Dangosydd 75: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy.

Tabl 8.5.3 Polisi Strategol SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd (Gweler hefyd Bolisi RE2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.5.2** Cymeradwywyd pedwar cais yn ystod y cyfnod monitro, oedd yn cyrraedd y trothwy ym Mholisi RE2 oedd yn golygu bod cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn ofynnol. Mewn un achos darparwyd cyfiawnhad trwy ddangos bod paneli solar eisoes wedi'u gosod ar adeiladau eraill ar y safle (er na fyddai hynny fel arfer yn rheswm dros beidio â gwneud darpariaeth yn ofynnol ar yr adeilad newydd). Mewn tri achos ni roddwyd sylw i'r polisi. Mae pob un o'r ceisiadau a gymeradwywyd, felly, yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**8.5.3** Ar hyn o bryd nid yw'r polisi'n cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd, felly, a bernir y dylid rhoi sylw i hyn trwy drafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu. Ymhellach, rhagwelir y bydd y CCA Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 (gweler Dangosydd 76 isod) a bydd y ddogfen hon yn darparu canllawiau manylach ynghylch gweithredu'r polisi.

### Dangosydd 76: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel.

Tabl 8.5.4 Polisi Strategol SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd CCA	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel.



## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd	
CCA	
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.5.4** Paratowyd y CCA Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel erbyn diwedd Ebrill 2017 ac wedyn fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 10 Mai a 21 Mehefin. Rhagwelir y bydd y CCA terfynol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### 8.6 Polisi Strategol 19 - Rheoli Gwastraff

Tabl 8.6.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
77	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
78	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
79	Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 77: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle.**

Tabl 8.6.2 Polisi Strategol SP19 - Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd (Gweler hefyd Bolisi W3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle.
Targed y Polisi	Dylai'r holl gynigion datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.6.1** Roedd pum cynnig datblygu oddi mewn i delerau Polisi W3 yn ystod y cyfnod monitro, sef 3 ysgol, 1 datblygiad tai a'r llety i fyfyrwyr ar Gampws y Bae.

**8.6.2** Roedd Cynllun Rheoli Gwastraff ar y Safle (SWMP) yn cyd-fynd â thri o'r ceisiadau. Y ddau gais a ganiatawyd heb SWMP oedd y cynnig tai, lle roedd amod ynghlwm wrth y caniatâd yn galw am Ddatganiad Dull Adeiladu a chynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu'r gwaith adeiladu, a'r llety i fyfyrwyr ar Gampws y Bae, sy'n cael ei adeiladu'n unol â'r amodau a roddwyd ar y caniatâd gwreiddiol (P2010/0222).

**8.6.3** Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd monitro'n parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

### Dangosydd 78: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth.

Tabl 8.6.3 Polisi Strategol SP19 - Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd	
Dangosydd Lleol	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth
Targed y Polisi	Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff.
Pwynt Sbarduno	Gwrthodwyd un cais ar safle cyflogaeth y barnwyd ei fod yn addas ar gyfer gwastraff.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.6.4** Mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â defnyddiau cysylltiedig â rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth. Ni dderbyniwyd/phenderfynwyd ar geisiadau cysylltiedig â gwastraff yn ystod y cyfnod monitro oedd yn ymwneud â thir cyflogaeth a ddyrannwyd a/neu a ddiogelwyd, ac felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

### Dangosydd 79: Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Tabl 8.6.4 Polisi Strategol SP19 - Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd	
Dangosydd Lleol	Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.
Targed y Polisi	Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21).
Pwynt Sbarduno	Pwyntiau sbarduno i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**8.6.5** Mae'r targed ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â chynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer y gwastraff a gynhrychir yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn galw am gydweithio rhanbarthol er mwyn sefydlu rhwydwaith integredig, digonol ar gyfer gwaredu ac adennill gwastraff, a sefydlu trefniadau monitro ar y cyd ar draws y rhanbarth.

**8.6.6** Yn unol â TAN21, felly, mae'r capasiti gwastraff a'r targedau i gael eu pennu ar y lefel ranbarthol. Yn y cyfnod interim hwn o sefydlu trefniadau monitro ar y cyd, fodd bynnag, mae'r targed polisi penodol a'r pwynt sbarduno ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff heb eu pennu eto.

**8.6.7** Yn benodol yng nghyswllt cyfleusterau rheoli gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau gweithredol [e.e. y Ganolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni (MREC), Safle Tirlenwi Pwllfawatkin ac ati] yn ystod y cyfnod monitro bu un cais perthnasol cysylltiedig â gwastraff, oedd yn cymeradwyo newid defnydd dros dro ar gyfer rhan o'r offer/peirianwaith a'r adeiladau, o brosesu glo i Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE). Mae'r cyfleuster hwn wedi'i leoli mewn adeilad presennol nad oes galw amdano ar safle Cyfadeilad Pwll Unity, Cwmgwrach, ac nid ar dir cyflogaeth a ddyrannwyd neu a ddiogelwyd yn y CDLI.

**8.6.8** Mae swm y tir cyflogaeth a ddefnyddir yn cael ei fonitro'n benodol gan Ddangosyddion 50, 51, 52 a 56 yn eu tro. Ar sail canlyniadau'r monitro hwn hyd yma, ynghyd â'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau sydd eisoes ar waith, bernir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio gyda'r gwastraff sy'n codi.

**8.6.9** Ar y sail hon, bernir bod gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni. Bydd y dangosyddion economaidd y cyfeiriwyd atynt uchod, ynghyd â datblygiadau cysylltiedig â gwastraff a gyflwynir, yn parhau i gael eu monitro yn ystod y flwyddyn nesaf. Rhoddir sylw arbennig hefyd i'r wybodaeth a'r canllawiau a gyhoeddir yn yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol (WPMR) ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru.

## 8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

## 9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

### 9.1 Polisi Strategol 20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Tabl 9.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
80	Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4; Ffordd yr Harbwr (FfDdY)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
81	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
82	Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Thrywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
83	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
84	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Safonau Parcio	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

**Dangosydd 80: Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43; a Ffordd yr Harbwr (FfDdY).**

Tabl 9.1.2 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Gwelliannau i'r Rhwydwaith Prifffyrdd (Gweler hefyd Bolisi SP2, TR1/1, TR1/2, TR1/3, TR1/4 a TR1/5)	
Dangosyddion Lleol	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan.</li> <li>2. Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy.</li> <li>3. Cyflawni Ffordd Amazon (Cyfnod 2).</li> <li>4. Cyflawni'r Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4).</li> <li>5. Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY).</li> </ol>
Targedau'r Polisi	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan yn cael ei chyflawni erbyn dechrau 2015.</li> <li>2. Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â thelerau'r cytundeb A106.</li> <li>3. Cyflawni Ffordd Amazon (Cyfnod 2) erbyn 2014.</li> <li>4. Cyflawni Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn unol â thelerau'r Cytundeb A106.</li> <li>5. Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY) erbyn 2014.</li> </ol>
Pwyntiau Sbarduno	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. WEDI'I GWBLHAU.</li> <li>2. Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy wedi'i chwblhau cyn i uned 501 gael ei meddiannu neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddaw gyntaf.</li> <li>3. WEDI'I GWBLHAU.</li> </ol>

## 9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd (Gweler hefyd Bolisi SP2, TR1/1, TR1/2, TR1/3, TR1/4 a TR1/5)	
	4. Ni chyflawnir y gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn unol â thelerau'r cytundeb A106 (yn cael ei adeiladu yn 2015). 5. WEDI'I GWBLHAU.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**9.1.1** Mae'r tri chynllun canlynol wedi'u cwblhau: *Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan* (cwblhawyd yn 2015); *Ffordd Amazon (Cyfnod 2)* (cwblhawyd yn 2013); a *Ffordd yr Harbwr (FfDdY)* (cwblhawyd yn 2014).

**9.1.2** Yng nghyswllt *Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy* mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 o ran cefnogi datblygiad preswyl pellach yn rhan ogleddol y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu ar gyfer cychwyn ail haen o ddatblygiad yn yr ardal ddeheuol.

**9.1.3** Er na wnaed hynny'n ffurfiol eto, mae'r Cyngor a SMDL wedi dod i gytundeb mewn egwyddor i weithredu sbardun diwygiedig ar gyfer cyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol. Bydd diwygio fel hyn yn golygu bod modd datblygu Coed Darcy mewn dau gyfeiriad, fel bod nifer yr unedau preswyl i'w meddiannu yn gallu cynyddu.

**9.1.4** Mae'r Cytundeb A106 presennol hefyd yn galw am gyfres o welliannau i *Gyffordd 43 o'r M4*, a'r ffordd sy'n cysylltu'r cynllun â'r gyffordd, a adwaenir fel y Ffordd Fynediad Ogleddol. Mae gwaith eisoes wedi'i gwblhau o ran cyfnodau cychwynnol y gwaith gwella.

**9.1.5** Cytunwyd mewn egwyddor hefyd rhwng y Cyngor ac SMDL i ymgorffori amserlenni diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r gwaith ar Gyffordd 43 yn raddol. Yn syml, bydd y newidiadau'n addasu'r cyfnodau o gyflwyno'r gwaith er mwyn cynyddu'r capasiti posibl o ran traffig ychwanegol o'r safle i Gyffordd 43 yn gynharach, fel bod modd adeiladu nifer mwy o anheddau preswyl cyn adeiladu'r ddolen briffordd strategol sy'n cysylltu Gyffordd 43 â'r A483 (Ffordd Fabian), ar hyd y Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler uchod) - h.y. bydd cyfran uwch o'r traffig yn cael ei chyfeirio i mewn ac allan o'r safle o'r gogledd yn y tymor byrrach, a bydd cyfnodau'r gwaith i wella'r briffordd yn cael eu hailbroffilio i ddarparu ar gyfer hynny.

**9.1.6** Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y cynllun yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 81: Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot.

Tabl 9.1.3 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Gwelliannau i'r Orsaf Cludiant Cyhoeddus (Gweler hefyd Bolisi SP2 TR1/6)	
Dangosydd Lleol	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot.
Targed y Polisi	Cyflawni'r prosiect erbyn 2018.
Pwynt Sbarduno	Nid yw cynllun y Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig yn cael ei gyflawni erbyn 2018.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**9.1.7** Mae'r gwaith o gyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot, yn dal i gadw at yr amser, a bydd yn ei le erbyn 2018.

**9.1.8** Ar y cychwyn gwnaeth Network Rail gais i ddatblygu Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig ym Mharcffordd Port Talbot ym mis Rhagfyr 2015, a rhoddwyd Caniatâd Cynllunio wedyn ym mis Awst 2016 ar gyfer adeilad gorsaf newydd (gwerth £11.3 miliwn), wedi'i integreiddio â threfniant priffyrdd newydd, canopi bysiau, ac ardaloedd tacsis a cherddwyr. Cwblhawyd cyfnod cychwynnol y gwaith ym mis Ionawr 2017.

**9.1.9** Bydd moderneiddio'r orsaf reilffordd yn llwyr yn cyd-fynd â'r canolbwynt integredig newydd gwerth £5.6 miliwn a fydd yn rhoi'r cysylltiadau trafndiaeth mewn man canolog. Bydd hyn yn cynnwys y Parcffordd, canolbwynt newydd i fysiau, cyfleusterau beicio, rheng tacsis, manau gollwng a chasglu a chreu concwrs penodol i gerddwyr fydd yn hwyluso mynediad i ardaloedd cyflogaeth a phreswyl Port Talbot. Mae'r datblygiad yn rhan o Raglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid y Cyngor, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth y Gronfa Drafndiaeth Leol a Strategaeth Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae cyfnod olaf y gwaith i gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2017.



## 9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

### Dangosydd 82: Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Thrywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan).

Tabl 9.1.5 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Llwybrau Cerdded a Beicio (Gweler hefyd Bolisi TR1/7 a TR1/8)	
Dangosyddion Lleol	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman.</li><li>2. Cwblhau Trywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan).</li></ol>
Targedau'r Polisi	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014.</li><li>2. Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013.</li></ol>
Pwyntiau Sbarduno	<ol style="list-style-type: none"><li>1. RHAN WEDI'I CHWBLHAU.</li><li>2. WEDI'I GWBLHAU.</li></ol>
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**9.1.10** Cwblhawyd Trywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) yn 2013.

**9.1.11** Mae'r gwaith o ddylunio ac adeiladu Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi cael ei wneud ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Caerfyrddin, a hynny'n raddol dros gyfnod o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae pum rhan o'r gwaith wedi'u cwblhau, ac mae'r ddau gyfnod olaf naill ai ar waith neu'n destun trafodaeth gyda thirfeddianwyr.

**9.1.12** Cwblhawyd adran 'Golchfa'r Efail', yn ymyl y ffin weinyddol ym Mrynaman, yn rhannol drwy adeiladu pont newydd dros yr afon. I orffen yr adran hon bydd angen adeiladu rhan fer o'r llwybr beicio o'r bont i briffordd yr A4069, Heol yr Orsaf, ac mae trafodaethau gyda pherchennog y tir yn mynd rhagddynt yn dda. Gwnaed cynnydd hefyd o ran adran 'Cwmllynfell i Gwmtwrch', gan fod y dyluniad rhagarweiniol yn ei le, a hefyd y trafodaethau cychwynnol gyda thirfeddianwyr.

**9.1.13** Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd y cynllun yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

### Dangosydd 83: Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam.

Tabl 9.1.5 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Safleoedd Parcio a Rhannu (Gweler hefyd Bolisiau SP2 a TR1/9)	
Dangosydd Lleol	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam.
Targed y Polisi	Cyflawni'r prosiect erbyn 2020.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam yn cael ei gyflawni erbyn 2020.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**9.1.14** Er nad oes cynnydd ar y safle ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyfleuster Parcio a Rhannu, a leolir ar hyd cilfan yr A48 wrth Gyffordd 38 (yr M4) Margam, yn cael ei gyflawni erbyn 2020. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Dangosydd 84: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Safonau Parcio.

Tabl 9.1.6 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

CCA	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Pharcio.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Pharcio erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**9.1.15** Paratowyd y CCA Safonau Parcio yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn ystod haf 2016, ac yn unol â'r targed monitro hwn, mabwysiadwyd y canllawiau gan y Cyngor ym mis Hydref 2016.

## 9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

## 10 Parchu Unigrywiaeth

### 10.1 Polisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Tabl 10.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
85	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
86	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol	Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol
87	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

**Dangosydd 85: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.**

Tabl 10.1.2 Polisi Strategol SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Diogelu nodweddion o Bwysigrwydd Lleol (Gweler hefyd Bolisi BE2, BE3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

#### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**10.1.1** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â Pholisïau BE2 a BE3, sy'n trafod Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol (BE2) a'r Rhwydwaith Camlesi (BE3). Mae rhestr o Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol wedi cael ei pharatoi, ond mae ar ffurf drafft yn unig ar hyn o bryd, wrth ddisgwyl am baratoi CCA yr Amgylchedd Hanesyddol (gweler Dangosydd 86 isod). Cymeradwywyd cyfanswm o chwe chynnig pwysig sy'n effeithio ar ymgeiswyr am Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol (dau ar gyfer cynlluniau amgen i un adeilad), heb geisiadau pwysig yn effeithio ar unrhyw un o'r camlesi.

## 10 . Parchu Unigrywiaeth

**10.1.2** Mae pedwar o'r ceisiadau yn ymwneud â'r newidiadau defnydd/trawsnewid adeiladau presennol, gan gadw'r adeilad ym mhob achos heb wneud newidiadau sylweddol i'w wedd allanol. Mae un cais yn ymwneud â mân ddatblygiadau ar diroedd Adeilad o Bwysigrwydd Lleol, nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar yr adeilad ei hun.

**10.1.3** Mae'r cais olaf ar gyfer cynllun mwy sy'n cynnwys dymchwel rhan o Ysgol Glanafan ym Mhort Talbot ac adeiladu 2 uned fasnachol a 29 uned breswyl. Fodd bynnag, mae adeiladau gwreiddiol yr ysgol i gael eu cadw a'u trawsnewid, gan ddiogelu'r rhan fwyaf o ffabrig a gwedd gyffredinol y darpar Adeilad o Bwysigrwydd Lleol. Bernir felly bod yr holl gynigion hyn yn unol â'r fframwaith polisi ac o ganlyniad nid oes cais sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

### **Dangosydd 86: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol.**

Tabl 9.1.5 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Safeguarding Features of Local Importance	
SPG	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau**

**10.1.4** Bu oedi wrth baratoi CCA'r Amgylchedd Hanesyddol er mwyn iddo gael ei lywio gan yr ymgynghoriadau 'Amgylchedd Hanesyddol' sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn debygol o arwain at gyflwyno gofynion a chanllawiau manwl ynghylch asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, a llunio rhestr o asedau o'r fath. Er nad yw'r CCA wedi cael eu paratoi hyd yma, wrth ddisgwyl am gyhoeddi canllawiau cenedlaethol newydd, wedi'u diweddarau, bydd y gwaith o baratoi'r CCA yn cael sylw pellach yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

### Dangosydd 87: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig.

Tabl 10.1.4 Polisi Strategol SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig (Gweler hefyd Bolisi BE1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**10.1.5** Mae saith cais sylweddol wedi cael eu cymeradwyo mewn Ardaloedd Cadwraeth, pob un ohonynt yn gynigion yn ardal gadwraeth Canol Tref Castell-nedd.

**10.1.6** Roedd dau ohonynt yn golygu dymchwel adeilad yn llwyr neu'n rhannol (mewn un achos oherwydd difrod tân), gyda gwaith ailadeiladu y bernid ei fod yn briodol ac yn unol â holl ofynion ardaloedd cadwraeth, tra bod dau ar gyfer blaen newydd i siopau, a thri ar gyfer newid defnydd yn unig.

**10.1.7** Barnwyd bod yr holl gynigion yn briodol o ran cymeriad a golwg yr ardal gadwriaeth, a'u bod yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi.

## 10 . Parchu Unigrywiaeth

### 10.2 Polisi Strategol 22 - Yr Iaith Gymraeg

Tabl 10.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
88	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu Ieithyddol	Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau
89	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

**Dangosydd 88: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu Ieithyddol.**

Tabl 10.2.2 Polisi SP22 - Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif

Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif (Gweler hefyd Bolisi WL1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu Ieithyddol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

#### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**10.2.1** Cymeradwywyd pum cais (4 preswyl ac 1 manwerthu) yn ystod y cyfnod monitro, oedd yn cyrraedd y trothwy ym Mholisi WL1 ar gyfer gwneud cyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn ofynnol.

**10.2.2** Er bod Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn cefnogi un o'r ceisiadau preswyl, a'i fod yn sefydlu mesurau lliniaru priodol trwy gyfraniadau Adran 106, ym mhob un o'r pedwar achos arall, ni chyflawnwyd y gofyniad polisi, ac felly mae pob un o'r pedwar cais a gymeradwywyd yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**10.2.3** Mae'n drawiadol bod pob un o'r pedwar cais wedi'u cyflwyno i'r Cyngor cyn mabwysiadu'r CDLI, ac wedi'u cymeradwyo ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. O ran y 3 chais preswyl cysylltiedig, nid oedd gan ddau ohonynt fesurau lliniaru cysylltiedig, ac er bod y

llall yn cynnwys amod oedd yn galw am gyflawni mesurau penodedig, nid oedd y mesurau hynny'n gyson â'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a fabwysiadwyd, ac nid oedd Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn cyd-fynd â'r cais.

**10.2.4** O ran y cais cysylltiedig â manwerthu, er bod y Cyngor wedi parhau mewn cysylltiad â'r datblygwr, gan arwain at gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn wirfoddoli, eto nid oedd y mesurau lliniaru a gynigiwyd yn cyd-fynd â'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a fabwysiadwyd.

**10.2.5** Nid yw'r polisi'n cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd, felly, a bernir y dylid ymdrin â hynny trwy drafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu. Ymhellach, rhagwelir y bydd y CCA Datblygiad a'r Iaith Gymraeg yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 (gweler Dangosydd 89 isod) a bydd y ddogfen hon yn darparu canllawiau manylach ynghylch gweithredu'r polisi.

### Dangosydd 89: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.

Tabl 10.2.3 Polisi Strategol SP22 - Yr Iaith Gymraeg

Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif (Gweler hefyd Bolisi WL1)	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA ynghylch Datblygiad a'r Iaith Gymraeg erbyn Ebrill 2017
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

### Dadansoddiad o'r Canlyniadau

**10.2.6** Paratowyd CCA Datblygiad a'r Iaith Gymraeg erbyn diwedd Ebrill 2017 ac wedyn fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 10 Mai a 21 Mehefin. Rhagwelir y bydd y CCA terfynol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.



## 10 . Parchu Unigrywiaeth

## **RHAN 3 - Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd**

# 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

## 11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.0.1** Bu'r CDLI yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses ailadroddus ar hyd y cyfnod o baratoi'r cynllun. Ceir manylion pellach yn nogfennau AC y CDLI<sup>(20)</sup>. Roedd yr AC yn ymgorffori gofynion yr AAS, a dylid cymryd bod pob cyfeiriad at yr AC yn y ddogfen hon yn cynnwys yr AAS. Roedd yr AC yn arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y cynllun a'i effeithiau tebygol o ran datblygu cynaliadwy.

**11.0.2** Strwythurwyd yr AC o amgylch 8 thema, ac roedd yn nodi cyfanswm o 22 o amcanion oddi mewn i'r themâu hynny. Cafodd dangosyddion monitro a thargedau eu drafftio, eu datblygu a'u mireinio ar hyd esblygiad y CDLI a'r AC, ac mae'r Fframwaith Monitro a gyhoeddwyd ar gyfer y CDLI<sup>(21)</sup> yn ymgorffori dangosyddion monitro sy'n ymwneud ag amcanion dogfennau'r CDLI a'r AC, gan gynnwys nifer sy'n deillio o'r dangosyddion drafft a gyflwynwyd yn nogfennau'r AC.

**11.0.3** O ran monitro'r AC, gwnaed rhai newidiadau i'r dangosyddion i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am amcanion yr AC. Mewn rhai achosion, ymgorfforwyd dangosyddion ychwanegol yn benodol i ymdrin â rhai o amcanion yr AC.

**11.0.4** Mae pob amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, a chyflwynir y canfyddiadau yn yr adrannau isod. Defnyddiwyd y côd lliwiau canlynol i roi crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau pob dangosydd:

	Effeithiau Cyffredinol Gadarnhaol
	Effeithiau Cymysg
	Effeithiau Cyffredinol Negyddol
0	Effaith Niwtral

### 11.1 Thema 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd

**Amcan 1A yr AC: Sicrhau bod pob datblygiad yn rhoi sylw i newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl newid yn yr hinsawdd (Addasu)**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
5	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 os nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15	Ni phenderfynwyd ar geisiadau ar gyfer datblygiadau oddi mewn i barth llifogydd DAM C1 yn groes i ofynion TAN15	

20 www.npt.gov.uk/1777

21 Tabl 6.2 Cynllun Datblygu Lleol CBS Castell-nedd Port Talbot (Ionawr 2016).

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
6	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2	Mae tri phenderfyniad yn caniatáu datblygiad hynod fregus oddi mewn i barth llifogydd C2 yn groes i ofynion TAN15	
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 7 cais oddi mewn i'r ardaloedd perthnasol dynodedig, ond nid oedd yr un ohonynt yn groes i bolisi'r CDLI	

### Dadansoddi

#### ***Dangosyddion 5 a 6: Datblygiadau oddi mewn i ardaloedd lle mae perygl llifogydd***

**11.1.1** At ei gilydd, ni chaniatawyd datblygiadau oddi mewn i ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ond lle maent yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol fel y nodir yn TAN15, gan sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau o'r fath wedi'u cyfyngu i gynigion nad ydynt ar gyfer defnyddiau 'hynod fregus' neu eu bod mewn ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol lle mae amddiffynfeydd digonol yn eu lle rhag llifogydd, a lle cynhaliwyd asesiadau llawn o ganlyniadau tebygol llifogydd. Serch hynny, cymeradwywyd tri chais ar gyfer datblygiadau hynod fregus mewn ardaloedd heb eu hamddiffyn lle ceir perygl llifogydd.

**11.1.2** Mae risg gynyddol tywydd mwy eithafol a nifer mwy o achosion o lifogydd, a rhai mwy difrifol, yn newid a ragwelir yn sgîl newid yn yr hinsawdd, ac o ganlyniad mae'n bwysig y dylai'r broses gynllunio atal cyflwyno defnyddiau bregus pellach i ardaloedd lle ceir risg llifogydd, os na ellir cyfiawnhau hynny.

**11.1.3** Nid yw'r tri datblygiad hwn, felly, yn ymdrin â'r angen am sicrhau bod newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl newid yn yr hinsawdd yn derbyn sylw yn unol ag Amcan 1A. Mae'r mater hwn wedi cael ei nodi hefyd fel rhan o'r gwaith o fonitro'r CDLI, lle dywedir y bydd trafodaethau pellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu i roi sylw i'r mater hwn. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro er mwyn sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso.

#### ***Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd a ddynodwyd***

**11.1.4** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â chynigion mewn ardaloedd lle mae rheolaeth lymach ar ddatblygiad nag mewn mannau eraill, am resymau tirlun a chynaliadwyedd, gan gynnwys yr angen am sicrhau gwydnwch yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Er bod saith cais wedi'u cymeradwyo mewn ardaloedd o'r fath, mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â gofynion polisi'r CDLI, a bernir bod y cynllun yn cael effaith gyffredinol positif yng nghyswllt y dangosydd hwn.

### Amcan 1B yr AC: Cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (Lliniaru)

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASCA.	O'r 44 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASCA, roedd 22 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (50% yn cydymffurfio)	
2	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASC	O'r 33 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASC, roedd 9 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (27% yn cydymffurfio)	
3	Swm y tir maes glas oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI	Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi	O'r 28 o geisiadau a gymeradwywyd ar dir maes glas, roedd 9 ar safleoedd oedd heb eu dyrannu. Roedd modd cyfiawnhau pob un o'r rhain o gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol pob achos	
4	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi ar safleoedd sydd wedi'u diogelu ar gyfer cludo nwyddau	Cymeradwywyd 1 cais mewn lleoliad cludo nwyddau. Fodd bynnag, nid oedd y defnydd arfaethedig yn peryglu datblygiad y derfynell nwyddau reilffordd yn y dyfodol	
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Aseiad Ynni Adnewyddadwy	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cyflawnodd 4 cais y gofynion o ran cyflwyno AYA. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr un. Darparwyd peth cyfiawnhad am hynny mewn un achos, ond ni roddwyd dim yn achos y lleill	
SA1	ôl-troed carbon CNPT (tCO <sub>2</sub> e y pen)	Gostyngiad blynyddol	10.85 tCO <sub>2</sub> e y flwyddyn (2011) <sup>(22)</sup>	0
SA2	Defnydd CNPT o Nwy (kWh y pen)	Gostyngiad blynyddol	13,039 kWh y flwyddyn (2013) <sup>(23)</sup>	0

22 Olion traed Ecolegol a Charbon Cymru - Diweddariad hyd at 2011 (Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm a GHD) (Gorffennaf 2015)

23 Cynhyrchu a Defnyddio Ynni yng Nghymru, 2013 (SB/11/2015 Statistics for Wales)

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
SA3	Defnydd CNPT o Drydan (kWh y pen)	Gostyngiad blynyddol	3,368 kWh y flwyddyn (2013) <sup>(24)</sup>	0

### Dadansoddi

#### **Dangosyddion 1 a 2: Dwysedd preswyl**

**11.1.5** Mae targedau monitro'r CDLI ar gyfer y dangosyddion hyn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd, a dadansoddir y canlyniadau mewn perthynas â'r targedau hynny yn Adran 4.1. Cyflwynir y cyflawniadau dwysedd cyffredinol ar bob safle yn y tabl uchod, a chyflawnwyd y gofyniad dwysedd mewn 50% o'r achosion yn yr ASCA a 27% o achosion yn yr ASC.

**11.1.6** Mae datblygiad dwysedd uwch yn awgrymu defnydd mwy effeithlon o adnodd terfynadwy (tir) ac esblygiad aneddiadau mwy effeithlon a chynaliadwy yn gyffredinol, gyda photensial i ddarparu mwy o gyfleusterau lleol a mynediad iddynt. O ganlyniad, dylai hyn arwain at leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â'r amcan.

**11.1.7** O ran y goblygiadau i amcan yr AC, mae'r ffigurau a gyflawnwyd yn dangos diffyg sylweddol yn y dwyseddau preswyl o'u cymharu â'r hyn sy'n ofynnol yn y polisi. Fel y dangoswyd yn Adran 4.1, mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) bellach wedi'u cyflwyno i roi gwybodaeth bellach i ymgeiswyr a llunwyr penderfyniadau ynghylch gofynion polisi'r CDLI, a bydd y dangosyddion hyn yn parhau i gael eu monitro er mwyn asesu cymhwysiad y polisi.

#### **Dangosydd 3: Datblygiad ar dir maes glas**

**11.1.8** Yn gyffredinol, mae datblygu tir 'maes glas' (h.y. tir nad yw wedi'i ddatblygu'n flaenorol) yn llai cynaliadwy nag aildefnyddio safleoedd tir llwyd, yn arbennig o ran defnyddio adnoddau terfynadwy a cholli mannau mwy naturiol ac amrywiol sydd â rôl bwysig i'w chwarae wrth liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy gymedroli tymheredd ac amsugno carbon, ymhlith ffactorau eraill.

**11.1.9** Lle datblygwyd tir maes glas, digwyddodd hynny naill ai'n unol â dyraniadau'r CDLI neu â'r polisiâu perthnasol yn y cynllun, ac o bwysu a mesur, bernir bod y dangosydd hwn yn cyflawni gofynion y targed ac yn cyfrannu at leiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr.

#### **Dangosydd 4: Datblygiad ar gyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd**

**11.1.10** Mae cyfleusterau nwyddau presennol yn cael eu diogelu gan y CDLI er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw at ddefnydd yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol. Dylai'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli barhau ar gael, felly, yn hytrach na bod y cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu lleihau, gan arwain yn aml at ddefnyddio dewisiadau amgen llai

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

cynaliadwy (fel arfer trafndiaeth ar y ffordd). O ganlyniad, at ei gilydd dylai'r polisi gyfrannu at leiafu'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, yn unol â'r amcan. Ni chymeradwywyd dim cynigion yn groes i bolisi'r CDLI mewn perthynas â chyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.

### **Dangosydd 75: Ceisiadau y cyflwynwyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy gyda hwy**

**11.1.11** Mae Polisi RE2 yn y CDLI yn gofyn bod datblygiadau uwchlaw trothwyon maint penodedig yn cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy, a bod canfyddiadau'r asesiad yn cael eu gweithredu lle bo hynny'n ddichonadwy. Mae'r ddarpariaeth hon yn golygu bod gosod a/neu ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy neu garbon isel yn ofyniad lle bo hynny'n briodol, a bod manteision yn sgîl hynny o ran lleihau'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, yn unol â'r amcan hwn.

**11.1.12** Fel y nodwyd yn y tabl uchod ac yn Adran 8.5, nid yw'r polisi wedi cael ei weithredu'n unol â'r bwriad, ac nid yw felly'n cael y canlyniadau cadarnhaol a ddisgwylid. Ymdrinnir â hyn trwy drafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu a chyflwyno'r CCA Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel, sy'n darparu canllawiau manylach ynghylch gweithredu'r polisi.

### **Dangosydd SA1: Ôl-troed carbon CNPT**

**11.1.13** Mae'r ôl-troed carbon yn disgrifio swm ffisegol y nwyon tŷ gwydr a allyrir i'r atmosffer, ac mae'r ffigur a ddyfynnir yn cyfeirio at yr allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2011. Mae'r ffigur yn cynnwys pob un o'r chwe nwy tŷ gwydr sy'n destun Protocol Kyoto<sup>(25)</sup> wedi'u mynegi ar ffurf sy'n cyfateb i dunelli o garbon deuocsid (t CO<sub>2</sub>e). Mae'r ffigur yn cynnwys allyriadau uniongyrchol o ffynonellau a leolir yng Nghymru, yn ogystal ag mewn cadwyni cyflenwi rhyngwladol. Mae ffigur Castell-nedd Port Talbot yn is na Chyfartaledd Cymru, sef 11.11 tCO<sub>2</sub>e.

**11.1.14** Y ffigur a ddyfynnir o ran ôl-troed carbon yw'r un mwyaf diweddar sydd ar gael, ac mae'n ffigur gwaelodlin y gellir cymharu ffigurau'r dyfodol ag ef.

### **Dangosyddion SA2 ac SA3: Defnydd CNPT o nwy a thrydan**

**11.1.15** Mae'r defnydd o nwy a thrydan y pen yn ddau fesur pellach o effeithiau poblogaeth Castell-nedd Port Talbot ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae ffigur defnydd nwy Castell-nedd Port Talbot yn agos iawn at ffigur cyfartalog Cymru, sef 13,029 kWh, tra bod y trydan o dan ffigur cyfartalog Cymru, sef 13,736 kWh.

25 Carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>), methan (CH<sub>4</sub>), ocsid nitraidd (N<sub>2</sub>O), hydrofflorogarbonau (HFC), perfflorogarbonau (PFC) a sylffwr hecsafflorid (SF<sub>6</sub>).

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.1.16** Fel yn achos dangosydd SA1, y ffigurau a ddyfynnir yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac maent yn ffigur gwaelodlin y gellir cymharu ffigurau'r dyfodol ag ef.

### Amcan 1C yr AC:Gwneud cyfraniad priodol yr ardal i gynhyrchu ynni cenedlaethol (Lliniaru)

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
74	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel	Cyrraedd targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog, lle bo hynny'n briodol, datblygu pob math ar ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel	Cymeradwywyd tri chynllun ynni carbon isel/adnewyddadwy, gyda chyfanswm capasiti cynhyrchu o 5.56 MW	
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cyflawnodd 4 cais y gofynion o ran cyflwyno AYA. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr un. Darparwyd peth cyfiawnhad am hynny mewn un achos, ond ni roddwyd dim yn achos y lleill	

### Dadansoddi

#### ***Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel***

**11.1.17** Cymeradwywyd nifer cymharol fach o gynigion ynni adnewyddadwy / ynni carbon isel yn ystod y cyfnod monitro hwn, gyda chyfanswm capasiti cynhyrchu o 5.56 MW. Fodd bynnag, bydd pob un o'r rhain yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynhyrchiant ynni'r ardal, gan helpu i leihau'r allyriadau nwyon ty gwydr a chyflawni gofynion yr amcan hwn.

#### ***Dangosydd 75: Ceisiadau y cyflwynwyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy gyda hwy***

**11.1.18** Cyfeirier at Amcan 1B uchod.

### 11.2 Thema 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff

### Amcan 2A yr AC: Lleiafu'r colli neu'r diraddio ar adnoddau naturiol, ochr yn ochr â sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy'n unig

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar	O'r 44 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASCA, roedd 22	



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASCA.	ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (50% yn cydymffurfio)	
2	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASCA.	O'r 33 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASC, roedd 9 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (27% yn cydymffurfio)	
3	Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI	Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi	O'r 28 o geisiadau datblygu a gymeradwywyd ar dir maes glas, roedd 9 ar safleoedd oedd heb eu dyrannu. Roedd modd cyfiawnhau pob un o'r rhain o gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol pob achos	
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd tri chais ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i Bolisi SC1, dau oherwydd bod caniatâd cynllunio 'byw' eisoes yn bodoli ar gyfer cynigion tebyg y gellid eu gweithredu ar y safleoedd, ac un yn sgîl derbyn y dylid rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau perthnasol nag ar bolisi'r CDLI	
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr	Bydd datblygiad newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol	Er bod nifer o geisiadau wedi arwain at sicrhau seilwaith newydd neu well, nid oes dim ohonynt wedi sicrhau gwelliannau penodol i adnoddau naturiol trwy gyfraniadau datblygwyr.	0
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 7 cais oddi mewn i'r ardaloedd perthnasol dynodedig, ond nid oedd yr un ohonynt yn groes i'r polisi	
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwyd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i'r safleoedd dynodedig	
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni	Cymeradwywyd 1 cais yn yr ARhAA, ac roedd yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd		
70	<p><i>Dangosydd Craidd:</i> Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN)</p> <p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyflenwad tir agregau</p>	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun		
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar weithio unrhyw adnodd mwynau yn y dyfodol	
72	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu agregau mwynau yn cydweddu â Pholisi M2	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chyflwynwyd ceisiadau am echdynnu glo yn ystod y cyfnod monitro	
73	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oedd yn groes i Bolisi M3	
SA4	Swm y datblygiad ar dir amaethyddol o ansawdd uchel	Dim ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd dau gais sylweddol ar dir amaethyddol o ansawdd uwch (gradd 1, 2 neu 3), un oddi mewn i ddyraniad CDLI ac un ar gyfer fferm solar (datblygiad dros dro na ddylai gael effaith sylweddol ar ansawdd amaethyddol y tir yn yr hirdymor)	

Cynllun Datblygu Lleol: Adroddiad Monitro Blynyddol (Hydref 2017)

### Dadansoddi

**11.2.1** Dengys mwyafrif y dangosyddion fod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol yng nghyswllt yr amcan hwn. Fodd bynnag, nodir effeithiau cymysg yng nghyswllt tri dangosydd.

# 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

## Dangosyddion 1 a 2: Dwysedd datblygiad newydd

**11.2.2** Asesir bod Dangosyddion 1 a 2 wedi cael effeithiau cymysg oherwydd bod nifer sylweddol o achosion heb gyrraedd y targed dwysedd. O ganlyniad mae'r safleoedd hyn yn defnyddio tir mewn modd llai cynaliadwy, gan arwain i bob pwrpas at golli adnodd terfynadwy yn ddiangen, yn groes i Amcan 2A yr AC:

**11.2.3** Nodir y mater hwn ym mhroses fonitro'r CDLI (gweler Adran 4.1), a nodir bod CCA wedi'u cyflwyno a ddylai helpu i roi sylw i hyn. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro er mwyn asesu a yw'r dull gweithredu hwn yn gwella gweithrediad y polisi.

## Dangosydd 11: Ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad

**11.2.4** Yn gyffredinol, nod Strategaeth y CDLI yw rheoli lleoliad datblygiadau newydd a'u cyfeirio, lle bo modd, i leoliadau sydd oddi mewn i aneddiadau cynaliadwy presennol, er mwyn lleiafu defnydd neu golli adnoddau naturiol. Mae cymeradwyo datblygiadau y tu allan i derfynau anheddiad sydd heb eu cyfiawnhau'n llawn yn debygol, felly, o fod yn groes i Amcan 2A yr AC: Er bod mwyafrif y ceisiadau wedi derbyn sylw yn unol â'r polisi, mae cymeradwyo tri chais sy'n groes i'r fframwaith polisi yn codi pryderon, felly, yng nghyswllt yr amcan hwn.

**11.2.5** Fel y nodwyd yn Adran 4.3, mae'r mater hwn wedi derbyn sylw wrth fonitro'r CDLI, ac argymhellir trafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu er mwyn canfod y materion perthnasol yn llawn a rhoi sylw i'r mater. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro er mwyn asesu a yw'r dull gweithredu hwn yn gwella gweithrediad y polisi.

### Amcan 2B yr AC: Cynnal a gwella ansawdd cemegol a biolegol/ecolegol adnoddau naturiol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd tri chais ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i Bolisi SC1, dau oherwydd bod caniatâd cynllunio 'byw' eisoes yn bodoli ar gyfer cynigion tebyg y gellid eu gweithredu ar y safleoedd, ac un yn sgîl derbyn y dylid rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau perthnasol nag ar bolisi'r CDLI	
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i'r safleoedd dynodedig	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
SA5	% y cyrff dŵr â statws dosbarthiad 'da' neu uwch CNC	Gwelliant blynyddol o ran statws dosbarthiad	Oddi mewn i Ddalgyrch Rheoli Tawe i Langatwg, mae statws dosbarthiad cyffredinol dda gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb, mae 52% yn gymedrol, ac mae statws 5% yn gyffredinol wael. Nid oes cyrff dŵr sydd â statws cyffredinol uchel neu ddrwg (Dosbarthiad 2015).  (26)	0

### Dadansoddi

#### Dangosydd 11: Ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad

**11.2.6** Cyfeirir at 11.2.4 ac 11.2.5 uchod.

#### Dangosydd SA5: Statws dosbarthiad cyrff dŵr yn ôl CNC

**11.2.7** Dengys ffigurau CNC ar gyfer 2015 fod gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb yn nalgylch Tawe i Langatwg (sy'n cynnwys rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr yn ogystal â Chastell-nedd Port Talbot) statws dosbarthiad da neu uwch. Y ffigurau a ddyfynnwyd yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac mae'n creu ffigur gwaelodlin y gellir cymharu gwybodaeth y dyfodol ag ef.

### Amcan 2C yr AC: Lleihau gwastraff a lleihau'r symiau o wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
77	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle (SWMP)	Dylai'r holl gynigion datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle	Roedd pum cynnig datblygu yn cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 yn ystod y cyfnod monitro. Caniatawyd dau heb SWMP, ond roeddent yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi.	
78	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth	Sichrau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff	Ni dderbyniwyd/chymeradwywyd ceisiadau cysylltiedig â gwastraff yn ystod y cyfnod monitro oedd yn gysylltiedig â thir cyflogaeth a ddyrannwyd a/neu a ddiogelwyd	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
79	Swm y tir a'r cyfleusterau ar gyfer darparu ar gyfer gwastraff yn CNPT	Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbartol yn unol â TAN 21)	Rhoddwyd caniatâd ar gyfer un cyfleuster gwaredu gwastraff trydanol yn ystod y cyfnod monitro, ond roedd hynny ar ben y safleoedd a nodwyd yn y CDLI, felly cynhaliwyd tir a chyfleusterau digonol. Bernir bod tir a chyfleusterau digonol ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio gyda'r deilliannau gwastraff	
SA6	% LACW <b>(27)</b>  a aildddefnyddiwyd / ailgylchwyd / gompostiwyd	Cynnydd blynyddol	Cafodd 58.1% o LACW CNPT ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod 2014/15 <b>(28)</b>	<b>0</b>

### Dadansoddi

**11.2.8** Mewn perthynas ag Amcan 2C yr AC, er nad yw'r CDLI yn cael effaith gynradd ar faterion gwastraff, mae'r dangosyddion uchod yn awgrymu'n gyffredinol bod polisiau perthnasol y cynllun yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd.

***Dangosydd SA6: Canran y Gwastraff a Gesglir yn yr Awdurdod Lleol (LACW) sy'n cael ei aildddefnyddio / ei ailgylchu / ei gompostio***

**11.2.9** Mae'r ffigurau LACW sydd ar gael yn dangos bod cynnydd cyson wedi digwydd yn lefel y gwastraff sy'n cael ei aildddefnyddio / ailgylchu / gompostio ers 2006, ac mae'r ffigur ar gyfer 2014/15 yn dangos bod hynny bellach ymhell dros hanner yr holl ddeilliannau LACW. Y ffigur a ddyfynnwyd yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac mae'n creu ffigur gwaelodlin y gellir cymharu gwybodaeth y dyfodol ag ef.

### 11.3 Thema 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

#### Amcan 3A yr AC: Atal unrhyw golledion net pellach o ran bioamrywiaeth

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni dderbyniwyd/chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na	

27 Gwastraff a Gesglir yn yr Awdurdod Lleol

28 Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (Rhanbarth De-orllewin Cymru 2016)

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	geomrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi		geomrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro	
SA7	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd SINC a nodwyd, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Dim monitro	0
SA8	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n arwain at golled weddilliol <sup>(1)</sup> o ran cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar rywogaethau pwysig <sup>(2)</sup>	Ni chafwyd colledion gweddilliol o ran cynefinoedd neu rywogaethau pwysig	Dim monitor	

1. Cymryd mesurau lliniaru/gwneud iawn i ystyriaeth.
2. S7 Cynefinoedd a rhywogaethau, cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) a nodweddion naturiol pwysig fel y nodwyd ym Mholisi EN7.

### Dadansoddi

**11.3.1** Mewn perthynas ag Amcan 3A yr AC, mae Dangosydd 64 yn awgrymu bod y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

***Dangosydd SA7: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd SINC a nodwyd, yn groes i'r fframwaith polisi a Dangosydd SA8: Ceisiadau'n arwain at golled weddilliol o ran cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar rywogaethau pwysig***

**11.3.2** Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosyddion hyn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwybodaeth berthnasol yn dod ar gael yn y dyfodol, yn dilyn cyhoeddi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ac eglurhad pellach ynghylch dynodiad safleoedd SINC ac adnabod nodweddion bioamrywiaeth pwysig.

**Amcan 3B yr AC: Manteisio ar bob cyfle rhesymol i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi	Sicrhodd un cais gyllid ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth er mwyn rhoi sylw i effeithiau'r datblygiad	
SA9	Ardal gynefin S7 /SINC a grewyd ac a sicrhawyd trwy benderfyniadau cynllunio	Cynnydd blynyddol	Dim monitro	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

### Dadansoddi

**Dangosydd 12: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr**

**11.3.3** Rhoddwyd sylw i effeithiau datblygiad newydd ar fioamrywiaeth yn ystod y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ym mhob achos lle roedd hynny'n berthnasol. Mewn un achos, sicrhawyd cyllid trwy gytundeb A106 i roi sylw i'r effeithiau ar fioamrywiaeth. At ei gilydd, bernir bod polisïau'r CDLI yn cael effaith gadarhaol yng nghyswllt yr amcan hwn.

**Dangosydd SA9: Ardal gynefin S7 /SINC a grewyd ac a sicrhawyd trwy benderfyniadau cynllunio**

**11.3.4** Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Rhagwelir y bydd gwybodaeth berthnasol yn dod ar gael yn y dyfodol, yn dilyn cyhoeddi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ac eglurhad pellach ynghylch dynodiad safleoedd SINC ac adnabod nodweddion bioamrywiaeth pwysig, a hefyd ddefnyddio'r weithdrefn gwneud iawn am fioamrywiaeth.

**Amcan 3C yr AC: Lleiafu'r effeithiau niweidiol ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i'r safleoedd dynodedig	

### Dadansoddi

**11.3.5** Mewn perthynas ag Amcan 3C yr AC, mae'r dangosydd perthnasol yn dangos bod y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.



# 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwydd

## 11.4 Thema 4 yr AC: Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol

### Amcan 4A yr AC: Amddiffyn a/neu wella tirlun a threflun yr ardal

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
8	Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Gwrthodwyd 6 chynnig sylweddol am resymau dylunio	
62	The number of applications permitted within the undeveloped coast, special landscape areas and green wedges contrary to the policy framework	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 7 cais oddi mewn i'r ardaloedd perthnasol dynodedig, ond nid oedd yr un ohonynt yn groes i'r polisi	
85	The number of applications permitted impacting upon buildings and features of local, architectural or cultural importance	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 6 chynnig sylweddol oedd yn effeithio ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol, y cyfan yn unol â'r polisi	
87	The number of applications permitted within Conservation Areas and other designated sites	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 7 cynnig sylweddol oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth, y cyfan yn unol â'r fframwaith polisi	

### Dadansoddi

**11.4.1** Mewn perthynas ag Amcan 4A yr AC, dengys y dangosyddion perthnasol fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

### Amcan 4B yr AC: Amddiffyn a/neu wella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys adnoddau pensaernïol ac archaeolegol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Outcome
85	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 6 chynnig sylweddol oedd yn effeithio ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol, y cyfan yn unol â'r polisi	



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Outcome
87	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 7 cynnig sylweddol oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth, y cyfan yn unol â'r fframwaith polisi	

### Dadansoddi

**11.4.2** Mewn perthynas ag Amcan 4B yr AC, dengys y dangosyddion perthnasol fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitor.

### 11.5 Thema 5 yr AC: Llygredd

#### Amcan 5A yr AC: Cyflawni lefelau derbyniol (bodloni safonau cenedlaethol/Ewropeaidd) o ran ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd	Cymeradwywyd 1 cais yn yr ARhAA, ac roedd yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi	
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith	Ni ddylid gweld unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno	Caniatawyd 1 cynnig o fewn yr ARhAA, a chyflwynwyd Cynllun Rheoli Adeiladwaith gydag ef	
81	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot	Cyflawni'r prosiect erbyn 2018	Nid yw'r canolbwynt trafndiaeth integredig ym Mhort Talbot wedi'i gwblhau, ond mae'n dal i ddilyn yr amserlen	0
83	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam	Cyflawni'r prosiect erbyn 2020	Rhagwelir y bydd y cyfleuster Parcio a Rhannu wedi'i gwblhau erbyn 2020	0
SA10	Achosion o dorri'r amcanion Ansawdd Aer	Dim achosion o dorri'r Amcanion Ansawdd Aer	Mae'r crynodiadau o hydrogarbonau polyaromatig yn torri amcan y Deyrnas Unedig, ond yn cydymffurfio â tharged yr UE.	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
			Mae'r crynodiadau nicel yn torri targed yr UE mewn dau leoliad	
SA11	Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yn CNPT	Dim cynnydd yn nifer na chwmpas yr ARhAAoedd	Mae 1 ARhAA yn CNPT, sef Taibach / Margam	0

### Dadansoddi

**11.5.1** Mewn perthynas ag Amcan 5A yr AC, dengys y dangosyddion fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

### ***Dangosydd SA10: Amcanion ansawdd aer yr LAQM***

**11.5.2** Mae'r wybodaeth fonitro sydd ar gael ar gyfer ansawdd aer <sup>(29)</sup> yn cyfeirio at y ffigurau ar gyfer 2016. Bydd yr wybodaeth a roddir, felly, yn darparu sefyllfa waelodlin y gellir cymharu canlyniadau'r dyfodol â hi. Ar draws mwyafrif y Fwrdeistref Sirol, cyflawnwyd yr amcanion ansawdd aer ar gyfer pob math o lygredd aer oedd yn cael ei fonitro, gydag eithriadau fel y rhestrwyd yn y tabl uchod.

### ***Dangosydd SA11: Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot***

**11.5.3** Cyhoeddwyd ARhAA Taibach / Margam gan y Cyngor yn 2000 mewn perthynas â phryderon ynghylch PM<sub>10</sub> (mân ronynnau). Fel uchod, mae'r wybodaeth a ddyfynnwyd yn cyfeirio at 2016, ac felly mae'n darparu sefyllfa waelodlin y gellir cymharu canlyniadau'r dyfodol â hi. Bu tuedd gyffredinol tuag at niferoedd llai o achosion o fynd dros y terfyn o ran y safon PM<sub>10</sub>, sef 50mg/m<sup>3</sup> ers 1999, er bod 2015 yn flwyddyn wael. Yn ystod 2016 cafwyd 8 diwrnod o fynd dros y terfyn, sydd ymhell o dan yr Amcan Ansawdd Aer, sef 35 achos o fynd dros y terfyn fesul blwyddyn. Mae'r ARhAA yn dal mewn grym ar hyn o bryd.

### **Amcan 5B yr AC: Cyflawni lefelau sŵn derbynol ac amddiffyn ardaloedd tawel ar draws y Fwrdeistref Sirol**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau mewn unrhyw Ardal Dawel.	
SA12	Nifer a chwmpas dynodiadau'r Ardal Flaenoriaeth Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn (NAPPA) yn CNPT	Dim cynnydd yn nifer na chwmpas y NAPPA	Mae 11 NAPPA ar gyfer ffyrdd a 3 ar gyfer rheilffyrdd yn CNPT	0

# 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

## Dadansoddi

**11.5.4** Mewn perthynas ag Amcan 5B yr AC, dengys y dangosyddion perthnasol fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

### **Dangosydd SA12:Nifer a chwmpas y dynodiadau NAPPA**

**11.5.5** Mae NAPPA wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru o dan Gyfarwydddeb Sŵn Amgylcheddol Ewrop, ac maent yn ardaloedd a nodwyd ar sail nifer yr eiddo yr effeithir arnynt gan lefelau sylweddol o sŵn yn yr amgylchedd <sup>(30)</sup> Mae'r wybodaeth a roddir uchod yn ymwneud â Chynllun Gweithredu ynghylch Sŵn 2013-2018, a bydd yn darparu gwaelodlin ar gyfer cymharu canlyniadau'r dyfodol.

### 11.6 Thema 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol

#### **Amcan 6A yr AC: Gwella cydlyniant cymdeithasol a lleihau'r achosion o eithrio cymdeithasol drwy ymdrin ag achosion eithrio cymdeithasol**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi	Arweiniodd 10 cais a gymeradwywyd at 'golli' cyfleuster cymunedol. Nid yw'r un ohonynt yn achos o golli'r cyfleuster olaf o'i fath yn yr ardal leol. Arweiniodd 2 gais a gymeradwywyd at golli mannau agored, a gwnaed darpariaeth amgen	
10	Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 1 cynnig pwysig mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Gallai'r lleoliad y tu allan i ganol y dref gael effaith rywfaint yn niweidiol ar gydlyniant cymunedol trwy leihau hyfywedd canolfannau presennol	
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd tri chais ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i Bolisi SC1, dau oherwydd bod caniatâd cynllunio 'byw' eisoes yn bodoli ar gyfer cynigion tebyg y gellid eu gweithredu ar y safleoedd, ac un yn sgîl derbyn y dylid rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau perthnasol nag ar bolisi'r CDLI	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
14	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 5,690 o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun  Targedau Blynyddol: 2011/12: 152 2012/13: 134 2013/14: 216 2014/15: 268 2015/16: 318 2016/17: 379 2017/18: 495 2018/19: 553 2019/20: 518 2020/21: 513 2021/22: 502 2022/23: 468 2023/24: 412 2024/25: 387 2025/26: 375	Mae'r broses o gyflenwi dyraniadau H1 oddi mewn i goridor yr arfordir wedi syrthio o dan y targedau, ond gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf, nid yw hynny'n golygu ei fod wedi cyrraedd y pwynt sbarduno wrth fonitro'r CDLI. Gallai unrhyw ostyngiad estynedig sylweddol wrth gyflwyno tai newydd gael effeithiau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol	
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020	Mae elfennau twristiaeth/hamdden y datblygiad yn cadw at y targed yn gyffredinol. Mae cyflogaeth leol ychwanegol yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar y gymuned bresennol yn Sandfields	
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 1,435 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun  Targedau Blynyddol: 2011/12: 61 2012/13: 108 2013/14: 44 2014/15: 60 2015/16: 90 2016/17: 112 2017/18: 92 2018/19: 75 2019/20: 122 2020/21: 125 2021/22: 117 2022/23: 117 2023/24: 112 2024/25: 126 2025/26: 74	Cyrhaeddwyd y targedau cyffredinol, ac mae effeithiau cadarnhaol yn debygol trwy gryfhau cymunedau presennol y cymoedd	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
32	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 664 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun  Targedau Blynnyddol: 2011/12: 0 2012/13: 46 2013/14: 30 2014/15: 38 2015/16: 65 2016/17: 92 2017/18: 72 2018/19: 50 2019/20: 66 2020/21: 50 2021/22: 40 2022/23: 40 2023/24: 35 2024/25: 40 2025/26: 0	Bu rhywfaint o ostyngiad yn y tai a ddarparwyd, ond mae'r effeithiau cyffredinol yn debygol o fod yn gadarnhaol trwy gryfhau'r cymunedau sydd eisoes yn bodoli.	
33	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 264 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun  Targedau Blynnyddol: 2011/12: 5 2012/13: 0 2013/14: 9 2014/15: 2 2015/16: 0 2016/17: 0 2017/18: 0 2018/19: 0 2019/20: 21 2020/21: 45 2021/22: 37 2022/23: 37 2023/24: 37 2024/25: 36 2025/26: 35	Cyrhaeddwyd y targedau cyffredinol, ac mae effeithiau cadarnhaol yn debygol trwy gryfhau cymunedau presennol	
34	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2020/21	Dim datblygiad hyd yma, ond mae'r cynnig yn dal i gadw at y targed	0
37	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir	Hyd yma, ni chaniatawyd cynigion bywyd/gwaith	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021	Er na chymeradwywyd datblygiad hyd yma, mae'r cynnig yn dal i gadw at y targed, ac mae swyddi twristiaeth newydd yn yr ardal yn debygol o wella cynhwysiad cymdeithasol	
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	<p>Darperir cyfanswm o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12: 262</p> <p>2012/13: 287</p> <p>2013/14: 301</p> <p>2014/15: 386</p> <p>2015/16: 486</p> <p>2016/17: 549</p> <p>2017/18: 625</p> <p>2018/19: 686</p> <p>2019/20: 698</p> <p>2020/21: 676</p> <p>2021/22: 647</p> <p>2022/23: 614</p> <p>2023/24: 553</p> <p>2024/25: 542</p> <p>2025/26: 488</p>	Er bod lefelau cwblhau tai yn is na'r targed blynyddol, disgwylir y bydd cyfradd cyflwyno tai yn cynyddu'n sylweddol, gydag effeithiau cadarnhaol ar gynhwysiad cymdeithasol yn gyffredinol ar draws ardal yr ACLI	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Cyflawni 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 7 2012/13: 5 2013/14: 22 2014/15: 37 2015/16: 72 2016/17: 90 2017/18: 115 2018/19: 130 2019/20: 124 2020/21: 120 2021/22: 111 2022/23: 102 2023/24: 90 2024/25: 89 2025/26: 86	O dan y targed ar hyn o bryd, ond disgwylir i gyfradd darparu Tai Fforddiadwy gynyddu. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf nid yw hynny'n golygu ei fod wedi cyrraedd y pwynt sbarduno ar gyfer monitro'r CDLI. Gallai unrhyw ostyngiad estynedig sylweddol wrth gyflwyno tai newydd gael effeithiau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol	
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored	Ni chyflawnwyd y targed ar gyfer darparu mannau agored ym mhob achos. Mae diffyg darpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd yn debygol o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol yn lleol	
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi	Bu rhai achosion cyfyngedig o golli mannau agored presennol, mewn perthynas â 2 gais. Fodd bynnag, yn y ddau achos sicrhawyd darpariaeth amgen, gan leiafu'r effeithiau ar gynhwysiad cymdeithasol	<b>0</b>

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
52	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr	<p>Prif Darged:</p> <p>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026</p> <p>Targedau Interim:</p> <p>2011/14: 7,000 m.sg. 2014/17: 7,000 m.sg. 2017/20: 7,000 m.sg. 2020/23: 7,000 m.sg. 2023/26: 7,000 m.sg.</p> <p>Targed Blynyddol: Datblygu cyfartaledd o 2,250 m.sg. o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cronol o 4,500 m.sg. i'w datblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd</p>	Gweler adran 7.1 am fanylion ynghylch y dangosydd hwn. Er bod lefel yr arwynebedd llawr newydd ar gyfer cyflogaeth wedi syrthio o dan y targed, dengys dangosyddion cyflogaeth eraill yn yr AMB fod proffil economaidd CNPT wedi gwella'n sylweddol, sy'n dangos bod swm yr arwynebedd llawr y rhagwelwyd yn wreiddiol bod angen amdano heb fod yn angenrheidiol i gynnal creu swyddi newydd	
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Caniatawyd 1 cais ar gyfer datblygiad manwerthu ar raddfa fach, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar gydlyniant cymunedol yn lleol	
88	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu leithyddol	Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg	Dim ond 1 o blith nifer o geisiadau sy'n cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. Yn gyffredinol, mae peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn yn debygol o gael effaith negyddol o safbwynt Amcan 6A yr AC	

### Dadansoddi

**11.6.1** Dengys mwyafrif y dangosyddion fod y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Rhoddir sylw manylach isod i ddangosyddion lle gwelir effaith ansicr, gymysg neu negyddol yng nghyswllt Amcan 6A yr AC.

#### ***Dangosydd 7: Colli mannau agored a chyfleusterau cymunedol***

**11.6.2** Mae colli mannau agored neu gyfleusterau cymunedol eraill yn debygol o gael effaith negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol trwy leihau nifer ac ystod y lleoedd yn y gymuned lle mae pobl yn ymgynnull neu'n cwrdd yn anffurfiol ac yn gwneud gweithgareddau cymunedol. Fel y nodwyd uchod, bu nifer o achosion lle rhoddwyd caniatâd cynllunio a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau o'r fath. Fodd bynnag, ym mhob achos, dylai dewisiadau amgen barhau ar gael yn y gymuned dan sylw.



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.6.3** Mae colli cyfleusterau yn codi pryderon yng nghyswllt Amcan 6A yr AC, ond rhaid cydnabod na all rheoli datblygu trwy'r system gynllunio ond atal newidiadau y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer, ac ni all sicrhau dilyniant defnydd sydd wedi peidio â bod yn ymarferol neu'n boblogaidd. Mae pryderon nad yw pwysigrwydd cyfleusterau cymunedol a goblygiadau eu colli bob amser yn cael eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau, ac mae bwriad i ymdrin â hynny (gweler Adran 4.2) trwy gynyddu ymwybyddiaeth ymhellach. Bydd y mater hwn yn parhau i gael ei fonitro.

### ***Dangosydd 10: Datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden o bwys***

**11.6.4** Gall datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden fod yn gyfleusterau cymunedol ynddynt eu hunain, neu gallant gyfrannu at hyfywedd cymuned oherwydd bod nifer uwch o bobl yn bresennol, a mwy o achosion o ryngweithio yn ystod y dydd. Gall lleoliad defnyddiau o'r fath ddylanwadu ar yr effeithiau o ran cynhwysiad cymdeithasol yn lleol, ac mae polisi cynllunio'n ffafrio bod datblygiadau o'r fath yn cael eu lleoli mewn canolfannau sydd eisoes yn bodoli. Gall hyn helpu i gynnal a gwella canol trefi a phentrefi, gyda manteision i gynhwysiad cymdeithasol yn sgîl hynny.

**11.6.5** Fel y nodwyd, cymeradwywyd un cynnig manwerthu pwysig mewn lleoliad y tu allan i ganol y dref, a allai gael effaith niweidiol ar gynhwysiad cymdeithasol trwy leihau bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau presennol. Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth fanwerthu a gyflwynwyd gyda'r cais yn dangos na ddylai'r cynnig gael effaith niweidiol sylweddol.

### ***Dangosydd 11: Ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad***

**11.6.6** Yn gyffredinol, nod Strategaeth y CDLI yw rheoli lleoliad datblygiadau newydd a'u cyfeirio, lle bo modd, i leoliadau sydd oddi mewn i aneddiadau cynaliadwy presennol, er mwyn adeiladu a chryfhau cymunedau a chynnal cydlyniant cymunedol. Mae achosion o gymeradwyo datblygiadau y tu allan i derfynau anheddiad, oni bai eu bod wedi'u cyfiawnhau'n llawn yn unol â'r polisi, yn annhebygol o fod yn gadarnhaol yng nghyswllt Amcan 6A yr AC. Er bod mwyafrif y ceisiadau wedi derbyn sylw yn unol â'r polisi, mae cymeradwyo tri chais sy'n groes i'r fframwaith polisi yn codi pryderon, felly, yng nghyswllt yr amcan hwn.

**11.6.7** Fel y nodwyd yn adran 4.3 uchod, nodwyd y mater hwn wrth fonitro'r CDLI, ac argymhellir trafodaethau pellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu er mwyn canfod yn llawn y materion perthnasol a rhoi sylw i'r mater. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro er mwyn asesu a yw'r dull gweithredu hwn yn gwella gweithrediad y polisi.

### ***Dangosydd 46: Darparu manau agored ar gyfer datblygiadau newydd***

**11.6.8** At ei gilydd, ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu manau agored mewn perthynas â datblygiadau newydd. Mae argaeledd manau agored yn lleol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin cynhwysiad cymdeithasol trwy ddarparu lle yn y gymuned ar gyfer hamdden a rhyngweithio. Mae diffyg darpariaeth manau agored ar gyfer datblygiadau newydd yn debygol o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol yn lleol. Nodwyd y dangosydd hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLI (gweler

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Adran 6.4), ac mae bwriad i roi sylw i'r materion hyn trwy drafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu a mabwysiadu'r CCA Mannau Agored a Mannau Glas. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

### **Dangosydd 88: Ceisiadau y darparwyd Cynllun Gweithredu leithyddol i gyd-fynd â hwy**

**11.6.9** Dylai paratoi a gweithredu Cynlluniau Gweithredu leithyddol ar gyfer datblygiadau newydd helpu i gryfhau cynhwysiad cymdeithasol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Nodwyd y ffaith nad yw'r gofyniad i geisiadau perthnasol gael eu cyflwyno gyda Chynllun Gweithredu leithyddol yn cael ei gymhwyso'n gyson fel pryder wrth fonitro'r CDLI (gweler Adran 10.2) ac mae bwriad i roi sylw i'r materion hyn trwy drafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu a mabwysiadu'r CCA ar gyfer Datblygiad a'r Iaith Gymraeg. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

### **Amcan 6B yr AC: Amddiffyn a gwella diwylliant a chymeriad cymunedau, gan gynnwys adnoddau diwylliannol a'r iaith Gymraeg**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
85	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 6 chais perthnasol, ond nid yw'r un ohonynt wedi cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol	
87	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 7 chais perthnasol, ond nid yw'r un ohonynt wedi cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol	
88	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu leithyddol	Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr iaith Gymraeg	Dim ond 1 o blith nifer o geisiadau perthnasol sy'n cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. Effeithiau negyddol posibl ar ddiwylliant a chymeriad cymunedau	

### **Dadansoddi**

**11.6.10** Mae'r targedau a bennwyd ar gyfer Dangosyddion 86 ac 87 yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, sy'n awgrymu effaith gadarnhaol o ran yr effeithiau ar ddiwylliant a chymeriad cymunedau. Rhoddir sylw manylach i Ddangosydd 88 isod.

### **Dangosydd 88: Ceisiadau y darparwyd Cynllun Gweithredu leithyddol i gyd-fynd â hwy**

**11.6.11** Mae defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant a chymeriad cymunedau mewn rhai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol. Oddi mewn i'r ardaloedd leithyddol sensitif a nodwyd yn y CDLI, dylid darparu Cynllun Gweithredu leithyddol i gyd-fynd â

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

chynigion ar gyfer datblygiadau ar raddfa fwy, yn nodi'r mesurau sydd i'w defnyddio i amddiffyn, hybu a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg, yn unol â Pholisi WL1 y CDLI. Fel y nodwyd uchod, nid yw nifer o geisiadau wedi rhoi sylw i'r gofyniad hwn, yn unol â pholisi'r CDLI.

**11.6.12** Nodwyd y mater hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLI (gweler Adran 10.2), ac mae bwriad i roi sylw i'r materion hyn trwy drafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu a mabwysiadu'r CCA Datblygiad a'r iaith Gymraeg. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

### 11.7 Thema 7 yr AC: Iechyd a Llesiant

#### Amcan 7A yr AC: Gwella'r canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i bawb

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net manau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Arweiniodd cymeradwyo 10 cais at 'golli' cyfleuster cymunedol. Nid oedd yr un ohonynt yn achos o golli'r cyfleuster olaf o'i fath yn yr ardal leol. Arweiniodd 2 gais a gymeradwywyd at golli manau agored, ond gwnaed darpariaeth amgen	
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion manau agored y meddianwyr	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored	Caniatawyd nifer sylweddol o gynigion tai heb ofynion o ran darparu manau agored. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r amcan hwn yn yr AC wedi cael sylw llawn yn yr achosion hyn, a bod goblygiadau i iechyd corfforol a meddyliol yn lleol o ganlyniad	
47	Nifer y manau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli manau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi	Bu rhai achosion cyfyngedig o golli manau agored presennol, mewn perthynas â 2 gais. Fodd bynnag, yn y ddau achos sicrhawyd darpariaeth amgen, gan leiafu'r effeithiau ar iechyd	0
49	<i>Dangosydd Lleol:</i> Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT  <i>Dangosyddion Cyd-destunol:</i> Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig;  Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;	Prif Darged:  Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026  Targedau Interim:  2011/14: - 1,458 2014/17: +1,326 2017/20: +1,326 2020/23: +1,326 2023/26: +1,326	Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio yn sgîl rhyddhau ystadegau diweddarach, ond at ei gilydd mae'r enillion net o ran swyddi yn CNPT yn rhagori ar y targed (gweler Adran 7.1)  At ei gilydd, dylai cynyddu lefelau cyflogaeth gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig	Targed Blynyddol: Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd		
53	<i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT  <i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026	Mae cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT wedi codi, tra bod cyfartaledd Cymru wedi gostwng rhywfaint. Dylai gwelliannau o ran gweithgaredd economaidd fod yn gyffredinol gadarnhaol o ran iechyd a llesiant	
54	<i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd diweithdra CNPT  <i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026	Mae cyfradd diweithdra CNPT wedi gostwng, gan ragori ar y targed. Dylai gostwng lefelau diweithdra fod yn gyffredinol gadarnhaol o ran iechyd a llesiant	
61	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell	Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012  Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013  Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012	Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLI wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd a llesiant	
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd	Cymeradwywyd 1 datblygiad sylweddol yn yr ARhAA, a phenderfynwyd arno'n unol â pholisi	0
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith	Ni ddylid gweld unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno	Caniatawyd 1 cais oddi mewn i'r ARhAA, a darparwyd Cynllun Rheoli Adeiladwaith i gyd-fynd ag ef	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniatawyd ceisiadau oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	0
82	Cwblhau'r llwybrau beicio a restrwyd	Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014  Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013	Mae Trywydd Cwm Afan wedi'i gwblhau, a Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau yn rhannol	

### Dadansoddi

**11.7.1** Yn gyffredinol, asesir bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â mwyafrif y dangosyddion. Serch hynny, mae rhai dangosyddion yn dangos canlyniad negyddol neu gymysg, a thrafodir y rheiny isod.

#### ***Dangosydd 7: Colli manau agored a chyfleusterau cymunedol***

**11.7.2** Mae cyfleusterau cymunedol a manau lle gall pobl ymgynnull yn gyffredinol fuddiol i iechyd corfforol a meddyliol pobl, gan eu bod yn caniatáu cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol/adloniadol, ymweld â'r siop leol, cymdeithasu ac ati, felly gall eu colli gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Fel y nodwyd uchod, caniatawyd nifer o geisiadau sydd wedi arwain at golli cyfleusterau cymunedol a manau agored, er nad arweiniodd yr un o'r achosion hynny at golli'r cyfleuster olaf o'i fath yn yr ardal leol.

**11.7.3** Mae colli cyfleusterau yn codi pryder yng nghyswllt Amcan 7A yr AC, ond ni all rheoli datblygu trwy'r system gynllunio ymdrin â cholli cyfleusterau o'r fath lle nad oes angen rhoi caniatâd cynllunio, a lle nad yw cyfleusterau'n ddichonadwy nac yn boblogaidd. Mae rhai pryderon nad yw goblygiadau'r golled bob amser yn cael eu hystyried yn llawn, a rhoddir sylw i hynny yn Adran 4.2 uchod, lle'r awgrymir trafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

#### ***Dangosydd 46: Darparu manau agored ar gyfer datblygiadau newydd***

**11.7.4** At ei gilydd, ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu manau agored mewn perthynas â datblygiadau newydd. Gall sicrhau bod lefel briodol o fannau agored i ddiwallu anghenion y gymuned fod yn fuddiol o ran iechyd corfforol a meddyliol, drwy alluogi pobl i fod yn fwy corfforol actif a bod â lle yn eu hardal leol i ddianc rhag pwysau bywyd beunyddiol. Lle nad yw datblygiad newydd yn gwneud darpariaeth briodol, gall hynny gael effaith ar y gymuned a rhoi pwysau ar y cyfleusterau presennol. Mae diffyg darpariaeth manau agored ar gyfer datblygiadau newydd, felly, yn debygol o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol yn lleol.

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.7.5** Mae diffyg darpariaeth yn codi pryder yng nghyswllt Amcan 7A yr AC. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd rheswm pam na ellid sicrhau darpariaeth, ond nodwyd y dangosydd hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLI (gweler Adran 6.4), ac mae bwriad i roi sylw i'r materion hyn trwy drafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu a mabwysiadu'r CCA Mannau Agored a Mannau Glas. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

### Amcan 7B yr AC: Lleihau/lleiafu achosion ac effeithiau afiechyd trwy roi sylw i achosion a chanlyniadau afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a llesiant gwael

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Arweiniodd cymeradwyo 10 cais at 'golli' cyfleuster cymunedol. Nid yw'r un ohonynt yn achos o golli'r cyfleuster olaf o'i fath yn yr ardal leol. Arweiniodd 2 gais a gymeradwywyd at golli mannau agored, ond gwnaed darpariaeth amgen	
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored	Caniatawyd nifer sylweddol o gynigion tai heb ofynion o ran darparu mannau agored. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r amcan hwn yn yr AC wedi cael sylw llawn yn yr achosion hyn, a bod goblygiadau i iechyd corfforol a meddyliol yn lleol o ganlyniad	
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi	Bu rhai achosion cyfyngedig o golli mannau agored presennol, mewn perthynas â 2 gais. Fodd bynnag, yn y ddau achos sicrhawyd darpariaeth amgen, gan leiafu'r effeithiau ar iechyd	0
49	<i>Dangosydd Lleol:</i> Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT  <i>Dangosyddion Cyd-destunol:</i> Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig;  Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;  Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig	Prif Darged:  Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026  Targedau Interim:  2011/14: - 1,458 2014/17: +1,326 2017/20: +1,326 2020/23: +1,326 2023/26: +1,326  Targed Blynyddol: Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y	Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio yn sgîl rhyddhau ystadegau diweddarach, ond at ei gilydd mae'r enillion net o ran swyddi yn CNPT yn rhagori ar y targed (gweler Adran 7.1)  Dylai cynyddu lefelau cyflogaeth gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant.	



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd		
53	Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio yn sgîl rhyddhau ystadegau diweddarach, ond at ei gilydd mae'r enillion net o ran swyddi yn CNPT yn rhagori ar y targed (gweler Adran 7.1)  Dylai cynyddu lefelau cyflogaeth gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant.	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026	Mae cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT wedi codi, tra bod cyfartaledd Cymru wedi gostwng rhywfaint. Dylai gwelliannau o ran gweithgaredd economaidd fod yn gyffredinol gadarnhaol o ran iechyd a llesiant	
54	<i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd diweithdra CNPT  <i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026	Mae cyfradd diweithdra CNPT wedi gostwng, gan ragori ar y targed. Dylai gostwng lefelau diweithdra fod yn gyffredinol gadarnhaol o safbwynt iechyd	
61	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell	Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012  Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013  Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012	Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLI wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd	
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd	Cymeradwywyd 1 datblygiad sylweddol yn yr ARhAA, a phenderfynwyd arno'n unol â pholisi	0
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith	Ni ddylai fod unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno	Caniatawyd 1 cais oddi mewn i'r ARhAA, a darparwyd Cynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd ag ef	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniatawyd ceisiadau oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	0
82	Cwblhau'r llwybrau beicio a restrwyd	Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014  Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013	Mae Trywydd Cwm Afan wedi'i gwblhau, a Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau yn rhannol	

### Dadansoddi

**11.7.6** **11.7.6** Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â mwyafrif y dangosyddion. Serch hynny, mae rhai dangosyddion yn dangos canlyniad negyddol neu gymysg, a thrafodir y rheiny isod.

#### ***Dangosydd 7: Colli manau agored a chyfleusterau cymunedol***

**11.7.7** Mae cyfleusterau cymunedol a manau lle gall pobl ymgynnull yn gyffredinol fuddiol i iechyd corfforol a meddyliol pobl, gan eu bod yn caniatáu cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol/adloniadol, ymweld â'r siop leol, cael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, cymdeithasu ac ati, felly gall eu colli gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Gall diffyg cyfleusterau o'r fath, neu lefel wael o hygyrchedd, arwain at ynysu cymdeithasol, anallu i gyrchu bwyd iach, ac o ganlyniad gall hynny effeithio ar lesiant pobl. Fel y nodwyd uchod, caniatwyd nifer o geisiadau sydd wedi arwain at gollu cyfleusterau cymunedol a manau agored, er nad arweiniodd yr un o'r achosion hynny at gollu'r cyfleuster olaf o'i fath yn yr ardal leol.

**11.7.8** Mae colli cyfleusterau yn codi pryder yng nghyswllt Amcan 7B yr AC, ond ni all rheoli datblygiad trwy'r system gynllunio ymdrin â cholli cyfleusterau o'r fath lle nad oes angen caniatâd cynllunio, a lle nad yw'r cyfleusterau'n ddichonadwy nac yn boblogaidd. Mae rhai pryderon nad yw goblygiadau'r golled bob amser yn cael eu hystyried yn llawn, a rhoddir sylw i hynny yn Adran 4.2 uchod, lle'r awgrymir trafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

#### ***Dangosydd 46: Darparu manau agored ar gyfer datblygiadau newydd***

**11.7.9** Gall sicrhau bod lefel briodol o fannau agored i ddiwallu anghenion y gymuned gynorthwyo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant cyffredinol, gan alluogi pobl i fod yn fwy corfforol actif a gallu bod â rhywle i ddianc rhag pethau yn eu hardal leol. Lle nad yw datblygiad newydd yn gwneud darpariaeth briodol, gall hynny gael effaith ar y gymuned a rhoi pwysau ar y cyfleusterau presennol.



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.7.10** Mae'r diffyg darpariaeth yn codi pryder yng nghyswllt Amcan 7A yr AC. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd rheswm pam na ellid sicrhau darpariaeth, ond nodwyd y dangosydd hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLI (gweler Adran 6.4), ac mae bwriad i roi sylw i'r materion hyn trwy drafodaeth bellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu a mabwysiadu'r CCA Mannau Agored a Mannau Glas. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

### Amcan 7C yr AC: Lleihau/lleiafu nifer yr achosion o dlodi a'u heffeithiau trwy fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau tlodi

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
49	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT</p> <p><i>Dangosyddion Cyd-destunol:</i> Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig;</p> <p>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;</p> <p>Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Prif Darged:</p> <p>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026</p> <p>Targedau Interim:</p> <p>2011/14: - 1,458 2014/17: +1,326 2017/20: +1,326 2020/23: +1,326 2023/26: +1,326</p> <p>Targed Blynyddol: Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd</p>	<p>Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio yn sgîl rhyddhau ystadegau diweddarach, ond at ei gilydd mae'r enillion net o ran swyddi yn CNPT yn rhagori ar y targed (gweler Adran 7.1)</p> <p>Dylai cynyddu lefelau cyflogaeth gael effaith gadarnhaol ar lefelau tlodi</p>	
53	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT</p> <p><i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026</p>	<p>Mae cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT wedi codi, tra bod cyfartaledd Cymru wedi gostwng rhywfaint. Dylai gwelliannau o ran gweithgaredd economaidd gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar lefelau tlodi</p>	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
54	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd diweithdra CNPT</p> <p><i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig</p>	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026	Mae cyfradd diweithdra CNPT wedi gostwng, gan ragori ar y targed. Dylai fod goblygiadau cadarnhaol i hyn o safbwynt tlodi.	

### Dadansoddi

**11.7.11** Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Y prif dull sydd gan y CDLI o fedru cyfrannu at unrhyw ostyngiad yn lefelau tlodi yw trwy ei strategaeth gyflogaeth a'i bolisiau a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer datblygiadau sy'n cynhyrchu cyflogaeth newydd.

**11.7.12** Mae'r dangosyddion sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd yn cyfleu darlun cadarnhaol at ei gilydd, gyda'r rhai sy'n ymwneud ag effeithiau ar dlodi yn perfformio'n gymharol dda. Yn arbennig, mae cyfraddau cyflogaeth yn codi, fel y mae cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot, tra bod diweithdra'n gostwng. Mae hyn yn awgrymu effaith gadarnhaol ar faterion tlodi. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

### 11.8 Thema 8 yr AC: Yr Economi

**Amcan 8A yr AC: Datblygu a chynnal seilwaith economaidd lleol sy'n ddeniadol i fusnesau ac yn diwallu anghenion newidiol y gymuned leol a chenedlaethol**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr (SW)	Bydd datblygiad newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol	O ran seilwaith economaidd, rhoddwyd sylw i effaith datblygiad newydd yn ystod y broses o benderfynu ar y cais cynllunio ym mhob achos yn ystod cyfnod yr adroddiad. Lle barnwyd bod hynny'n gam gweithredu priodol, mae cytundebau A.106 bellach yn eu lle i ymdrin ag effeithiau penodol	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
			cysylltiedig â'r datblygiadau arfaethedig, a hefyd i sicrhau bod anghenion defnyddwyr terfynol yn cael eu diwallu yn y dyfodol	
14	Dangosydd Lleol - Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	<p>Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 5,690 o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun</p> <p>Targedau Blynyddol:                  2011/12: 152                  2012/13: 134                  2013/14: 216                  2014/15: 268                  2015/16: 318                  2016/17: 379                  2017/18: 495                  2018/19: 553                  2019/20: 518                  2020/21: 513                  2021/22: 502                  2022/23: 468                  2023/24: 412                  2024/25: 387                  2025/26: 375</p>	Er bod y cyflenwi'n arafach na'r disgwyl, gwnaed cynnydd ar sawl safle yn y portffolio H1 yn ystod y cyfnod monitro presennol, naill ai drwy roi caniatâd cynllunio, neu trwy geisio cyngor cyn-ymgeisio manwl ar nifer o safleoedd. Bydd datblygu safleoedd preswyl newydd yn gyffredinol yn cynnal yr economi a'r seilwaith lleol	
22	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (FfDdY]	Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY)	Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr, gan ddarparu seilwaith newydd pwysig i gynnal datblygiad canol Port Talbot yn y dyfodol	
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	<p>Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 1,435 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun</p> <p>Targedau Blynyddol:                  2011/12: 61                  2012/13: 108                  2013/14: 44                  2014/15: 60                  2015/16: 90                  2016/17: 112                  2017/18: 92                  2018/19: 75                  2019/20: 122                  2020/21: 125                  2021/22: 117                  2022/23: 117                  2023/24: 112                  2024/25: 126                  2025/26: 74</p>	At ei gilydd, cyrhaeddwyd y targedau gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar y seilwaith economaidd lleol yn ardal y cymoedd	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
37	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir	Hyd yma, nid oes dim cynigion bywyd/gwaith wedi'u derbyn na'u caniatáu	0
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Darperir cyfanswm o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 262 2012/13: 287 2013/14: 301 2014/15: 386 2015/16: 486 2016/17: 549 2017/18: 625 2018/19: 686 2019/20: 698 2020/21: 676 2021/22: 647 2022/23: 614 2023/24: 553 2024/25: 542 2025/26: 488	Er bod lefel y tai a gwblhawyd yn is na'r targed blynyddol, mae'r datblygiad a fu ar waith yn debygol o fod wedi cael effeithiau cadarnhaol ar y seilwaith economaidd lleol	
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Cyflawni 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 7 2012/13: 5 2013/14: 22 2014/15: 37 2015/16: 72 2016/17: 90 2017/18: 115 2018/19: 130 2019/20: 124 2020/21: 120 2021/22: 111 2022/23: 102 2023/24: 90 2024/25: 89 2025/26: 86	Hyd yma mae nifer yr unedau tai fforddiadwy a gyflwynwyd wedi bod yn sylweddol is na'r targedau a bennwyd o fewn y fframwaith. Er bod lefelau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn is nag y rhagwelwyd, bydd y rhai a gyflwynir yn cael effaith gadarnhaol ar seilwaith economaidd	
52	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr	Prif Darged:  Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026  Targedau Interim:  2011/14: 7,000 m. sg. 2014/17: 7,000 m. sg. 2017/20: 7,000 m. sg. 2020/23: 7,000 m. sg.	Cyfeiriwch at adran 7.1 am fanylion ynghylch y dangosydd hwn. Er bod lefel yr arwynebedd llawr newydd ar gyfer cyflogaeth newydd wedi syrthio o dan y targed, dengys dangosyddion cyflogaeth eraill yn yr AMB fod proffil economaidd CNPT wedi gwella'n sylweddol, sy'n dangos bod swm yr arwynebedd llawr y	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		2023/26: 7,000 m. sg.  Targed Blynyddol: Datblygu cyfartaledd o 2,250 m.sg. o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cronol o 4,500 m.sg. i'w datblygu dros	rhagwelwyd yn wreiddiol bod angen amdano heb fod yn angenrheidiol i gynnal creu swyddi newydd	
56	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 3 chais ar gyfer campfeydd ar safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd, gan leihau argaeledd safleoedd cyflogaeth presennol.	
57	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 3 chais yn groes i'r hierarchaeth. Fodd bynnag, bydd 2 o'r rhain yn darparu siopau newydd, fydd yn gwella'r seilwaith economaidd lleol	
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Caniatawyd 1 cais ar gyfer datblygiad manwerthu ar raddfa fach, a fydd yn ychwanegu at y seilwaith economaidd lleol	
59	Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd tri chais, yr oedd pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi a'r seilwaith economaidd lleol oedd yn ei gynnal	
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 1 cais, ond gan gadw'r swyddogaeth gyflogaeth ac yn unol â'r fframwaith polisi	0

### Dadansoddi

**11.8.1** Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r amcan AC hwn yn ystyried i ba raddau mae Polisiâu'r CDLI yn cyfrannu at ddatblygiad y seilwaith economaidd lleol.

**11.8.2** Mae'r Cynllun yn dyrannu ac yn ceisio amddiffyn amrywiaeth o safleoedd at ddefnyddiau cyflogaeth. Er bod rhai datblygiadau'n mynd rhagddynt yn arafach nag y rhagwelwyd yn wreiddiol, maent serch hynny yn helpu i gynnal y seilwaith economaidd lleol trwy ddarparu cyflogaeth yn y cam adeiladu a'r tymor hwy, darparu cartrefi newydd,

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

a darparu'r ffyrdd a'r seilwaith lleol i wasanaethu'r datblygiad newydd. Mae rhai o'r datblygiadau'n ymrwymadau tymor hir, a bydd angen nifer o flynyddoedd i'w datblygu a'u cwblhau.

**11.8.3** At ei gilydd, o ran yr amcan AC hwn, mae'r dangosyddion yn cyflwyno canlyniadau sy'n gyffredinol gadarnhaol. Rhoddir sylw i'r rhai nad ydynt isod.

### **Dangosydd 56: Ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd**

**11.8.4** Mae'r dangosydd hwn yn amlygu bod 3 chais ar gyfer campfeydd wedi'u caniatáu ar safleoedd cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro. Er bod y ceisiadau hyn o bosibl wedi bod yn groes i'r fframwaith polisi, wrth gymeradwyo, mae'r Cyngor wedi pennu cyfyngiadau a fydd yn helpu i reoli a monitro defnydd yn yr ardal gyflogaeth.

**11.8.5** O ran yr AC, er bod y gyflogaeth draddodiadol a ddefnyddir wedi newid o ddefnydd dosbarth B i D2, mae'n dal i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth. Effaith gymysg a geir, felly, gyda chanlyniadau cadarnhaol a negyddol, y negyddol yn sgîl colli defnydd cyflogaeth B, a'r cadarnhaol yn sgîl cadw defnydd sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth. Ceir rhagor o fanylion ynghylch ystyried y dangosydd hwn yn Adran 7.1.

**Amcan 8B yr AC: Datblygu a chynnal economi sy'n diogelu ochr yn ochr â chydweddu, hybu a gwella buddsoddiad mewn adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol, a'r defnydd ohonynt**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
15	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (preswyl)	Darparu 2,400 o unedau tai newydd erbyn 2026  Targedau Blynyddol: 2011/12: 0 2012/13: 3 2013/14: 72 2014/15: 100 2015/16: 125 2016/17: 140 2017/18: 170 2018/19: 190 2019/20: 215 2020/21: 215 2021/22: 215 2022/23: 225 2023/24: 235 2024/25: 245 2025/26: 250	Datblygwyd llai o unedau tai na'r disgwyl yng Nghoed Darcy, ond yn gyffredinol mae'r datblygiad yn cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
16	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir	Bydd isafswm o 4ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth,	Ni fu unrhyw ddatblygiadau cyflogaeth newydd yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro, ond at ei	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (cyflogaeth)	gydag isafswm o 0.33ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.66ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	gilydd mae'r datblygiad yn cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
19	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (preswyl)	Darparu 385 o unedau tai newydd erbyn 2026  Targedau Blynyddol: 2011/12: 0 2012/13: 0 2013/14: 0 2014/15: 0 2015/16: 35 2016/17: 0 2017/18: 10 2018/19: 30 2019/20: 30 2020/21: 50 2021/22: 50 2022/23: 50 2023/24: 50 2024/25: 50 2025/26: 30	Mae'r gwaith o gyflwyno tai yn cadw at y targed ar hyn o bryd. At ei gilydd, mae'r datblygiad yn cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 7ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.92ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	Mae datblygiad safleoedd cyflogaeth yn cadw at y targedau'n fras. At ei gilydd, mae'r datblygiad yn cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
21	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (manwerthu)	Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr, yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref	Ni chymeradwywyd datblygiadau manwerthu newydd yng Nglannau'r Harbwr yn ystod y cyfnod monitro	0
24	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (preswyl)	Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17	Mae'r datblygiad tai yn mynd rhagddo. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
25	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn	Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd:	Mae'r datblygiad manwerthu yn mynd rhagddo. At ei gilydd, dylai'r datblygiad	



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (manwerthu)	Cyfnod 1 - Erbyn 2016 (yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd)  Cyfnod 2 - Erbyn 2020	gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
26	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (preswyl)	Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18	Mae'r datblygiad tai yn mynd rhagddo'n unol â'r amserlen. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
27	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (manwerthu)	Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot erbyn 2020	Mae'r datblygiad manwerthu yn mynd rhagddo'n unol â'r amserlen. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
28	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (preswyl)	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17	Mae'r datblygiad tai arfaethedig yn Lido Afan yn cadw'n fras at y targed. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (twristiaeth/adloniant)	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020	Mae elfennau twristiaeth/adloniant y datblygiad yn Lido Afan yn cadw'n gyffredinol at y targed. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
30	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015:  Y gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013  Yr adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau ym mis Mai 2014  Cwblhawyd yr holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl ym mis Mai 2015  Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015	Mae Campws y Bae wedi agor ac yn cael ei ddefnyddio, gan wneud cyfraniad sylweddol i'r buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	



## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021	Ni chymeradwywyd datblygiad hyd yma	0
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Caniatawyd 1 cais ar gyfer datblygiad manwerthu ar raddfa fach, sy'n cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
59	Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd sawl cais ar gyfer datblygiadau twristiaeth sy'n cyfrannu at fuddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio	
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 1 cais i newid defnydd adeilad o ddefnydd twristiaeth, ond byddai'n cadw swyddogaeth gyflogaeth	0
70	<i>Dangosydd Craidd:</i> Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN)  <i>Dangosydd Lleol:</i> Cyflenwad tir agregau	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun	Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir o 33 blynedd, a seiliwyd ar gyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd (2005-2014) (cyfeirier at Adran 8.4). Dylai hyn helpu i sicrhau bod modd echdynnu'r adnoddau lleol hyn lle bo angen mewn modd cynaliadwy	
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar weithio unrhyw adnodd mwynau yn y dyfodol	
72	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu agregau mwynau yn cydweddu â Pholisi M2	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chyflwynwyd ceisiadau am echdynnu glo yn ystod y cyfnod monitro	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
73	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oedd yn groes i Bolisi M3	

### Dadansoddi

**11.8.6** Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r amcan AC hwn yn ystyried i ba raddau mae adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn.

**11.8.7** Oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot, mae cryn dipyn o ddatblygu arfaethedig ar nifer o safleoedd tir llwyd mawr yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau defnydd cymysg yng Nghoed Darcy, Glannau'r Harbwr, Canol Tref Castell-nedd, Ysgol Glanafan a Lido Afan. Mae safle tir llwyd mawr ym Mae Baglan hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth.

**11.8.8** Gallai'r datblygiadau hyn ddod ag effeithiau cadarnhaol trwy ddefnydd buddiol o safleoedd tir llwyd (y mae rhai ohonynt wedi cael eu hadfer yn sylweddol oherwydd eu gorffennol diwydiannol), a gwneud defnydd priodol o'r adnoddau y maent yn eu cynnig, gan greu buddion i'r gymuned ehangach, a gwella'u cyfraniad cadarnhaol.

**11.8.9** Mae'r dangosyddion yn cyfleu darlun cadarnhaol at ei gilydd, a byddant yn parhau i gael eu monitro.

**Amcan 8C yr AC: Datblygu a chynnal economi sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol, yn eu defnyddio, ac yn cydweddu â hwy**

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
16	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 4ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.66ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	Ni fu unrhyw ddatblygiadau cyflogaeth newydd yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro	0

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 7ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.92ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	Mae datblygiad safleoedd cyflogaeth yn cadw at y targedau yn gyffredinol, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar y dangosydd.	
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (twristiaeth/adloniant)	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020	Mae elfennau twristiaeth / adloniant arfaethedig y datblygiad yn Lido Afan yn cadw at y targed yn gyffredinol, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar y dangosydd hwn	
30	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015:  Y gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013  Yr adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau ym mis Mai 2014  Cwblhawyd yr holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl ym mis Mai 2015  Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015	Agorodd y Campws yn ffurfiol ym mis Medi 2015, ac erbyn hynny roedd yr adeiladau academaidd a'r llety preswyl oedd yn rhan o Gyfnod 1a wedi'u cwblhau, yn unol â'r fframwaith monitro. Ers cwblhau Cyfnod 1a, mae'r rhan fwyaf o Gyfnodau 1b ac 1c naill ai wedi cael eu cwblhau neu ar waith ar hyn o bryd ac yn agos i'w cwblhau, ac mae rhai rhannau o'r datblygiad hwn wedi'u cwblhau 5 mlynedd o flaen yr amserlen wreiddiol. Mae'r datblygiad yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar yr amcan hwn	
37	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir	Hyd yma, nid oes dim cynigion bywyd/gwaith wedi'u derbyn na'u caniatáu	0
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021	Hyd yma ni chymeradwywyd datblygiad	0
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Caniatawyd 1 cais ar gyfer datblygiad manwerthu ar raddfa fach, a gallai gael effeithiau cadarnhaol ar y dangosydd hwn	
59	Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi	Mae sawl cais wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer datblygiadau twristiaeth, fel bod effeithiau cadarnhaol ar y dangosydd hwn	

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 1 cais i newid defnydd adeilad o ddefnydd twristiaeth, ond byddai'n cadw swyddogaeth gyflogaeth, ac mae'n cyd-fynd â'r fframwaith polisi	0

### Dadansoddi

**11.8.10** Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hyn yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Yn yr amcan AC hwn edrychir ar i ba raddau mae sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn.

**11.8.11** At ei gilydd mae'r dangosyddion yn cyflwyno darlun cadarnhaol, ac mae sgiliau a gwybodaeth lleol yn chwarae rhan yn y gwaith o gyflawni'r strategaeth. Bydd y dangosyddion hyn yn parhau i gael eu monitro.

## 11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

## **RHAN 4 - Diweddglo ac Argymhellion**

## 12 . Diweddglo ac Argymhellion

### 12 Diweddglo ac Argymhellion

*'Dylai'r AMB ddarparu gwybodaeth ynghylch i ba raddau mae'r amcanion a nodwyd yn y CDLI yn cael eu cyflawni, nodi unrhyw bolisi nad yw'n cael ei weithredu a rhoi'r rhesymau, ynghyd ag unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau gweithrediad y polisi ac unrhyw fwiad i ddiwygio neu ddisodli'r CDLI (adran 76 o Ddeddf 2004; Rheoliad CDLI 37). Dylai nodi unrhyw newidiadau i rannau allweddol o'r cynllun y byddai angen eu hystyried mewn adolygiad a phroses bosibl o ddiwygio'r cynllun.'*<sup>(31)</sup>

**12.0.1** Hwn yw'r AMB cyntaf i gael ei baratoi ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol.

**12.0.2** Mae'r cyfnod monitro cychwynnol hwn wedi dangos bod amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni, a bod y polisiâu i raddau helaeth yn cyflawni ac yn cyrraedd eu targedau, er bod cynnydd mewn rhai meysydd rywfaint yn arafach na'r disgwyl. Gan fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod cyntaf o fonitro, ni ellir canfod tueddiadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hynny'n parhau i gael ei fonitro mewn adroddiadau blynyddol dilynol.

**12.0.3** Ceir trosolwg o ganlyniadau'r monitro yn y tabl canlynol:

Tabl 12.0.1 Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Cam Gweithredu	Number of Indicators within Category
Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau	75
Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwiadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	9
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	5
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliid yn wreiddiol	Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	0

**12.0.4** Mae canlyniad cadarnhaol i'w weld yn achos mwyafrif llethol y dangosyddion yn ystod y cyfnod monitro cyntaf. Serch hynny, mae nifer bach o ddangosyddion sy'n dangos nad yw rhai polisïau'n cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd. Yn yr achosion hynny, cynhelir trafodaethau pellach gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu mewn ymgais i ddatrys y materion dan sylw.

**12.0.5** Dylid nodi, yn hyn o beth, bod rhai o'r polisïau yn gwbl newydd i'r fframwaith polisi lleol, ac o ganlyniad, gallai hynny fod yn esboniad rhannol ynghylch pam mae rhai anghysondebau o ran eu gweithredu. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ynghylch rhai o'r meysydd hyn hefyd yn cael eu mabwysiadu yn y man, a bydd y dogfennau hynny'n darparu canllawiau manylach ynghylch gweithredu'r polisi.

**12.0.6** Yn ogystal, mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud ag ymddangosiad Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) eraill, gan amlygu nad ydynt wedi cael eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, mae rhesymau y gellir eu cyfiawnhau am yr oedi wrth baratoi'r dogfennau canllaw, a bydd y CCA sy'n weddill yn cael eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

### Argymhelliad

**12.0.7** O ganlyniad i ganfyddiadau AMB 2017, deuir i'r casgliad bod y CDLI yn cyflawni ei strategaeth twf a seiliwyd ar gyflogaeth, sy'n allweddol er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun. Nid oes ffactorau ar hyn o bryd i awgrymu bod angen gwneud newidiadau i'r Cynllun, ac o ganlyniad, nid oes angen adolygiad cynnar o'r Cynllun (yn rhannol nac yn llawn) ar hyn o bryd.

**12.0.8** Mae'r AMB hwn yn darparu data gwaelodlin ar gyfer dadansoddi cymharol yn y dyfodol, a chasgliadau rhagarweiniol a fydd yn fodd i AMBau olynol yn y dyfodol ganfod tystiolaeth ynghylch tueddiadau.

**12.0.9** Yn unol â'r gofynion statudol bydd y Cyngor yn cyflwyno AMB 2017 i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017, a bydd yn cyhoeddi'r AMB ar wefan y Cyngor.



## 12 . Diweddglo ac Argymhellion



Neath Port Talbot  
Castell-nedd Port Talbot  
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol



[www.npt.gov.uk/ldp](http://www.npt.gov.uk/ldp)



Local Development Plan  
Cynllun Datblygu Lleol